



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

67/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:

13/12/2018

Gwerthusiad Canol Tymor o Wasanaethau Cymorth Busnes yng Nghymru

Gwerthusiad Canol Tymor o Wasanaethau Cymorth Busnes yng Nghymru

Ali Zaidi, Priya Shah a Shane Beadle, ICF Consulting Services Ltd



Adroddiad Ymchwil Llawn: < Zaidi, A; Shah, P; a Beadle, S (2018). *Gwerthusiad o Wasanaethau Cymorth Busnes yng Nghymru: adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 67/2018

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/statistics-and-research/evaluation-business-support-services-wales/?lang=cy>

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Tom Stevenson

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 062 2570

E-bost: tom.stevenson2@llyw.cymru

Tabl Cynnwys

Tabl Cynnwys	1
Rhestr o dablau	2
Rhestr o ffigurau	4
Rhestr termau	5
1. Cyflwyniad/Cefndir	6
2. Strwythur a rheolaeth rhaglenni Busnes Cymru	18
3. Perfformiad yn erbyn y cynllun	33
4. Ymgysylltu â buddiolwyr	57
5. Ansawdd cyflenwi a rheoli	80
6. Canlyniadau, effeithiau a gwerth ychwanegol sy'n dod i'r amlwg	104
7. Casgliadau ac argymhellion	135
ATODIADAU	147
Atodiad 1: Modelau rhesymeg rhaglenni	147
Atodiad 2: Cefndir yr Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid	153

Rhestr o dablau

Tabl 2.1	Rhaglenni ERDF Busnes Cymru	22
Tabl 2.2	Cymorth a ddarparwyd i fusnesau Lefel 1-4	25
Tabl 3.1	Perfformiad prosiectau cefnogi BBaChau yn nwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn erbyn y cynllun hyd at fis Mawrth 2018, yn ôl targed a phrosiect (% y targed mewn cromfachau).....	38
Tabl 3.2	Canran y targedau chwarterol a gyflawnwyd gan brosiectau cefnogi BBaChau yn nwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd hyd at fis Mawrth 2018, yn ôl targed a chwarter (gwirioneddol mewn cromfachau) ...	39
Tabl 3.3	Perfformiad prosiectau cefnogi entrepreneuriaeth yn nwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn erbyn y cynllun hyd at fis Mawrth 2018, yn ôl targed a phrosiect (% y targed mewn cromfachau).....	41
Tabl 3.4	Canran y targedau chwarterol a gyflawnwyd gan brosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth yn nwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd hyd at fis Mawrth 2018, yn ôl chwarter ac allbwn (gwirioneddol mewn cromfachau)	42
Tabl 3.5	Perfformiad prosiectau'r SFBE yn nwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn erbyn y cynllun hyd at fis Mawrth 2018, yn ôl targed a chwarter (% y targed mewn cromfachau)	44
Tabl 3.6	Canran y targedau chwarterol a gyflawnwyd gan brosiectau'r SFBE yn nwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd hyd at fis Mawrth 2018, yn ôl chwarter ac allbwn (gwirioneddol mewn cromfachau).....	44
Tabl 3.7	Perfformiad Rhaglen Craidd a Thwf Busnes Cymru yn erbyn y cynllun hyd at fis Mawrth 2018	46
Tabl 3.8	Canran y targedau chwarterol a gyflawnwyd gan y Rhaglen Craidd a Thwf hyd at fis Mawrth 2018, yn ôl targed a chwarter (gwirioneddol mewn cromfachau).....	47
Tabl 3.9	Perfformiad yn erbyn cynllun y Rhaglen Cyflymu Twf, hyd at fis Mawrth 2018 (% y targed mewn cromfachau)	49
Tabl 3.10	Canran y targedau chwarterol a gyflawnwyd gan y Rhaglen Cyflymu Twf, fesul chwarter a tharged (gwirioneddol mewn cromfachau).....	50
Tabl 3.11	Perfformiad y rhaglen SFBE yn erbyn ei thargedau'r flwyddyn hyd yn hyn, hyd at fis Mawrth 2018 (% y targed mewn cromfachau)	51

Tabl 3.12	Canran y targedau chwarterol a gyflawnwyd gan y rhaglen SFBE hyd at fis Mawrth 2018, fesul chwarter a tharged (gwirioneddol mewn cromfachau) .	52
Tabl 3.13	Perfformiad y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn erbyn ei thargedau'r flwyddyn hyd yn hyn, hyd at fis Mawrth 2018 (% y targed mewn cromfachau)	54
Tabl 4.1	Cymorth a roddwyd i fusnesau ar Lefel 1-4 hyd at fis Mawrth 2018	66
Tabl 4.2	Recrwtio a gweithdai Ymgysylltu fesul rhanbarth, mis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2018	74
Tabl 4.3	Cyfran y buddiolwyr ym mhob awdurdod lleol a wnaeth dderbyn cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg, hyd at fis Mawrth 2018	78
Tabl 6.1	Cynnydd o ran allforion yn ôl lefel y buddiolwyr (gan eithrio busnesau newydd)	123
Tabl 6.2	Cynnydd o ran allforion yn ôl lefel y buddiolwyr (gan eithrio busnesau newydd)	123
Tabl 6.3	Cynnydd mewn allforion yn ôl sector (gan eithrio busnesau newydd)	124
Tabl 6.4	Cynnydd mewn swyddi yn ôl lefel y buddiolwr	125

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1.1	Trosolwg o'r camau.....	11
Ffigur 4.1	Cyfran y buddiolwyr sy'n derbyn cymorth anariannol fesul sector.....	68
Ffigur 4.2	Cyfran buddiolwyr Rhaglen Cyflymu Twf / Rhaglen Craidd a Thwf Busnes Cymru fesul rhanbarth Cymru	69
Ffigur 4.3	Oedran buddiolwyr Rhaglen Cyflymu Twf / Rhaglen Craidd a Thwf Busnes Cymru sy'n derbyn cymorth anariannol.....	70
Ffigur 4.4	Cyfran y buddiolwyr SFBE fesul sector economaidd	71
Ffigur 4.5	Cyfran y buddiolwyr SFBE fesul rhanbarth Cymru.....	72
Ffigur 4.6	Oedran buddiolwyr SFBE	72
Ffigur 4.7	Cyfran y buddiolwyr Grymuso sy'n derbyn cymorth fesul rhanbarth Cymru	74
Ffigur 4.8	Cyfran y buddiolwyr Entrepreneuriaeth leuenctid fesul sector economaidd	75
Ffigur 4.9	Cyfran y perchnogion busnes benywaidd fesul rhaglen.....	77
Ffigur 5.1	I ba raddau yr oedd y gwasanaeth y gwnaethoch ei dderbyn yn cymharu â'ch disgwyliadau?	83
Ffigur 5.2	I ba raddau yr ydych chi'n cytuno bod gwefan Busnes Cymru yn darparu'r cymorth sydd ei angen?	87
Ffigur 5.3	Trefniadaeth a gwybodaeth gweithdai	94
Ffigur 5.4	Gwerth y gweithdy i'r sefydliad.....	94
Ffigur 6.1	Mathau o gyngor neu gymorth y gwnaeth buddiolwyr Lefel 1–2 Busnes Cymru eu derbyn	108
Ffigur 6.2	Mathau o gyngor neu gymorth y gwnaeth buddiolwyr Lefel 3–4 Busnes Cymru eu derbyn	109
Ffigur 6.3	Mathau o gyngor neu gymorth y gwnaeth buddiolwyr y Rhaglen Cyflymu Twf eu derbyn.....	110
Ffigur 6.4	Gwerth ychwanegol gros fesul pen y boblogaeth (dull gweithredu incwm) ar brisiau sylfaenol cyfredol, 2007–2016.....	129
Ffigur 6.5	Cyfraddau genedigaethau busnesau yng Nghymru a'r DU, 2007–2016.....	130
Ffigur 6.6	Canfyddiadau entrepreneuriaeth ymhlith unigolion nad ydynt yn weithredol entrepreneuraidd yng ngwledydd cartref y DU, 2017	131

Rhestr termau

Acronym / Gair allweddol	Diffiniad
BBaCh	Busnesau bach a chanolig
Buddiolwyr	Busnesau/unigolion sy'n derbyn cymorth gan Busnes Cymru
Busnes bach	Busnes gyda rhwng 10 a 49 o gyflogeion a chyda llai na €10 miliwn o drosiant blynyddol
Busnes canolig	Busnes gyda rhwng 50 a 249 o gyflogeion a chyda llai na €50 miliwn o drosiant blynyddol
Cyfraddau genedigaethau busnesau	Nifer y busnesau a gaiff eu creu mewn blwyddyn fel cyfran o'r holl fusnesau gweithredol mewn ardal
Cyfradd sboncio	Cyfradd sboncio yw cyfran y defnyddwyr sy'n rhyngweithio unwaith â'r wefan – h.y. yn mynd i'r dudalen hafan ac yna'n gadael heb fynd i unrhyw dudalennau gwe neu ddolenni pellach
ERDF	Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Microfusnes	Busnes gyda llai na phump cyflogai a chyda llai na €2 miliwn o drosiant blynyddol
NBSS	Rhaglen Cymorth Dechrau Busnes Newydd
ONS	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
REAP	Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol
Rhaglen Craidd a Thwf	Buddiolwyr Busnes Cymru – gwasanaeth sy'n darparu cymysgedd o gymorth i fusnesau ac entrepreneuriaid dros y ffôn, ar-lein ac wyneb yn wyneb
SFBE	Rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn
WEFO	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

1. Cyflwyniad/Cefndir

- 1.1 Hwn yw'r gwerthusiad canol tymor ar gyfer gwasanaethau cymorth busnes yng Nghymru. Mae'n mynd ati'n benodol i archwilio gweithrediad ac effaith gynnar rhaglenni Busnes Cymru a Manteisio ar Fand Eang Cyflym lawn, a ddechreuodd yn 2016 ac sydd i fod i barhau tan fis Rhagfyr 2020. Cafodd y gwerthusiad ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'i gyflawni gan ICF Consulting Services Ltd rhwng mis Mai 2017 a mis Hydref 2018.

Cyd-destun a chefnidir

- 1.2 Mae bwlch cynhyrchiant cyson yn bodoli rhwng economi Cymru ac economi'r DU yn gyffredinol. Gwelir gwahaniaethau cynhyrchiant mawr o fewn Cymru hefyd. Mae'r gwerth ychwanegol gros fesul pen o'r boblogaeth yn is o lawer mewn awdurdodau lleol yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (£9,200 yn is na chyfartaledd y DU) nag yn y rhai hynny yn nwyrain Cymru (£4,300 yn is na chyfartaledd y DU). Dau sbardun allweddol o'r bwlch hwn yw prinder sgiliau ac (yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd) lefelau uwch o ddiweithdra.¹
- 1.3 Yn ogystal, mae gweithgareddau entrepreneuriaidd Cymru'n llusgo eu traed y tu ôl i rai'r DU yn gyffredinol. Parhaodd y cyfraddau genedigaethau busnesau i fod 2.3 pwynt canran yn is yng Nghymru nag yn y DU yn gyffredinol² yn ystod 2016, ac maent wedi bod rhwng 1.5 a 3.0 pwynt canran yn is na gweddill y DU yn gyson ers y ddeng mlynedd ddiwethaf. Dengys canlyniadau Monitor Entrepreneuriaeth y Byd 2017 y gallai agweddau tuag at entrepreneuriaeth fod yn gyfrifol am hyn, gyda llai o ganran o ymatebwyr i'r arolwg yng Nghymru'n credu bod cyfleoedd da am entrepreneuriaeth yn eu hardal yn ystod y chwe mis nesaf o'u cymharu â'r DU yn gyffredinol (30% o'i gymharu â 38%). Roedd hyn er gwaethaf y ffaith fod y cyfraddau entrepreneuriaeth yng Nghymru yn ystod y cyfnod cynnar yn debyg i weddill y DU.
- 1.4 I fynd i'r afael â'r broblem hon, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi cyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) i gefnogi twf ac entrepreneuriaeth

¹ Rhaglenni Gweithredol dwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, 2014

² ONS 2016, Genedigaethau a marwolaethau busnesau yn ôl rhanbarth o'r DU, 2017

busnesau yng Nghymru. Yn ystod rhaglen 2007–13 yr ERDF, cyflawnwyd dwy raglen:

- **Y Rhaglen Ymgysylltu â Chwsmeriaid**, a oedd yn darparu gwasanaethau cymorth busnes i fentrau bach a chanolig (BBaChau) a oedd yn bodoli eisoes, drwy wefan Cymorth Hyblyg i Fusnes, cymorth dros y ffôn a gwasanaeth cynghori wyneb yn wyneb
- **Y Rhaglen Cymorth Dechrau Busnes Newydd (NBSS³)**, a oedd yn darparu cymorth cyn dechrau i fuddiolwyr hunangyflogedig a chymorth cyn ac ar ôl dechrau i fusnesau newydd gyda photensial i dyfu a graddedigion sy'n dechrau busnes. Roedd y gwasanaeth yn darparu sesiynau blasu, gweithdai, cymorthfeydd un-i-un, a chynghor a mentora dwys un-i-un.

1.5 Rhannwyd pob rhaglen yn ddau brosiect, un ar gyfer dwyrain Cymru ac un ar gyfer gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

1.6 Mae rownd bresennol yr ERDF ar gyfer 2014-20 yn cynnwys dau brosiect yn nwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd i gefnogi BBaChau ac entrepreneuriaeth sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru. Caiff y rhain eu cyflwyno o dan un brand, **Busnes Cymru**, fel yr argymhellwyd gan werthusiadau'r rhaglenni Ymgysylltu â Chwsmeriaid ac NBSS. O fewn y rhain, ceir rhaglenni penodol:

- **Gwasanaeth Craidd a Thwf Busnes Cymru**, sy'n darparu 'siop un stop' i gefnogi entrepreneuriaid a galluogi BBaCh yng Nghymru i dyfu a chreu swyddi. Mae'r rhaglen yn cynnwys porth ar-lein a llinell gymorth bwrpasol, taflenni ffeithiau, cyrsiau a thiwtorialau ar-lein, gweithdai wyneb yn wyneb, asesiad anghenion diagnostig, a chynghor busnes un-i-un. Mae'r rhaglen yn wasanaeth gwahaniaethol, gyda lefel y cymorth yn dibynnu ar botensial tyfu'r buddiolwr. Mae'r lefelau cymorth yn amrywio o Lefel 1 (microfusnesau a'r rhai hynny sy'n hunangyflogedig) i Lefel 4 (sefydliadau mwy o faint gyda photensial tyfu uchel). Mae'r lefelau cymorth yn gymwys i fusnesau sy'n bodoli eisoes a'r rhai hynny nad ydynt wedi dechrau eto.

³ Adroddiad gwerthuso terfynol y prosiectau Ymgysylltu â Chwsmeriaid a Chymorth Dechrau Busnes Newydd, Llywodraeth Cymru, 2016

- **Rhaglen Cyflymu Twf** i fusnesau a phobl sy'n dechrau busnes sydd â'r potensial am dwf uchel (a ddiffinnir fel 20% o gynnydd mewn trosiant o un flwyddyn i'r llall am bum mlynedd).
- Rhaglen ar **Entrepreneuriaeth leuenctid**, sy'n darparu sesiynau gwybodaeth a chymorth dwys i unigolion rhwng 14 a 25 oed ar fuddion dechrau busnes a chymorth i wneud hynny.
- Rhaglen i weithio gyda rhanddeiliaid i wella cysylltedd a thwf yn ecosystem Cymru (y **Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol - REAP**).

- 1.7 Yn ogystal, mae rownd yr ERDF ar gyfer 2014-20 yn cynnwys rhaglen cymorth busnes i helpu busnesau a phobl sy'n dechrau busnes i ddefnyddio'r band eang cyflym iawn a oedd yn cael ei gyflwyno ym mhob rhan o Gymru fel rhan o'r rhaglen Cyflymu Cymru. Cyflwynir y **Rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym iawn** hon (**SFBE**) fel prosiect ERDF ar wahân yn nwyrain Cymru ac yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, ond fel rhan o frand cyffredinol Busnes Cymru.
- 1.8 Mae'r holl raglenni yn cael eu rheoli gan staff Llywodraeth Cymru, ac mae ceisiadau chwarterol am gyllid yn cael eu cyflwyno i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Mae'r gwaith o gyflwyno'r rhan fwyaf o wasanaethau yn cael ei gontroctio allan i gontroctwyr annibynnol drwy broses dendro agored a chystadleuol. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rhaglenni eraill i gefnogi busnesau ac entrepreneuriaid. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Busnes Cymdeithasol Cymru, sy'n darparu cymorth busnes i entrepreneuriaid sy'n dymuno dechrau menter gymdeithasol a pherchnogion busnes sy'n dymuno mabwysiadu model cydberchnogaeth
 - Banc Datblygu Cymru, sy'n darparu benthyciadau ariannol neu ecwiti i fusnesau ac entrepreneuriaid dyfu neu ddechrau busnes
 - Cyswllt Ffermio, sy'n darparu cymorth busnes i fusnesau yn y sector amaeth
- 1.9 Nid yw'r rhaglenni hyn o fewn cwrdd y gwerthusiad hwn. Mae dwy o'r rhaglenni hyn (Cyswllt Ffermio a Busnes Cymdeithasol Cymru) yn cael eu gwerthuso ar wahân. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad yn edrych ar gyfatebolrwydd Busnes Cymru a'r SFBE â'r rhaglenni eraill hyn sy'n cyflwyno cymorth a chyllid busnes.

Nod yr astudiaeth

- 1.10 Nod y gwerthusiad hwn yw cynnal gwerthusiad tymor canolig cynhwysfawr o raglenni Busnes Cymru, sydd wedi'u cyflwyno fel rhan o raglen ERDF 2014-20. Mae'r gwaith ymchwil wedi cynnwys y canlynol:
- Adolygu dogfennau a ffynonellau data ar gyfer y rhaglenni er mwyn datblygu modelau rhesymeg i werthuso effeithiolrwydd ac effaith rhaglenni Busnes Cymru, a datblygu dull o werthuso'r effaith yn erbyn sefyllfa wrthffeithiol yng ngwerthusiad terfynol Busnes Cymru
 - Archwilio sut mae'r rhaglenni wedi'u gweithredu hyd yn hyn, er mwyn nodi pa agweddau ar gyflawni sy'n gweithio'n dda a pha agweddau y gellid eu gwella yn ystod gweddill cyfnod rhaglen yr ERDF
 - Asesu'r cynnydd sydd wedi'i wneud gan y rhaglenni o ran cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru a thargedau rhaglen yr ERDF, gan gynnwys y cynnydd yn erbyn themâu trawsbynciol y rhaglenni (cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal) a chefnogi'r Gymraeg
 - Archwilio effaith ddatblygol y rhaglen ar fusnesau ac unigolion, gan gynnwys nodweddion y rhai hynny sydd wedi elwa fwyaf ar y rhaglen
- 1.11 Mae'r astudiaeth yn darparu gwybodaeth a fydd yn cefnogi cyflawniad parhaus rhaglenni Busnes Cymru. Yn ogystal, mae'n gallu llywio cynlluniau Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau ac entrepreneuriaid ar ôl i raglen yr ERDF wedi dod i ben, pan fydd ymadawiad arfaethedig y DU o'r UE yn dod ag argaeledd cyllid strwythurol yr UE i ben.
- 1.12 Nod yr adroddiad hwn, ochr yn ochr â'r adroddiad dechrau prosiect a'r gwerthusiad canol tymor interim, oedd mynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil canlynol, fel y'u nodwyd ym manyleb y gwerthusiad:

Manyleb y gwaith ymchwil

Mae amcanion y gwerthusiad yn cynnwys y canlynol:

[1] Cynnal adolygiad o'r dystiolaeth o ran amcanion strategol ar gyfer gweithgareddau cymorth busnes yng Nghymru, ac asesu addasrwydd y gyfres o wasanaethau o dan Busnes Cymru, gan gynnwys manteisio ar fand

eang cyflym iawn ac o fewn y cyd-destun hwn.

[2] Llunio model rhesymeg ar gyfer Busnes Cymru a fydd yn cael ei ddefnyddio fel sylfaen i werthuso'r gwasanaethau, o'r cyfnod cychwynnol, drwyddo i'r tymor canolig ac i'r gwerthusiad terfynol. Dylai'r model rhesymeg bennu a fydd gweithgareddau'r gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Arwain at y canlyniadau a'r effeithiau a ragwelir
- Nodi unrhyw effeithiau ychwanegol posibl neu effeithiau na ellir eu rhagweld a gwneud awgrymiadau ar sut gellir mesur y rhain

[5] Dadansoddi'r systemau monitro sydd wedi'u cymeradwyo gan WEFO ar hyn o bryd ar gyfer pob gwasanaeth. Gwneud awgrymiadau ar gyfer gwelliannau pan fydd bylchau posibl yn cael eu nodi yn y gwaith monitro o ran cyflawni'r gwasanaethau ac at ddibenion gwerthuso. Hefyd, nodi i ba raddau y mae cynnydd wedi'i wneud a gorgyffwrdd wedi digwydd rhwng gwahanol elfennau o wasanaeth Busnes Cymru.

[6] Adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg er mwyn dangos yr argaeledd, y galw a'r cymorth a roddir drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â pha mor dda mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo drwy weithgareddau'r gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys nodi bylchau a gwneud argymhellion er mwyn sicrhau y bydd y gwasanaethau'n gallu dangos sut mae'r Gymraeg wedi'i hintegreiddio yn y gwasanaethau.

[7] Asesu a ellir llunio sefyllfa wrthffeithiol addas a digon cadarn i gynorthwyo'r gwaith gwerthuso ac amlinellu'r data a fyddai angen ei gasglu ar gyfer pob gwasanaeth yn y gyfres o wasanaethau o dan Busnes Cymru.

[8] Archwilio nodweddion busnesau a thwf busnesau sy'n cael cymorth a'r rhai hynny sy'n elwa fwyaf ar y cymorth a gynigir gan y gwasanaethau o dan Busnes Cymru a band eang cyflym iawn, a deall y rhesymau dros hyn.

[9] Adolygu effeithiolrwydd gweithgareddau ymgysylltu a chyflawni gwasanaethau Busnes Cymru a band eang cyflym iawn, gan gynnwys y llinell gymorth a'r wefan, ac awgrymu meysydd i'w gwella.


[10] Nodi unrhyw ddiwygiadau i amserlen y dull methodolegol a'r allbynnau ar gyfer gwerthuso gwasanaethau Busnes Cymru yn y tymor canolig o fewn y gyllideb gytunedig.

Methodoleg

Trosolwg

- 1.13 Cafodd yr astudiaeth ei chynnal mewn tri cham. Dengys trosolwg o'r camau hyn, a'r tasgau ymchwil allweddol a wnaethpwyd, isod:

Ffigur 1.1 Trosolwg o'r camau



- 1.14 Mae'r gwaith ymchwil a wnaethpwyd a'r cyfyngiadau i'r gwaith ymchwil wedi eu disgrifio'n fanwl isod.

Gwaith ymchwil a wnaethpwyd

Cam cychwynnol

- 1.15 Yn ystod y cam cychwynnol, gwnaethom asesu rhesymeg ac effaith bosibl rhaglenni Busnes Cymru er mwyn datblygu modelau rhesymeg ar lefel rhaglen ar gyfer y gwerthusiad. Cafodd y modelau rhesymeg eu defnyddio i ategu ein methodoleg a'n hoffer ar gyfer y gwerthusiad canol tymor, a gwnaethant nodi dulliau o gynnal gwerthusiad o'r effaith derfynol ar ddiwedd y rhaglen.
- 1.16 Yn ystod y cam cychwynnol, gwnaethom y canlynol:
- Cynnal cyfweiliadau rhannol strwythuredig gyda'r staff yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli'r pum rhaglen gan Busnes Cymru. Diben y cyfweiliadau oedd archwilio strwythur a chyflawniad y rhaglenni a'r disgwyliadau o ran eu canlyniadau a'u heffeithiau.
 - Adolygu dogfennau'r rhaglen er mwyn casglu rhagor o wybodaeth am resymeg a strwythur y rhaglenni. Roedd y rhain yn cynnwys achosion busnes rhaglenni,

dogfennau tendro ar gyfer gweithgareddau a gomisiynwyd, llawlyfrau gweithredu'r rhaglenni, templedi contractau, a chynlluniau monitro a gwerthuso ar lefel fusnes. Gwnaethom hefyd gasglu dogfennau lefel rhaglen o'r timau rhaglen (gan gynnwys cynlluniau cyflawni, contractau, canllawiau ar weithgareddau, meini prawf cymhwysedd a thargedau allbwn gweithgareddau).

- Cwblhau adolygiad llenyddiaeth i nodi llenyddiaeth academiaidd a llenyddiaeth lwyd sy'n gwerthuso canlyniadau'r rhaglenni sy'n cynnig cymorth busnes ac entrepreneuriaeth. Nod yr adolygiad llenyddiaeth oedd nodi dulliau posibl o fesur canlyniadau a sefyllfaoedd gwrthffeithiol rhaglenni, gan hefyd ddarparu gwybodaeth am brosiectau cymharol er mwyn asesu gwerth am arian. Nododd yr adolygiad llenyddiaeth gyfanswm o 47 o erthyglau ac adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf ar fentrau a oedd yn debyg i weithgareddau Busnes Cymru ac a oedd yn targedu BBaChau mewn cyd-destunau tebyg, a defnyddiodd dystiolaeth gadarn gan ddefnyddio dulliau cymysg i werthuso effeithiau'r rhaglenni.

- 1.17 Cafodd y gwaith ymchwil ar gyfer y cam cychwynnol ei wneud rhwng mis Mai a mis Awst 2017. Cyflwynwyd yr adroddiad cychwynnol drafft ym mis Medi 2017 a chyflwynwyd fersiwn derfynol ym mis Hydref 2017. Roedd hon yn cynnwys y modelau rhesymeg ar gyfer pob rhaglen, a lluniwyd fframwaith gwerthuso o'r rhain. Gellir gweld y modelau rhesymeg a ddefnyddiwyd i asesu cynnydd ac effaith y rhaglenni a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad canol tymor hwn yn Atodiad 1.

Y cam gwerthuso interim a'r cam gwerthuso terfynol

- 1.18 Cafodd y prif waith ymchwil ar gyfer y gwerthusiad canol tymor ei wneud mewn dau gam. Cynhaliwyd y cam gwerthuso interim rhwng mis Hydref 2017 a mis Ionawr 2018, a chyflwynwyd y canfyddiadau cynnar mewn adroddiad interim a gynhyrchwyd ym mis Chwefror 2018. Cynhaliwyd y cam gwerthuso canol tymor terfynol rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2018.

- 1.19 Cafodd y tasgau ymchwil canlynol eu gwneud yn ystod y ddau gam:

- **Cyfweliadau gyda'r saith contractwr a oedd yn cyflwyno gwasanaethau Busnes Cymru ac SFBE** (Serco, Busnes mewn Ffocws, Winning Pitch, Prospects Cymru, Impact Innovation, Cazbah Ltd, Antur Teifi). Edrychodd y

cyfweiliadau ar gyflwyniad a chydlyniant gwasanaethau, y perfformiad hyd yn hyn, heriau cyflawni, a rheolaeth y rhaglenni.

- **Cyfweiliadau rhannol strwythuredig gyda 24 o bartneriaid cyflenwi.**

Gwnaeth y cyfweiliadau edrych ar sut yr oedd gweithgareddau Busnes Cymru ac SFBE yn cael eu cyflwyno, a nodi beth sydd wedi gweithio'n dda a beth ellid ei wella a pham. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda'r canlynol:

- 12 o gynghorwyr busnes Busnes Cymru ac SFBE
- Chwe model rôl ar gyfer y rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid
- Tri phartner REAP sydd wedi cefnogi'r rhaglen

- **Cyfweiliadau â 90 o fuddiolwyr rhaglen.** Gwnaeth y cyfweiliadau edrych ar effaith gynnar cymorth Busnes Cymru ac SFBE ar fusnesau a'u barn nhw ar sut y gellid gwella'r gwasanaeth. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda'r canlynol:

- 12 o fuddiolwyr a dderbyniodd gymorth Lefel 1-2
- 20 o fuddiolwyr a dderbyniodd gymorth Lefel 3-4
- 20 o fuddiolwyr a dderbyniodd gymorth o'r Rhaglen Cyflymu Twf
- 18 o fuddiolwyr a dderbyniodd gymorth o'r SFBE
- 13 o ysgolion neu golegau y gwnaeth eu myfyrwyr elwa ar sesiynau Entrepreneuriaeth leuenctid
- Saith o bobl ifanc a fynychodd sesiynau bwtcamp y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid

- Cyfweiliadau gyda **deg rhanddeiliad** i edrych ar eu barn nhw ar raglenni Busnes Cymru a sut roeddent yn ategu ac yn gweithio gyda gwasanaethau cymorth busnes masnachol ac a ariannwyd yn gyhoeddus eraill. Gwnaethom gyfweld â staff ym Manc Datblygu Cymru, banciau lleol ac awdurdodau lleol a staff a oedd yn cyflwyno rhaglen Busnes Cymdeithasol Cymru.

- **Cyfweiliadau dilynol** gyda'r staff yn Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am reoli pum rhaglen Busnes Cymru. Diben y cyfweiliadau hyn oedd trafod gweithrediad y rhaglen ers y cam cychwynnol a phrofi canfyddiadau datblygol yr astudiaeth hefyd.

- **Dadansoddi data ar berfformiad.** Gwnaethom ddadansoddi'r data canlynol ar y rhaglen:
 - Data ar dargedau chwarterol a'r flwyddyn hyd yn hyn ar gyfer prosiectau ERDF a data ar dargedau monitro Llywodraeth Cymru.
 - Data ar y ffurflenni chwarterol a gyflwynwyd i WEFO rhwng mis Chwefror 2016 a mis Mawrth 2018. Rhannwyd hwn yn ôl y prosiectau ERDF ac yn ôl y data ar gyfer dwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd.
 - Data ar gynnydd contractwyr yn erbyn eu targedau chwarterol a'u targedau am y flwyddyn hyd yn hyn. Gall hyn fod yn wahanol i ffurflenni WEFO oherwydd gall gynnwys buddiolwyr lle nad oes digon o dystiolaeth i'w hawlio yn erbyn targedau'r ERDF.
- Data'r System Cyfrifon Busnes ar nodweddion buddiolwyr a'r math o gymorth y gwnaethant ei dderbyn. Mae'r System Cyfrifon Busnes yn darparu data cynhwysfawr ar bob buddiolwr sydd wedi'i gofrestru ar y rhaglen a'r rhai hynny sydd wedi cael eu hawlio yn erbyn targedau'r ERDF.⁴
 - Dadansoddiad gwe o nifer yr ymweliadau â'r wefan bob mis a sut mae defnyddwyr yn symud o amgylch y wefan.
 - Ffurflenni adborth gan fuddiolwyr ar ôl iddynt fynychu gweithdai SFBE. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth am farn buddiolwyr ar y sefydliad a gwerth y gweithdy.
- **Adolygu data a gwaith ymchwil ar fuddiolwyr.** Gwnaethom adolygu'r ffynonellau gwybodaeth canlynol:
 - Data o Don 3 Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid Busnes Cymru. Roedd yr arolwg o fodlonrwydd yn cynnwys ymatebion gan fwy na 300 o fuddiolwyr. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 2. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r rhain (53%, 159 o 302) yn fusnesau Lefel 1–2, felly mae'r dadansoddiad data ar gyfer busnesau Lefel 3–4 a buddiolwyr y Rhaglen Cyflymu Twf (Lefel 5)

⁴ Mae'r System Cyfrifon Busnes yn cofnodi gwybodaeth am bob buddiolwr a gofrestrodd gyda gwasanaeth Busnes Cymru ac sydd wedi'i hawlio yn erbyn allbynnau prosiect ERDF. Caiff ei mewnbynnu gan dîm prosiect Busnes Cymru. Mae'n wahanol i'r data a ddarperir gan gontractwyr, oherwydd mae gan gontractwyr wahanol feini prawf cymhwysedd ar gyfer allbynnau, ac mae hefyd yn cynnwys data na fydd yn cael ei ddilysu o bosibl er mwyn ei hawlio ar raglen yr ERDF.

a'r SFBE yn seiliedig ar samplau bychain (llai na 50) ac felly dylid ystyried y rhain yn fwy gofalus.

- Gwaith ymchwil a wnaethpwyd gan Brifysgol Caerdydd ar aeddfedrwydd digidol busnesau yng Nghymru. Mae hwn yn nodi'r anghenion digidol y mae'r rhaglen SFBE yn mynd i'r afael â nhw.
- Astudiaethau achos a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd ar effaith mentrau'r SFBE. Mae'r astudiaethau achos yn darparu gwybodaeth enghreifftiol ond dim ond yn ymdrin â chyfran fechan o fuddiolwyr, felly maent yn ychwanegu at y cyfweiliadau ansoddol y cynhaliwyd gennym.
- Arolwg o gyfranogwyr y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid mewn sesiynau Ymgysylltu (sy'n cynnwys disgyblion ysgol o dan 16 oed) a gynhaliwyd yn 2017 gan Beaufort Research. Mae'r arolwg yn cynnwys ymatebion gan fwy na 2,000 o fuddiolwyr.
- **Adolygu'r polisi a dadansoddi'r data ar y farchnad lafur.** Gwnaethom archwilio polisiâu diweddar Llywodraeth Cymru ar ddatblygiad a chymorth economaidd er mwyn gweld i ba raddau y caiff y rhain eu cefnogi gan raglenni Busnes Cymru. Yn ogystal, gwnaethom hefyd adolygu'r data ar y farchnad lafur a busnes er mwyn gweld effaith sefyllfaoedd economaidd ehangach ar yr alw am wasanaethau Busnes Cymru ac effaith y gwasanaethau hyn.

Cyfyngiadau ar y gwaith ymchwil

1.20 Dylid nodi y gwnaethom ddarganfod y canlynol wrth fynd i'r afael â gofynion yr astudiaeth:

- Roedd rhai o'r buddiolwyr a gyfwelwyd, yn enwedig y rhai hynny a oedd yn derbyn cymorth gan y Rhaglen Cyflymu Twf a'r SFBE, yn parhau i wneud newidiadau i'w busnesau o ganlyniad i'r cymorth yr oeddech wedi'i gael. Yn yr achosion hyn, nid oedd rhai o'r buddion disgwylidig wedi'u cyflawni ar adeg y cyfweiliad, ond mae'n bur debyg y gallent gael eu cyflawni cyn diwedd y rhaglen.
- Er i'r 90 o fuddiolwyr a gyfwelwyd ganiatáu i ni gynnal dadansoddiad o effaith gyffredinol y rhaglen a sut mae hyn yn amrywio yn ôl lefel y cymorth y cafodd y buddiolwr, nid oedd digon o gyfweiliadau i ganiatáu i ni rannu'r data ymhellach yn ôl math o fuddiolwr (e.e. entrepreneuriaid a busnesau) nac yn ôl sector.

- Ni chaiff data ar lefel fuddiolwr ei gasglu yn y rhaglen ar gyfer pobl ifanc sy'n cymryd rhan yn llinyn Ymgysylltu'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid, gan gynnwys eu sefydliad dysgu a'u nodweddion demograffig. O ganlyniad, nid oeddem yn gallu archwilio ystod oedran, ethnigrwydd na rhywedd cyfranogwyr na pha mor aml yr oedd ysgolion, colegau a sefydliadau addysg uwch yn cyflwyno sesiynau Ymgysylltu er mwyn asesu a oedd y llinyn hwn yn cael ei dargedu at ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd fel y'i bwriadwyd neu i ba raddau yr oedd yr holl bobl ifanc yn elwa ar y rhaglen.
- Ni wnaethom dderbyn data ar nifer y buddiolwyr a recriwtiwyd drwy wahanol ddulliau/sianeli. O ganlyniad, mae ein dealltwriaeth o effeithiolrwydd gwahanol ddulliau ymgysylltu'n seiliedig ar gyfweiliadau ansoddol â contractwyr a'r timau prosiect. Dylid casglu'r wybodaeth hon a sicrhau ei bod ar gael i werthuswyr ar gyfer y gwerthusiad terfynol.

1.21 Roedd anawsterau o ran cael gafael ar ddata cyson ar dargedau a chyflawniadau ar gyfer rhaglenni Busnes Cymru a'r SBFE. Roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith fod gwahaniaethau yn y targedau a osodwyd i contractwyr a'r rhai hynny a osodwyd ar gyfer prosiectau WEFO. Rheswm arall dros hyn oedd bod rhai ffurflenni data wedi'u diwygio ar ôl eu cyflwyno i WEFO, yn dilyn archwiliad o ofynion tystiolaeth. Rydym wedi gweithio gyda thîm data Busnes Cymru i egluro'r problemau hyn cyn belled â bod hynny'n bosibl.

Strwythur yr adroddiad

1.22 Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn disgrifio strwythur a rheolaeth rhaglenni Busnes Cymru, a'r rhesymeg a chyd-destun gwreiddiol ar gyfer y rhaglen
- Mae Pennod 3 yn archwilio perfformiad prosiectau a rhaglenni ERDF Busnes Cymru yn erbyn y cynllun
- Mae Pennod 4 yn disgrifio ac yn asesu effeithiolrwydd y dulliau a fabwysiadwyd i recriwtio buddiolwyr, a faint o fusnesau ac entrepreneuriaid a gafodd fudd o'r rhaglen a nodweddion y rhain
- Mae Pennod 5 yn archwilio ac yn asesu ansawdd cyflwyniad a rheolaeth y rhaglenni

- Mae Pennod 6 yn archwilio ac yn asesu'r canlyniadau datblygol, effaith y rhaglenni a'u gwerth ychwanegol, a sut mae'r rhain yn cyd-fynd ag anghenion buddiolwyr
- Mae Pennod 7 yn cyflwyno'r casgliadau a'r argymhellion o'r gwerthusiad canol tymor

2. Strwythur a rheolaeth rhaglenni Busnes Cymru

- 2.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio pum rhaglen Busnes Cymru a'r ffactorau a ddylanwadodd ar ddyluniad a blaenoriaethau'r rhaglenni, y targedau ERDF y disgwylir i'r rhaglenni eu cefnogi, y gwasanaethau a gyflwynir, a rheolaeth y rhaglen.

Ystyriaethau polisi y mae'r rhaglenni'n seiliedig arnynt

Cymorth busnes a dechrau busnes

- 2.2 Sefydlwyd Busnes Cymru fel 'siop un stop' ar gyfer cymorth busnes a chymorth i ddechrau busnes, lle mae'r llywodraeth yn ymddwyn fel brocer i hwyluso mynediad at gymorth o ansawdd uchel i'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Cafodd ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r methiannau a'r heriau cyflenwi canlynol yn y farchnad:

- Argymhellion yng ngwerthusiadau'r Rhaglen Ymgysylltu â Chwsmeriaid a'r NBSS, a oedd yn cynnig yr angen am wasanaeth 'siop un stop' holistaidd ar gyfer entrepreneuriaid newydd a busnesau sefydledig, a chymorth un-i-un canolbwyntiedig ar fusnesau sy'n fwy tebygol o dyfu.
- Argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen Microfusnes⁵ Llywodraeth Cymru, y gofynnwyd iddynt ddarparu cyngor ac arweiniad ar strategaeth ar gyfer cefnogi microfusnesau yng Nghymru. Canfuwyd y canlynol:
 - Nid oedd busnesau'n gallu llywio drwy'r opsiynau di-ri o gymorth busnes a oedd ar gael iddynt er mwyn cael gafael ar gymorth busnes perthnasol. Y rheswm dros hyn yw bod amrywiaeth gymhleth o fentrau gan y llywodraeth, awdurdodau lleol, sefydliadau ymchwil a chyrrff yn y trydydd sector, yn ogystal â sefydliadau preifat.
 - Roedd busnesau bach yn cael anawsterau mawr wrth geisio dod o hyd i gyllid am bris hyfyw. Y rheswm rhannol am hyn oedd mai ychydig iawn o fynediad oedd gan fusnesau i arbenigedd diwydiannol, a gellir defnyddio hwn i wella gwybodaeth busnesau am ddarparwyr benthyciadau.

⁵ Grŵp Gorchwyl a Gorffen Microfusnesau 2012

- Nid oedd gan lawer o berchnogion microfusnesau 'gyfaill beirniadol' i drafod eu hymateb i heriau anodd neu sefyllfaoedd newydd. Y rheswm dros hyn oedd nad oedd llawer ohonynt yn rhan o rwydwaith cymheiriaid nac yn meddu ar lawer o arbenigedd busnes o fewn y busnes.
- Rhaglenni Gweithredol ERDF Llywodraeth Cymru, a oedd yn canolbwyntio ar greu busnesau newydd a thyfu swyddi (yn unol â blaenoriaethau ERDF y Comisiwn Ewropeaidd) er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon parhaus ynghylch y lefelau is o werth ychwanegol gros a busnesau a oedd yn goroesi yng Nghymru o'u cymharu â rhannau eraill o'r DU.

2.3 Roedd Rhaglen Craidd a Thwf a Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru wedi'u cynllunio hefyd i gefnogi uchelgeisiau 'Symud Cymru Ymlaen 2016–2021' i fynd ati *'i feithrin yr amodau sy'n angenrheidiol i ganiatáu i fusnesau ffynnu ac i greu a chadw swyddi o ansawdd da yng Nghymru'* ac un o brif amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i *'alluogi datblygiad economaidd a chyflogaeth gynaliadwy'*. Mae gwasanaethau cymorth busnes yn elfen bwysig o'r pecyn cymorth o gamau gweithredu tuag at gyflawni'r amcan hwn, oherwydd credir mai ansawdd y seilwaith cefnogol, gan gynnwys cyllid a chymorth i fusnesau, yw'r sylfaen i lwyddiant economaidd.

Cefnogi'r Rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym iawn (SFBE)

2.4 Nod y rhaglen SFBE oedd cynorthwyo busnesau i fanteisio ar y band eang cyflym iawn a oedd yn cael ei gyflwyno ar hyd a lled Cymru drwy raglen *Cyflymu Cymru*. Roedd yn anelu'n benodol at gynorthwyo busnesau i ddeall y cyfleoedd busnes a'r mesurau effeithiolrwydd a oedd ar gael drwy fand eang cyflym iawn, a sut allant wireddu'r buddion hyn.

2.5 Disgwyliwyd i'r rhaglen gynorthwyo Llywodraeth Cymru hefyd i gael mwy o elw o'i buddsoddiadau eraill mewn seilwaith band eang, fel y buddsoddiadau canlynol:

- Y cynllun **SuperConnected Cities**, sy'n darparu grantiau ar gyfer BBaChau ar hyd a lled y DU sy'n defnyddio band eang cyflym iawn. Gwnaeth y rhaglen hefyd greu cyfnewidfa rhyngrwyd yng Nghaerdydd a seilwaith band eang ategol ledled de Cymru.

- **Allwedd Band Eang Cymru**, sy'n rhoi grantiau i unigolion, busnesau a darparwyr yn y trydydd sector i gyflwyno dewisiadau eraill i fand eang pan na all y band eang cyflym iawn yn yr ardal ddarparu newid sylweddol yn y cyflymdra lawrlwytho.
- **Y Cynllun Taleb Gwibgyswllt**, sy'n rhoi grantiau o hyd at £10,000 i fusnesau osod band eang safon busnes.

2.6 Disgwyliwyd i'r rhaglen SFBE gyfrannu hefyd at flaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru i wella cynhyrchiant a throsiant (fel y'u nodwyd yn Symud Cymru Ymlaen 2016–2021 ac yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015).

Datblygu'r dirwedd entrepreneuriaidd

2.7 Llywiwyd y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid gan gynllun gweithredu'r Strategaeth Entrepreneuriaeth leuenctid ar gyfer 2010–2015 ar y dechrau, a osododd weledigaeth i wneud y canlynol:

'Datblygu a meithrin pobl ifanc hunangynhaliol ac entrepreneuriaidd ym mhob cymuned ar draws Cymru, a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at lwyddiant economaidd a chymdeithasol.'

2.8 Fel y nodwyd yn ei chynllun busnes, disgwylir i'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid gyfrannu at amcanion cynllun gweithredu'r Strategaeth Entrepreneuriaeth leuenctid ar gyfer y canlynol:

- Datblygu sgiliau entrepreneuriaidd pobl ifanc
- Ysgogi diddordeb mewn entrepreneuriaeth ymhlith pobl ifanc sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar
- Cefnogi mentrau newydd sy'n dechrau ymhlith graddedigion ac mewn sectorau â blaenoriaeth allweddol yng Nghymru

2.9 Ers hyn, mae wedi ei llywio gan weithgareddau entrepreneuriaidd Cymru sy'n llusgo'u traed y tu ôl i'r DU yn gyffredinol, gyda chyfraddau genedigaethau busnesau 2015 yn parhau i fod dau bwynt canran yn is yng Nghymru nag yng ngweddill y DU yn gyffredinol⁶ ac agweddau entrepreneuriaidd (canran yr ymatebwyr a oedd yn teimlo bod cyfleoedd entrepreneuriaidd da yn eu hardal ar

⁶ ONS 2016, Genedigaethau a marwolaethau busnesau yn ôl rhanbarth o'r DU, 2015

gyfer y chwe mis nesaf) yn is yng Nghymru ar 30%, o'u cymharu â 38% yn y DU yn gyffredinol.⁷

- 2.10 Er mwyn codi proffil entrepreneuriaeth ymhlith pobl ifanc, disgwyliwyd i'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuencid godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o entrepreneuriaeth a galluogi mwy o bobl ifanc i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ar ba un ai y dylent ddechrau busnes neu beidio. Disgwyliwyd i hyn gynyddu cyfran y bobl sy'n dechrau busnes ac arddangos agwedd fwy entrepreneuriaidd wrth weithio fel cyflogai mewn sefydliad.
- 2.11 Canfuwyd hefyd fod angen darparu hyfforddiant a chynghor busnes a oedd wedi'u targedu'n benodol at alluogi pobl ifanc i ddechrau busnes. Nododd staff Busnes Cymru fod angen hyn am nad oes gan lawer o bobl ifanc fynediad at rwydweithiau cymorth a darpar gwsmeriaid i'r un graddau ag entrepreneuriaid hŷn. Disgwyliwyd felly i'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuencid ddarparu cymorth cychwynnol i bobl ifanc, cyn eu hatgyfeirio i Raglen Craidd a Thwf Busnes Cymru os bydd angen unrhyw gymorth ychwanegol arnynt.
- 2.12 Disgwyliwyd i'r rhaglen REAP fynd rhywfaint o bellter at helpu i ddatblygu tirwedd entrepreneuriaidd sy'n mynd i'r afael â rhai o'r problemau strwythurol y canfu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Microfusnesau fod busnesau bychain yn eu hwynebu. Mae hyn yn cynnwys:
- Gwella mynediad at gyllid
 - Darparu rhwydweithiau cymheiriaid sy'n hwyluso hyfforddi a mentora
 - Lleihau'r baich rheoleiddio ar fusnesau bach
 - Darparu cymorth arloesol i fentrau newydd

Amcanion a thargedau'r ERDF

Gweithrediadau (prosiectau) ERDF sy'n ariannu rhaglenni Busnes Cymru

- 2.13 Caiff rhaglenni Busnes Cymru eu hariannu drwy chwe phrosiect ERDF, sy'n cynnwys cynlluniau cyd-ariannu dwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Cyflwynir y prosiectau yn y tabl isod.

⁷ Monitor Entrepreneuriaeth y Byd, 2015

Tabl 2.1 Rhaglenni ERDF Busnes Cymru

Prosiect	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen	Costau'r prosiect	Cyfraniad ERDF
Cymorth entrepreneuriaidd – Busnes Cymru (dwyrain Cymru)	1/4/2015	31/3/2020	£10,333,119	£6,673,944
Cymorth BBaCh – Busnes Cymru (dwyrain Cymru)	1/4/2015	31/3/2020	£11,123,245	£6,673,944
Cymorth entrepreneuriaidd – Busnes Cymru (gorllewin Cymru)	1/4/2015	31/3/2020	£30,999,787	£18,599,872
Cymorth BBaCh – Busnes Cymru (gorllewin Cymru a'r Cymoedd)	1/4/2015	31/3/2020	£33,328,037	£19,996,821
Rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym lawn gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1/4/2015	31/3/2020	£8,575,153	£5,223,422
Rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym lawn dwyrain Cymru	1/4/2015	31/3/2020	£3,534,847	£1,705,032
CYFANSWM Y CYLLID			£97,894,188	£58,873,035

Ffynhonnell: Data prosiect ar-lein WEFO, cyrchwyd ym mis Gorffennaf 2018

- 2.14 Mae'r pedwar prosiect cyntaf yn ymdrin â rhaglenni Craidd a Thwf, Cyflymu Twf, Entrepreneuriaeth leuencid a REAP Busnes Cymru. Mae'r ddau brosiect terfynol yn ymwneud â'r rhaglen SFBE.
- 2.15 Dechreuodd y prosiectau ERDF ym mis Ebrill 2015. Fodd bynnag, ni chafodd y contractau gyda'r contractwyr a oedd yn cyflwyno'r gwasanaeth eu rhoi ar waith ar gyfer yr un o'r rhaglenni tan chwarter cyntaf 2016. Felly ni chafodd y gwaith o gyflwyno gweithgareddau'r rhaglen ei ddechrau tan yn gynnar yn 2016.
- 2.16 Mae'r prosiectau'n cyfrannu at **Echel Blaenoriaeth 2 yr ERDF: Cystadleurwydd BBaCh**. Maent yn ymwneud yn benodol â'r canlynol:
- **Amcan Penodol 2.2:** Cynyddu nifer y BBaCh sy'n dechrau o'r newydd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth ar gyfer entrepreneuriaeth

- **Amcan Penodol 2.3:** Cynyddu'r rhwydweithiau Mynediad i'r Genhedlaeth Nesaf (NGA) a seilwaith TGCh y mae BBaChau yn eu defnyddio ac yn manteisio arnynt
- **Amcan Penodol 2.4:** Cynyddu twf y BBaChau hynny sydd â'r potensial i dyfu, yn enwedig trwy gael mynediad at farchnadoedd newydd (domestig a rhyngwladol)

- 2.17 Disgwylir i'r prosiectau hefyd gefnogi'r gwaith o gyflawni Amcan Penodol 2.1 (cynyddu maint y cyllid sydd ar gael i BBaChau) trwy frocera busnesau a busnesau newydd i gael gafael ar ffynonellau cyhoeddus a phreifat o gyllid cyhoeddus, gan gynnwys Banc Datblygu Cymru.
- 2.18 Mae'r prosiectau ERDF ar gael i bob busnes ac entrepreneur ledled Cymru. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i fusnesau amaethyddol fanteisio ar raglenni Busnes Cymru, oherwydd disgwylir iddynt fanteisio ar Cyswllt Ffermio, tra disgwylir i fentrau cymdeithasol fanteisio ar gymorth arbenigol gan Busnes Cymdeithasol Cymru. Caiff y rhain eu hariannu'n unigol gan Lywodraeth Cymru a chronfeydd strwythurol yr UE.

Targedau ERDF

- 2.19 Disgwylir i raglenni Busnes Cymru gyfrannu at uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i fusnesau ac entrepreneuriaid dderbyn cymorth anariannol, cyflwyno cynhyrchion newydd a chynyddu cyflogaeth ac allforion. Disgwylir iddynt hefyd gyrraedd targedau allbwn penodol yr ERDF, sy'n adlewyrchu'r amcanion penodol a ddisgrifiwyd uchod fel amod o'r cyllid, a chefnogi'r gwaith o gyflawni themâu trawsbynciol yr ERDF ar ddatblygu cynaliadwy a chydaddoldeb ac amrywiaeth.
- 2.20 Ym mis Gorffennaf 2017, cynigiwyd proffil diwygiedig o allbynnau'r ERDF, a chytunodd WEFO i hwn mewn egwyddor. Pan ysgrifennwyd hwn, nid oedd y newidiadau contract terfynol wedi'u cadarnhau eto. Rydym yn cyfeirio at dargedau mis Gorffennaf 2017 drwy gydol yr adroddiad, oherwydd y rhain yw'r targedau y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio tuag atynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nodir y rhain yn yr adran nesaf o ran y gwasanaethau a gyflwynir gan bob rhaglen.

Gwasanaethau a gyflwynir

Rhaglen Craidd a Thwf Busnes Cymru

- 2.21 Mae Gwasanaeth Craidd a Thwf Busnes Cymru yn darparu cymorth i bob entrepreneur a busnes yng Nghymru sy'n cofrestru gyda'r gwasanaeth. Darperir y gwasanaethau drwy:
- **Llinell gymorth dros y ffôn**, sy'n darparu asesiad cychwynnol o anghenion busnes ac yna'n cyfeirio buddiolwyr at wasanaethau cymorth busnes eraill.
 - **Gwefan Busnes Cymru**, sy'n cynnwys gwybodaeth am: gael gafael ar gyllid; dechrau busnes newydd a chynllunio busnes; marchnata; sgiliau a hyfforddiant (sy'n cysylltu â Phorth Sgiliau pwrpasol); syniadau busnes ac arloesedd; a TGCh. Ym mis Ionawr 2018, ychwanegwyd swyddogaeth sgwrs fyw i'r wefan i alluogi gweithredwyr y llinell gymorth i gyfathrebu'n uniongyrchol â defnyddwyr y wefan.
 - Llwyfan **Gwasanaeth Cymorth Ar-lein Busnes (BOSS)**, lle gall buddiolwyr sy'n cofrestru gyda'r gwasanaeth gael mynediad at gyrsiau hyfforddi ar-lein. Mae'r llwyfan BOSS yn cynnwys dros 100 o gyrsiau, ar bynciau fel syniadau busnes ac arloesedd, gwerthiannau a marchnata ar-lein, sgiliau a hyfforddiant, a chynllunio busnes. Mae'r cyrsiau'n amrywio o un i chwe awr.
 - **Gweithdai wyneb yn wyneb**, a gynhelir mewn lleoliadau ledled Cymru. Mae'r gweithdai yn para rhwng pedair a chwe awr.
 - **Cyngor busnes wyneb yn wyneb**, a ddarperir gan gynghorwyr busnes profiadol. Mae hwn yn cynnwys diagnostig busnes trylwyr, cynlluniau gweithredu a chyngor, yn ogystal â chyfeirio at asiantaethau, gwasanaethau proffesiynol a chymorth busnes preifat eraill.
- 2.22 Mae lefel y cymorth y mae buddiolwyr yn ei derbyn yn amrywio yn ôl eu potensial i dyfu, a ddiffinnir drwy ddefnyddio'r raddfa pedair lefel⁸ ganlynol:
- Lefel 1 – Hunangyflogedig
 - Lefel 2 – Microfusnes (sefydliadau â llai na phump cyflogai sydd â photensial isel i dyfu)

⁸ Yn seiliedig ar y diffiniadau a ddefnyddiwyd yn Llawlyfr Gweithrediadau Busnes Cymru

- Lefel 3 – Busnes bach/canolog sydd â photensial i dyfu
- Lefel 4 – Busnes BBaCh sefydledig sydd â photensial mawr i dyfu

2.23 Fel y dangosir yn Tabl 2.2, mae busnesau ar Lefelau 1 a 2 yn derbyn asesiad diagnostig, mynediad at daflenni ffeithiau, modiwlau a thiworialau ar-lein, ac ychydig o gymorth busnes wyneb yn wyneb cyfyngedig. Mae busnesau ar Lefelau 3–4 yn derbyn yr un cymorth â busnesau Lefel 1–2 yn ogystal â chymorth un-i-un sy'n fwy trylwyr.

Tabl 2.2 Cymorth a ddarparwyd i fusnesau ar Lefel 1–4

Busnesau/ entrepreneuriaid ar Lefel 1	Busnesau/ entrepreneuriaid ar Lefel 2	Busnesau/ entrepreneuriaid ar Lefel 3	Busnesau/ entrepreneuriaid ar Lefel 4
Gall buddiolwyr gael mynediad at y canlynol: • Modiwlau ar-lein drwy lwyfan BOSS • Cyngor dros y ffôn • Gwybodaeth • Gweithdy mynd amdani • Gweithdai cynllunio busnes • Digwyddiadau rhwydweithio • Cymorth mentora • Gweithdai wyneb yn wyneb eraill	Gall buddiolwyr gael mynediad at yr un cymorth â'r rhai hynny ar Lefel 1, yn ogystal â chymorth wyneb yn wyneb a argymhellir i fod hyd at saith awr o hyd	Gall buddiolwyr gael mynediad at yr holl gymorth a ddarperir i fusnesau Lefel 1 a 2, yn ogystal â hyd at 14 awr awgrymedig o gymorth wyneb yn wyneb sy'n cynnwys cyngor busnes ar bynciau amrywiol	Yr un cymorth â Lefel 3 yn ogystal â mynediad at gymorth arbenigol a rheolwr cydberthynas personol i frocera a hybu cymorth o'r sector preifat

Ffynhonnell: Llawlyfr Gweithrediadau Busnes Cymru, a gyrchwyd ym mis Awst 2017

2.24 Nododd tîm prosiect Busnes Cymru fod Rhaglen Craidd a Thwf Busnes Cymru yn ceisio ymgysylltu ag o leiaf 14,500 o fusnesau bob blwyddyn, ac o'r rhain mae:

- 10,000 ohonynt yn fusnesau Lefel 1
- 2,500 ohonynt yn fusnesau Lefel 2
- 1,000 ohonynt yn fusnesau Lefel 3
- 1,000 ohonynt yn fusnesau Lefel 4

- 2.25 Disgwylir iddi hefyd wneud cyfraniad sylweddol tuag at dargedau'r ERDF ar gyfer cynyddu cyflogaeth, cynyddu allforion busnes a chynorthwyo buddiolwyr i fabwysiadu neu wella cynaliadwyedd amgylcheddol a strategaethau cydraddoldeb.

Y Rhaglen Cyflymu Twf

- 2.26 Mae'r Rhaglen Cyflymu Twf ar gael i fusnesau neu fusnesau newydd sydd â'r potensial i dyfu'n gyflymach (a ddiffinnir fel busnes sydd â'r gallu i gyflawni twf o 20% o un flwyddyn i'r llall am dair blynedd olynol). Caiff y rhain eu nodi fel buddiolwyr Lefel 5. Mae'r Rhaglen Cyflymu Twf yn darparu cymorth wedi'i deilwra yn ogystal â'r adnoddau y gall busnesau gael mynediad atynt drwy'r Rhaglen Craidd a Thwf. Mae hyn yn cynnwys:
- Cynghorydd busnes penodol i ddarparu cymorth parhaus
 - Cymorth arbenigol mewnol ar bynciau fel marchnata, allforio, logisteg a chael gafael ar gadwyn gyflenwi
 - Cyllid i fusnesau i gael mynediad at gymorth arbenigol na ellir ei ddarparu gan staff rhaglen mewnol
- 2.27 Gellir darparu cymorth drwy'r Rhaglen Cyflymu Twf dros gyfnod o hyd at dair blynedd, am hyd at uchafswm o 60 awr o gymorth. Fodd bynnag, gall y buddiolwyr hynny nad ydynt yn gallu cyflawni twf o 20% o un flwyddyn i'r llall gael eu tynnu oddi ar y rhaglen a'u hailraddio fel busnes neu fusnes newydd Lefel 4.
- 2.28 Dyma'r targedau lleiaf ar gyfer Rhaglen Cyflymu Twf 2015–20:
- Cynorthwyo 450 o unigolion
 - 1,000 o fentrau yn derbyn cymorth anariannol
 - Creu 10,000 o swyddi
 - Creu 6,666 o swyddi sy'n darparu cyflogau sy'n uwch na chyflog cyfartalog Cymru
 - Cynnydd o £200 filiwn mewn allforion
 - Cynnydd o £200 filiwn mewn buddsoddiadau
 - Creu 300 o fentrau newydd

2.29 Bydd y rhain yn cyfrannu at dargedau'r ERDF ar gyfer cynyddu cyflogaeth a chynyddu allforion busnes.

Y Rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym iawn (SFBE)

2.30 Mae'r SFBE yn cefnogi busnesau i wneud defnydd gwell o dechnoleg a band eang er mwyn gwella perfformiad eu busnes. Darperir y cymorth mewn tri cham:

- **Cam 1:** Mynediad i wybodaeth a chynghor ar-lein drwy wefan Busnes Cymru ac asesiad diagnostig cychwynnol o'u hanghenion dros y ffôn. Ar ôl yr asesiad diagnostig, caiff unigolion eu cyfeirio wedyn i ffurfiau eraill o gymorth.
- **Cam 2:** Gweithdai ar-lein ac wyneb yn wyneb ar bynciau penodol sy'n ymwneud â manteisio ar TGCh. Yn aml, caiff y gweithdai hyn eu teilwra i sectorau penodol, fel y sector adeiladu neu weithgynhyrchu. Mae'r pynciau yr ymdrinnir â nhw yn y gweithdai yn cynnwys cyfrifiadureg cwmwl, e-fasnach, systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, systemau ariannol, marchnata digidol a defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Fel arfer, mae'r gweithdai yn para am bedair awr, ond mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu gweithdy byrrach dwy awr o hyd ar gyfer unigolion sy'n bwriadu dechrau busnes.
- **Cam 3:** Cyngor ac arweiniad un-i-un gan gynghorydd busnes a chreu cynlluniau gweithredu. Diben y gweithgarwch hwn yw nodi'r camau gweithredu gweladwy y gall y busnes eu cymryd i wneud gwell defnydd o gyfleoedd TGCh gyda band eang cyflym iawn.

2.31 Disgwylir i'r SFBE gyflawni'r targedau canlynol:

- Ymgysylltu â 6,600 o unigolion (a nodir fel unigolion sy'n cael mynediad at gymorth Cam 1). Nid yw hwn yn un o dargedau'r ERDF.
- Darparu cymorth dwys i 5,500 o unigolion, fel mynychu gweithdy a chael cyngor ac arweiniad wedi'u teilwra sy'n para am ddwy awr (o leiaf chwe awr o gymorth felly os ydynt yn fusnes sy'n bodoli eisoes neu bedair awr o gymorth os ydynt yn fusnes newydd sy'n dechrau). Mae hwn yn cyfrannu at darged yr ERDF ar gyfer busnesau sy'n derbyn cymorth anariannol.
- Cyflwyno 1,880 o gynhyrchion neu wasanaethau sy'n newydd i'r cwmni. Dyma le mae'r busnes wedi gwneud newidiadau gweledol i'w fusnes o ganlyniad i'r

rhaglen. Disgwylir i hyn ddilyn ymlaen o ddatblygu cynllun gweithredu sy'n nodi cynnyrch neu wasanaeth sy'n newydd i'r cwmni.

Entrepreneuriaeth leuenctid

- 2.32 Nod y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yw meithrin diwylliant o entrepreneuriaeth ymhlith pobl ifanc drwy ddarparu gweithgareddau cyfoethogi. Ni ddisgwylir iddi gyfrannu'n uniongyrchol at dargedau ERDF Busnes Cymru, ond disgwylir iddi ddarparu rhai atgyfeiriadau i Raglen Craidd a Thwf Busnes Cymru er mwyn cyfrannu at ei thargedau ar gyfer y mentrau newydd a gefnogwyd a swyddi newydd.
- 2.33 Mae'r rhaglen wedi'i rhannu'n bedwar llinyn: Ymgysylltu, Grymuso, Cyfarparu a Chyfnewidfa Entrepreneuriaeth. Cyflwynir disgrifiad o bob llinyn isod. Cyflwynwyd y gweithgareddau Ymgysylltu a Grymuso yn rhaglen 2007–13 yr ERDF. Mae'r gweithgareddau Cyfarparu a Chyfnewidfa Entrepreneuriaeth yn newydd i raglen 2014–20 yr ERDF.

Ymgysylltu

- 2.34 Mae'r llinyn Ymgysylltu yn cynnwys gweithdai a chyflwyniadau sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth ac ennyn diddordeb pobl ifanc mewn dechrau busnes neu ddod yn hunangyflogedig. Caiff y ddarpariaeth ei chyflwyno mewn ysgolion, colegau a sefydliadau addysg uwch gan bobl busnes profiadol (modelau rôl). Yn gyffredinol, mae'r sesiynau'n cynnwys y canlynol:
- Trafodaeth ar yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn hunangyflogedig neu ddechrau busnes (gan gynnwys barn pobl ifanc ar yr hyn y mae'n ei olygu)
 - Trafodaeth ar brofiad y model rôl o ddechrau busnes
 - Beth yw cryfderau a gwendidau bod yn entrepreneur
 - Cwestiynau ac atebion

- 2.35 Mae Ymgysylltu'n wasanaeth cyffredinol sydd ar gael ym mhob rhan o Gymru.

Grymuso

- 2.36 Yn y llinyn Grymuso, mae'r contractwr yn datblygu mentrau i gael eu rhoi ar waith gan ysgolion i wella cyflwyniad sgiliau entrepreneuriaeth yn y cwricwlwm. Caiff y rhain eu canolbwyntio'n bennaf ar ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd.

- 2.37 Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn cynnal dwy gystadleuaeth genedlaethol hefyd i ysgogi dysgu am entrepreneuriaeth: Dathlu Syniadau Mawr Cymru, sy'n targedu pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed, a'r Criw Mentrus, sydd wedi'i anelu at blant ysgol gynradd.

Cyfarparu

- 2.38 Nod y sesiynau Cyfarparu yw cynorthwyo unigolion sydd â syniad busnes ac sydd eisiau dechrau busnes. Mae pobl ifanc yn derbyn cymorth un-i-un gan gynghorydd busnes a/neu gallant fynychu digwyddiadau hyfforddi a bwtcamp dwys dros benwythnos. Mae'r llinyn hwn o'r rhaglen dim ond ar gael i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed.
- 2.39 Mae'r sesiynau bwtcamp yn canolbwyntio mwy ar yr agweddau ymarferol ar ddechrau busnes, fel datblygu cynlluniau busnes, y gofynion cyfreithiol a gweinyddol o ddechrau busnes / dod yn hunangyflogedig, a marchnata. Cyflwynir y sesiynau ar ffurf gweithdy, lle gall pobl ifanc drafod eu syniadau busnes a chael cyngor ymarferol sy'n ymwneud â'u busnes arfaethedig.
- 2.40 Mae'r cyngor ar gael i gynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu busnes. Datblygwyd hyn oherwydd teimlwyd y gallai fod angen mwy o gymorth wedi'i dargedu ar bobl ifanc na'r hyn a oedd ar gael drwy Raglen Craidd a Thwf Busnes Cymru. Y rheswm dros hyn yw bod ganddynt lai o brofiad o brosesau busnes o bosibl a llai o rwydweithiau personol. Disgwylwyd, fodd bynnag, y byddai unigolion a oedd yn derbyn cymorth un-i-un y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn cael eu hatgyfeirio wedyn i wasanaeth Craidd a Thwf Busnes Cymru.

Cyfnewidfa Entrepreneuriaeth

- 2.41 Rhwydwaith cymheiriaid yw'r Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth a drefnir gan y contractwr Entrepreneuriaeth leuenctid ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n darparu cymorth tebyg i bobl ifanc. Ar hyn o bryd, mae'r aelodau'n cynnwys hyrwyddwyr menter mewn sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch a sefydliadau trydydd sector fel Ymddiriedolaeth y Tywysog a'r Gymdeithas Ffermwyr Ifanc, yn ogystal â darparwyr gwasanaeth o'r sector preifat fel Unlimited (sefydliad sy'n cefnogi mentrau cymdeithasol).

2.42 Mae'r Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r rhwydwaith o bartneriaid, drwy wyth digwyddiad hyd at ddiwedd mis Mawrth 2018 a fynychwyd gan 214 o bartneriaid o bob cwr o Gymru. Mae'r digwyddiadau hyn wedi canolbwyntio ar rannu gwybodaeth – cyfres ar genhedlaeth y mileniwm a disgwyliadau pobl ifanc sy'n mynd i weithleoedd / dechrau busnes – a dosbarthu canfyddiadau'r gwaith ymchwil ar led. Mae hyn wedi cynnwys gwaith ymchwil a gafodd ei wneud ar Ddyheadau Entrepreneuriaid Ifanc⁹ ar ran Llywodraeth Cymru ac astudiaeth o Entrepreneuriaeth leuenctid gan y Ffederasiwn Busnesau Bach.¹⁰ Nod y rhain yw cael dealltwriaeth well o anghenion cleientiaid ymhlith partneriaid er mwyn dylanwadu ar y ffordd y maent yn cyflwyno gwasanaethau. Mae'r digwyddiadau hyn yn gyfle hefyd i bartneriaid rannu gwybodaeth am y gwasanaethau y maent yn eu cynnig.

Y Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol (REAP)

2.43 Nod y rhaglen REAP yw newid y dirwedd entrepreneuriaidd yng Nghymru drwy annog mwy o gydweithio rhwng pum grŵp allweddol o randdeiliaid (llywodraeth, corfforaethol, academiaidd, cyfalaf risg a'r gymuned entrepreneuriaidd). Nod y rhaglen yw annog entrepreneuriaeth a sbardunir gan arloesedd a fydd, yn ôl pob disgwyl, yn creu swyddi a hybu cyfoeth.

2.44 fewn y rhaglen, mynychodd cynrychiolwyr o'r grwpiau hyn gyfres o bedwar gweithdy a gynhaliwyd gan Sefydliad Technoleg Massachusetts yn ystod 2015 a 2016. Roedd y gweithdai hyn yn cynnwys dirprwyon o wledydd a rhanbarthau amrywiol. Wedi hyn, gwnaeth rhai o fynychwyr gweithdai Sefydliad Technoleg Massachusetts ddatblygu ymgrych (Creu Sbarc) i wella'r amodau ar gyfer entrepreneuriaeth yng Nghymru.

2.45 Wedi iddynt gwblhau'r gweithdai, disgwyliwyd i'r pum grŵp rhanddeiliaid arwain rhaglen o weithgareddau i wella'r amgylchedd entrepreneuriaidd. Disgwyliwyd i'r pum grŵp rhanddeiliaid gyflwyno ac ariannu'r gweithgareddau hyn. Trwy weithdai Sefydliad Technoleg Massachusetts, canfuwyd mai'r prif broblemau yn y dirwedd

⁹ Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/det/publications/171129-youth-entrepreneurship-aspiration-research-cy.pdf>

¹⁰ Ar gael yn: <http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s17898/Papur%204%20Ffederasiwn%20Busnesau%20Bach%20Cymru.pdf>

entrepreneuraidd y dylai'r rhaglen ymdrin â nhw oedd cyllid i entrepreneuriaid a symleiddio'r fiwrocratiaeth ar gyfer entrepreneuriaid a BBaChau.

Rheoli'r rhaglen

- 2.46 Caiff Busnes Cymru ei reoli gan dîm o swyddogion o fewn Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru, gyda'r rhan fwyaf o'r staff yn gweithio yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno. Mae'r tîm yn cynnwys y canlynol:
- Staff sy'n gyfrifol am reoli a chydlynu llinynnau penodol o raglen Busnes Cymru (Entrepreneuriaeth leuenctid, Craidd a Thwf, SFBE a'r Rhaglen Cyflymu Twf)
 - Gweithwyr ffôn sy'n gyfrifol am staffio llinell gymorth Busnes Cymru a chysylltu â buddiolwyr drwy swyddogaeth y blwch sgwrsio ar y wefan
 - Staff uwch-reoli sy'n gyfrifol am oruchwylio cyflwyniad strategol a gweithredol y rhaglen
 - Tîm datblygu strategol sy'n gyfrifol am sicrhau cysylltiadau cydlynus â pholisïau Llywodraeth Cymru a pholisïau eraill (h.y. rhai nad ydynt wedi'u datganoli) ac am weinyddu gwaith ymchwil parhaus a fydd yn llywio cyflwyniad y rhaglen
 - Tîm sy'n gyfrifol am gefnogi'r wefan a gwaith marchnata
 - Staff sy'n gyfrifol am oruchwylio elfennau cyllido'r UE ac am reoli'r cydberthynas â WEFO
- 2.47 Comisiynwyd y gwaith o gyflwyno gwasanaethau cymorth busnes drwy broses dendro agored a chystadleuol. Mae saith contractwr allweddol sy'n cyflwyno gwasanaethau rhaglen Busnes Cymru:
- Partneriaeth Twf Cymru (sy'n cynnwys Busnes mewn Ffocws, Antur Teifi a Serco), sy'n cyflwyno'r Rhaglen Craidd a Thwf;
 - Consortiwm Excelerator, sy'n cynnwys Winning Pitch ac Impact Innovation ac sy'n cyflwyno'r Rhaglen Cyflymu Twf
 - Prospects Cymru, mewn partneriaeth â Cazbah Ltd, sy'n cyflwyno gweithgareddau Entrepreneuriaeth leuenctid
 - Serco, sy'n cyflwyno y contract SFBE

- 2.48 Mae gan bob contractwr gynllun cyflenwi sy'n nodi'r targedau sydd i'w cyflawni yn y contract. Mae'r targedau hyn yn cynnwys targedau'r ERDF a thargedau'r rhaglen, sy'n nodi cerrig milltir canolradd (fel gweithdai a gynhaliwyd, pobl a hyfforddwyd) er mwyn nodi a yw'r rhaglen ar y trywydd cywir i gyflawni ei chanlyniadau.
- 2.49 Nid yw targedau'r contractwr yn ymwneud â thargedau'r ERDF yn uniongyrchol, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u cynllunio i gyfrannu tuag at eu cyflawniad. Gall y trothwy a'r gofynion tystiolaeth i hawlio allbynnau yn y contract fod yn is na'r rhai ar gyfer ceisiadau ERDF. O ganlyniad, rydym wedi gwahaniaethu rhwng targedau'r ERDF a thargedau'r contractwr drwy gydol yr adroddiad.
- 2.50 Mae'r contractwyr yn cyflwyno adroddiadau misol sy'n nodi'r canlyniadau a gyflawnwyd a'r targedau er mwyn derbyn taliadau misol. Rhaid cofnodi data'r buddiolwyr ar y System Cyfrifon Busnes a rhaid cyflwyno tystiolaeth o'r allbynnau i dimau prosiect Llywodraeth Cymru.
- 2.51 Disgwylir hefyd i gontractwyr fynychu cyfarfodydd cleient rheolaidd gyda'r rheolwyr contract yn Llywodraeth Cymru. Disgwylir iddynt hefyd fynychu cyfarfodydd grŵp llywio chwarterol lle y trafodir cynnydd cyffredinol y rhaglenni.
- 2.52 Cyflwynir gwasanaeth Craidd a Thwf Busnes Cymru o dair canolfan ranbarthol. Mae gan ogledd Cymru ganolfan yn Llanelwy, sy'n gwasanaethu ardaloedd awdurdod lleol gogledd Cymru a rhan ogleddol Powys. Mae canolfan y canolbarth a gorllewin Cymru yng Nghaerfyrddin, ac mae'n cynnwys gweddill Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Mae canolfan de Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac mae hon yn gwasanaethu'r ardaloedd awdurdod lleol sydd ar ôl o Abertawe i Sir Fynwy.
- 2.53 Cyflwynir y gwasanaethau eraill drwy gynghorwyr busnes peripatetig a modelau rôl sy'n gweithio ar hyd a lled Cymru.

3. Perfformiad yn erbyn y cynllun

3.1 Mae'r bennod hon yn edrych ar berfformiad rhaglenni Busnes Cymru hyd yn hyn. Mae'n edrych yn benodol ar y canlynol:

- Perfformiad chwe phrosiect ERDF Busnes Cymru yn erbyn eu targedau (Cymorth i BBaChau, Cymorth Entrepreneuriaeth a'r SFBE yn nwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd), ar sail y data a gyflwynwyd i WEFO
- Perfformiad yn erbyn cynllun pump o raglenni Busnes Cymru (Craidd a Thwf Busnes Cymru, y Rhaglen Cyflymu Twf, Entrepreneuriaeth Ieuenctid, REAP a'r SFBE)
- Problemau a ffactorau a adroddwyd sy'n effeithio ar berfformiad rhaglenni

3.2 Mae'r astudiaeth yn defnyddio dadansoddiad o ddata perfformiad rhaglen, yn ogystal â chanfyddiadau o gyfweiliadau ansoddol â chontractwyr, timau prosiect a staff cyflenwi.

Canfyddiadau allweddol

- Mae'r prosiectau ar gyfer rhoi cymorth i BBaChau ymhell y tu ôl i'w targedau ar gyfer busnesau sy'n derbyn cymorth anariannol a'u targedau ar gyfer y themâu trawsbynciol, ond maent wedi perfformio'n dda yn erbyn eu hallbynnau ar gyfer cynyddu cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir a chynyddu allforion.
- Mae'r prosiectau ar gyfer rhoi cymorth entrepreneuriaeth yn agos at y targed ar gyfer unigolion sy'n derbyn cymorth anariannol, ond ymhell y tu ôl eu targed ar gyfer nifer y mentrau newydd a gefnogwyd a'r swyddi a grëwyd mewn mentrau newydd ac yn erbyn eu targed ar gyfer themâu trawsbynciol.
- Gall dechreuad araf y Rhaglen Craidd a Thwf gyfrannol gan Busnes Cymru fod yn gyfrifol am rywfaint o'r tanberfformiad ar gyfer busnesau sydd wedi derbyn cymorth anariannol. Bu oedi yn hyn o beth oherwydd y cymerwyd mwy o amser i drosglwyddo staff o'r contractwr blaenorol. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen wedi cyrraedd unrhyw dargedau chwarterol ers mis Ionawr 2017 ar gyfer busnesau sydd wedi derbyn

cymorth anariannol. Nid yw mwy na thraean o'r busnesau a gofrestrodd gyda Busnes Cymru ym mis Mawrth 2018 wedi derbyn chwe awr o gymorth anariannol.

- Gellir beio llawer o'r tanberfformiad yn erbyn y targedau thema trawsbynciol datblygu cynaliadwy a chydraddoldeb ac amrywiaeth ar alw cyfyngedig ymhlith buddiolwyr am ddatblygu'r strategaethau a gynigiwyd, yn enwedig os oedd cynghorwyr busnes wedi nodi meysydd gwella busnes oedd angen mwy o sylw. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae tîm Busnes Cymru wedi datblygu proses i fuddiolwyr addunedu i gefnogi datblygu cynaliadwy a chydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Mae prosiectau'r SFBE wedi perfformio'n unol â'r disgwyliadau ar gyfer busnesau sy'n derbyn cymorth anariannol ond maent dipyn y tu ôl i'w targed ar gyfer mentrau sy'n cyflwyno cynhyrchion neu wasanaethau sy'n newydd i gwmnïau. Gellir priodoli hyn i anawsterau gweithredol amrywiol o ran casglu'r gofynion tystiolaeth oddi wrth fuddiolwyr. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, mae'r contractwr wedi penodi gweinyddwyr i ganolbwyntio ar gasglu'r data hwn.
- Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi perfformio'n dda yn erbyn bron pob un o'i thargedau perfformiad. Mae wedi mynd y tu hwnt i'w thargedau ar gyfer pobl ifanc sy'n ymgysylltu ag entrepreneuriaeth ac am nifer y sesiynau gweithdy a gyflwynwyd gan ddarparwyr cyn-16 ac ôl-16. Mae hefyd wedi perfformio'n dda yn erbyn ei thargedau ar gyfer nifer y bobl ifanc a gefnogir i ddechrau busnes a chael cymorth busnes un-i-un. Mae'r rhaglen ar ôl gyda'i thargedau i gasglu nifer y bobl ifanc sydd â diddordeb mewn dechrau busnes o ganlyniad i'w gweithgareddau Ymgysylltu a Grymuso. Nid yw nifer y cyfranogwyr mewn sesiynau bwtcamp wedi cyrraedd y targed chwaith gan fod un digwyddiad allweddol wedi'i ganslo. □□Mae'r Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol (REAP) yn perfformio yn unol â disgwyliadau rhanddeiliaid, gyda Chwmni Buddiannau Cymunedol wedi'i sefydlu ym mis Tachwedd 2017 a chynllun gweithredu wedi'i ddatblygu ym mis Ionawr 2018 i greu tirwedd fwy entrepreneuriaidd.

Mae'r rhaglen hefyd wedi cadw cefnogaeth y rhai hynny a fynychodd y gweithdy.

Perfformiad y prosiectau ERDF

- 3.3 Disgwylir i bump o raglenni Busnes Cymru gyflawni'r allbynnau ar gyfer chwe phrosiect ERDF. Yn fwy penodol:
- Disgwylir i Raglen Craidd a Thwf Busnes Cymru a'r Rhaglen Cyflymu Twf gyfrannu at brosiectau Cymorth i BBaChau a Chymorth Entrepreneuriaeth yn nwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd
 - Disgwylir i'r SFBE gyfrannu at brosiectau ERDF yr SFBE yn nwyrain Cymru ac yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd
- 3.4 Ni ddisgwylir i'r rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid a REAP gyfrannu at allbynnau i brosiectau ERDF. Mae targedau mewnol ar waith ar gyfer y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid. Ar ôl ysgogiad cychwynnol, disgwylir i weithgareddau strategol REAP gael eu symud ymlaen gan y grwpiau rhanddeiliaid ac ni fyddent yn cael eu cyllido gan yr ERDF.
- 3.5 Nododd tîm Busnes Cymru fod y targedau ymgysylltu a chanlyniad ar gyfer y rhaglenni'n seiliedig ar berfformiad rhaglenni rhagflaenol Busnes Cymru (y Rhaglen Cymorth Dechrau Busnes Newydd (NBSS) a'r Rhaglen Ymgysylltu â Chwsmeriaid).

Prosiectau Cymorth i BBaChau

- 3.6 Mae Tabl 3.1 yn cyflwyno perfformiad y prosiectau i gynorthwyo BBaChau yn nwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn erbyn y cynllun hyd at fis Mawrth 2018. Mae'n dangos yr oedd y prosiectau wedi mynd y tu hwnt i'w targed ar gyfer eu dangosyddion canlyniad o ran cynnydd mewn cyflogaeth cyfwerth ag amser llawn mewn mentrau a gefnogwyd (141% o'r targed) a chynnydd mewn allforion (117% o'r targed). Fodd bynnag, ni wnaethant gyrraedd y targed ar gyfer y canlynol:
- Busnesau sy'n derbyn cymorth anariannol (cyflawni 37% o'r targed)
 - Busnesau sy'n mabwysiadu neu'n gwella cynlluniau datblygu cynaliadwy (9% o'r targed)

- Busnesau sy'n mabwysiadu neu'n gwella cynlluniau cydraddoldeb ac amrywiaeth (14% o'r targed)

- 3.7 Gwnaeth y prosiectau berfformio ychydig yn well yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nag yn nwyrain Cymru. Gwnaeth y prosiect ar gyfer gorllewin Cymru a'r Cymoedd gyflawni 157% o'i darged i gynyddu'r gyflogaeth mewn mentrau a gefnogwyd a 41% o'i darged ar gyfer mentrau a oedd yn derbyn cymorth anariannol. Mewn cymhariaeth, cyflawnodd prosiect dwyrain Cymru 117% o'i darged i gynyddu'r gyflogaeth mewn mentrau a gefnogwyd a 31% o'r targedau ar gyfer mentrau a oedd yn derbyn cymorth anariannol. Nid oedd y contractwyr yn credu bod unrhyw rwystrau penodol i ymgysylltu â busnesau yn nwyrain Cymru, gan egluro bod y gwahaniaethau ar y cyfan yn ymwneud â'r ffaith fod llai o fusnesau yn nwyrain Cymru yn dod ymlaen i ofyn am gymorth busnes. Ni wnaeth y gwerthusiad ganfod unrhyw dystiolaeth fod contractwyr yn defnyddio dull mwy canolbwyntiedig o ymgysylltu â busnesau neu entrepreneuriaid yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd o'i gymharu â dwyrain Cymru.
- 3.8 Yn gyffredinol, roedd contractwyr a phartneriaid cyflenwi'n priodoli tanberfformiad y targedau ar gyfer busnesau sy'n derbyn cymorth anariannol i ddechreuad hwyr Rhaglen Craidd a Thwf Busnes Cymru. Dywedasant mai'r rheswm dros hyn oedd ei fod wedi cymryd yn hirach na'r disgwyl i drosglwyddo staff (o dan y Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth))¹¹ o'r sefydliad a gyflwynodd y rhaglenni Ymgysylltu â Chwsmeriaid ac NBSS yn rownd 2007–13 yr ERDF ac i ddatblygu'r systemau i gasglu dystiolaeth ar gyfer allbynnau a datblygu cydberthnasau rhwng partneriaid lleol ar gyfer atgyfeirio. Gallai'r gyfran uchel (37% erbyn mis Mawrth 2018) o fusnesau Lefel 1 a gofrestrodd gyda'r gwasanaeth ond na chawsant y chwe awr angenrheidiol o gymorth i'w hawlio yn erbyn y canlyniad hefyd fod yn gyfrifol am hyn.
- 3.9 Gall buddiolwyr gyfrannu at dargedau canlyniad y rhaglen ar gyfer cynyddu cyflogaeth mewn mentrau a gefnogwyd a chynyddu allforion, hyd yn oed pan fyddant wedi derbyn llai na chwe awr o gymorth. Nododd timau'r prosiect fod rhai o'r buddiolwyr hyn wedi gallu tyfu'n sylweddol gan fod y cyngor dros y ffôn a'r cymorth wyneb yn wyneb wedi eu helpu i gael gafael ar gyllid a nodi meysydd i'w

¹¹ Mae'r Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) yn diogelu telerau ac amodau cyflogeion pan fydd busnes neu fenter, neu ran o un, yn cael ei throsglwyddo i gyflogwr newydd

gwella y gallent fynd i'r afael â nhw. Defnyddiwyd hyn i egluro pam fod y rhaglen yn perfformio'n well yn erbyn ei thargedau canlyniad ar gyfer cynnydd mewn swyddi ac allforion hyd yn oed pan mae y tu ôl i'w tharged ar gyfer allbynnau (busnesau sy'n derbyn cymorth anariannol).

- 3.10 Priodolwyd y tanberfformiad yn erbyn y targed ar gyfer mabwysiadu neu wella cydraddoldeb ac amrywiaeth a chynlluniau datblygu cynaliadwy i amrywiaeth o resymau. Yn ôl partneriaid cyflenwi, er bod busnesau ac entrepreneuriaid yn cydnabod pwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth a datblygu cynaliadwy, yn aml, roedd yn llai pwysig na'r camau gweithredu eraill a nodwyd gan gynghorwyr busnes. Yn yr un modd, nododd buddiolwyr eu bod yn teimlo bod datblygu cynaliadwy a chydraddoldeb ac amrywiaeth yn bwysig, ond nid oeddent yn eu hystyried fel blaenoriaeth i ymdrin â hi ar unwaith. O ganlyniad, ni wnaeth y buddiolwyr fabwysiadu'r newidiadau ar unwaith.
- 3.11 Ym mis Chwefror 2018, gwnaeth tîm Busnes Cymru ddatblygu cynigion ar gyfer newid sut mae'r contractwyr yn cyflwyno cymorth ar gyfer datblygu cynaliadwy a chydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'n rhaid i gontractwyr bellach annog buddiolwyr i addunedu y byddant yn cyflawni cyfres o gamau gweithredu i wella datblygu cynaliadwy a chydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r addunedau yn unol â'r cynigion yng Nghynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru i bob busnes sy'n derbyn cymorth y wladwriaeth ymrwymo i 'gontract economaidd' gyda Llywodraeth Cymru, lle mae'n ymrwymo i botensial tyfu, gwaith teg, hybu iechyd, sgiliau a dysgu yn y gweithlu, a gwneud cynnydd tuag at leihau ei ôl-troed carbon.
- 3.12 Cafodd yr 'adduned datblygu cynaliadwy' ei chyflwyno ym mis Mawrth 2018, a bwriadwyd cyflwyno'r 'adduned cydraddoldeb ac amrywiaeth' ym mis Gorffennaf 2018. Nododd tîm y Rhaglen Craidd a Thwf fod yr adduned datblygu cynaliadwy wedi cynyddu nifer y busnesau a oedd yn cyflawni'r allbwn.

Tabl 3.1 Perfformiad prosiectau cefnogi BBaChau yn nwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn erbyn y cynllun hyd at fis Mawrth 2018, yn ôl targed a phrosiect (% y targed mewn cromfachau)

	Dwyrain Cymru		Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Cyfanswm	
	Targed hyd yn hyn yn ystod y flwydd yn	Gwirione ddol	Targed hyd yn hyn yn ystod y flwydd yn	Gwirion eddol	Targed hyd yn hyn yn ystod y flwydd yn	Gwirione ddol
Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol	2,547	797 (31%)	3,727	1,542 (41%)	6,274	2,339 (37%)
Cynyddu cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir (cyfwerth ag amser llawn)	1,383	1,617.61 (117%)	2,091	3,292.68 (157%)	3,474	4,910.29 (141%)
Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella cydraddoldeb ac amrywiaeth	950	105 (11%)	1,376	226 (16%)	2,326	331 (14%)
Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella datblygu cynaliadwy	950	60 (6%)	1,376	156 (11%)	2,326	216 (9%)
Cynnydd yn lefel yr allforion (£'000oedd)	20,500	12,424 (61%)	32,625	49,583 (152%)	53,125	62,007 (117%)

Ffynhonnell: Ffurflenni WEFO Busnes Cymru rhwng mis Ionawr 2016 a mis Mawrth 2018

3.13 Mae Tabl 3.2 yn dangos perfformiad prosiectau cefnogi BBaChau ERDF dwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn erbyn eu targedau blynyddol/chwarterol. Mae'n dangos y canlynol:

- Nid yw'r targedau ar gyfer busnesau sy'n derbyn cymorth anariannol wedi'u cyrraedd mewn unrhyw gyfnod, ond cyflawnwyd ffigurau uwch yn 2017 na 2016.¹²

¹² Nid oes data perfformiad chwarterol ar gael ar gyfer Ionawr–Rhagfyr 2016 oherwydd nid oedd y data a fewnbynnwyd ar y System Cyfrifon Busnes yn gywir.

- Serch hyn, mae'r prosiectau bob amser yn cyrraedd eu targedau ar gyfer cynyddu cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir, ac maent wedi cyrraedd eu targedau chwarterol ar gyfer cynyddu lefel yr allforion ers mis Ebrill 2017.
- Mae'r allbynnau ar gyfer cynlluniau datblygu cynaliadwy a chydaddoldeb ac amrywiaeth wedi bod ymhell islaw eu proffil chwarterol yn gyson, ond mae'r ffigurau wedi gwella ers mis Hydref 2017, sy'n dangos cyflwyniad camau gweithredu a mentrau i fynd i'r afael â thanberfformiad yn y maes hwn. Nid oes data perfformiad chwarterol ar gael ar gyfer Ionawr–Rhagfyr 2016 oherwydd nid oedd y data a fewnbynnwyd ar y System Cyfrifon Busnes yn gywir.

Tabl 3.2 Canran y targedau chwarterol a gyflawnwyd gan brosiectau cefnogi BbaChau yn nwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd hyd at fis Mawrth 2018, yn ôl targed a chwarter (gwirioneddol mewn cromfachau)

Allbwn	Ion – Rhag 16	Ion – Mawrth 17	Ebrill – Meh 17	Gorff – Medi 17	Hyd – Rhag 17	Ion – Mawrth 18
Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol ¹³	9% (110)	42% (260)	82% (507)	36% (442)	38% (478)	44% (542)
Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir	113% (765.4)	152% (513.9)	110% (371.8)	147% (1,037.4)	118% (833.1)	197% (1,388.8)
Mentrau sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau a systemau monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth	0% (0)	5% (16)	23% (67)	10% (44)	25% (113)	20% (91)
Mentrau sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau a systemau monitro datblygu cynaliadwy	0% (0)	2% (7)	8% (23)	10% (46)	16% (72)	15% (68)
Cynnydd yn lefel yr allforion (£'000oedd)	45% (£5,596)	91% (£5,243)	238% (£13,666)	162% (£9,313)	120% (£14,096)	120% (£14,094)

Ffynhonnell: Ffurflenni WEFO Busnes Cymru rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018

¹³ Nid oes data perfformiad chwarterol ar gael ar gyfer Ionawr–Rhagfyr. Mae hyn oherwydd problemau o ran mewnbynnu'r data ar y System Cyfrifon Busnes, a oedd yn golygu bod y ffigurau a oedd ar gael yn anghywir. Cysonwyd y data ym mis Ionawr 2018.

Cymorth entrepreneuriaeth yn nwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd

- 3.14 Fel y dangoswyd yn Tabl 3.3, gwnaeth y prosiectau entrepreneuriaeth berfformio'n dda ar gyfer unigolion a oedd yn derbyn cymorth (95% yn erbyn y targed blwyddyn hyd yn hyn). Fodd bynnag, ni wnaeth y prosiectau berfformio gystal yn erbyn y targedau ar gyfer cynyddu cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir (43% o'r targed) a mentrau newydd a gefnogir (29% o'r targed). Yn yr un modd â'r prosiectau cefnogi BBaChau, roedd y prosiectau entrepreneuriaeth ymhell y tu ôl i'w targedau ar gyfer entrepreneuriaid a oedd wedi mabwysiadu neu wella cynlluniau datblygu cynaliadwy a chydraddoldeb ac amrywiaeth.
- 3.15 Gwnaeth contractwyr a staff cyflawni briodoli tanberfformiad y prosiectau yn erbyn eu targedau ar gyfer mentrau newydd sy'n cael eu creu a swyddi newydd i'r amser hir rhwng darparu cymorth ac unigolion yn ystyried dechrau eu busnes, yn ogystal â heriau o ran casglu'r dystiolaeth ar gyfer mentrau newydd a gefnogwyd. Dywedodd rhai o'r entrepreneuriaid y gwnaethom gyfweld â nhw yn y cyfweiliadau ansoddol eu bod wedi penderfynu peidio â dechrau busnes ar ôl derbyn cymorth.
- 3.16 Yn yr un modd â'r rhaglen cefnogi BBaChau, mae'r prosiectau cymorth entrepreneuriaeth hefyd wedi perfformio'n well yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nag yn nwyrain Cymru. Yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, gwnaethant gyflawni 102% o'u targedau ar gyfer unigolion yr ymgysylltwyd â nhw a 50% o'u targedau ar gyfer cynyddu cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir, o'u cymharu ag 84% a 34% yn ôl eu trefn yn nwyrain Cymru. Nododd contractwyr a staff cyflawni mai'r rheswm tebygol am hyn oedd y galw is yn hytrach na mwy o heriau wrth ymgysylltu ag entrepreneuriaid yn nwyrain Cymru.

Tabl 3.3 Perfformiad prosiectau cefnogi entrepreneuriaeth yn nwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn erbyn y cynllun hyd at fis Mawrth 2018, yn ôl targed a phrosiect (% y targed mewn cromfachau)

	Dwyrain Cymru		Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Cyfanswm	
	Targed hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn	Gwirioneddol	Targed hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn	Gwirioneddol	Targed hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn	Gwirioneddol
Nifer yr unigolion sy'n derbyn cymorth	1,230	1,031 (84%)	1,845	1,875 (102%)	3,075	2,906 (95%)
Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella cydraddoldeb ac amrywiaeth	306	19 (6%)	459	83 (18%)	765	102 (13%)
Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella datblygu cynaliadwy	306	14 (5%)	459	52 (11%)	765	66 (9%)
Nifer y mentrau newydd a gefnogwyd	1,130	264 (23%)	1,745	564 (32%)	2,875	828 (29%)
Cynyddu cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir (cyfwerth ag amser llawn)	2,074	699.59 (34%)	3,150	1,559.27 (50%)	5,224	2,258.86 (43%)

Ffynhonnell: Ffurflenni WEFO Busnes Cymru rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018

- 3.17 Cafodd y prosiectau cymorth entrepreneuriaeth eu heffeithio hefyd gan y dechrau arafach na'r disgwyl yn sgil trosglwyddo contractau'r staff a oedd ar gontract blaenorol y rhaglen ERDF, ac ychydig iawn o allbynnau a gyflawnwyd yn ystod 2016. Fodd bynnag, dengys Tabl 3.4 fod y rhaglen wedi mynd uwchlaw ei tharged ar gyfer unigolion yr ymgysylltwyd â nhw yn gyson ers mis Gorffennaf 2017, ac mae wedi mynd uwchlaw ei tharged ar gyfer cynyddu cyflogaeth mewn mentrau a gefnogwyd yn y chwarter diwethaf. Er bod nifer y mentrau newydd a gefnogwyd wedi cynyddu (roedd chwarter cyntaf 2018 yn fwy na chwarter cyntaf 2017), nid oes unrhyw arwydd ei bod yn cynyddu tuag at ei tharged proffil ac mae'n parhau i gyflawni llai na hanner ei thargedau chwarterol. Mae'r rhaglen hefyd yn parhau i fod yn llawer is na'i thargedau proffil chwarterol ar gyfer mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a datblygu cynaliadwy.

Tabl 3.4 Canran y targedau chwarterol a gyflawnwyd gan brosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth yn nwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd hyd at fis Mawrth 2018, yn ôl chwarter ac allbwn (gwirioneddol mewn cromfachau)

Allbwn	Ion – Rhag 16	Ion – Mawrth 17	Ebrill – Meh 17	Gorff – Medi 17	Hyd – Rhag 17	Ion – Mawrth 18
Unigolion sy'n derbyn cymorth	1% (7)	43% (130)	65% (195)	168% (1,049)	102% (640)	142% (885)
Mentrau sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau a system monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth	0% (0)	1% (1)	4% (3)	24% (37)	17% (27)	22% (34)
Mentrau sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau a systemau monitro datblygu cynaliadwy	0% (0)	0% (0)	5% (4)	18% (28)	9% (14)	13% (20)
Nifer y mentrau newydd a gefnogwyd	0% (0)	23% (69)	24% (73)	40% (250)	30% (189)	40% (247)
Cynyddu cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir	1% (14.5)	43% (219)	9% (45.3)	38% (406.2)	37% (395.7)	111% (1,178.2)

Ffynhonnell: Ffurflenni WEFO Busnes Cymru rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018

Prosiectau ERDF y Rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (SFBE)

- 3.18 Mae Tabl 3.5 yn cyflwyno'r perfformiad yn erbyn dau brosiect ERDF yr SFBE hyd at fis Mawrth 2018. Mae'n dangos bod y prosiectau wedi bod yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau ar gyfer busnesau sy'n derbyn cymorth anariannol (107% o dargedau'r flwyddyn hyd yn hyn), ond eu bod ymhell y tu ôl i'w targedau ar gyfer nifer y mentrau sydd wedi cyflwyno cynhyrchion neu wasanaethau newydd i'r cwmni (8% o dargedau'r flwyddyn hyd yn hyn). Mae hefyd rhai gwahaniaethau rhwng y prosiectau, ond, yn wahanol i'r prosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth a chymorth i BBaChau, mae prosiectau'r SFBE wedi cyflawni cyfran uwch o'u targedau yn nwyrain Cymru nag yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.
- 3.19 Gwnaeth y contractwr SFBE nodi ystod o resymau pam fod y prosiect ar ei hôl hi gyda'i dargedau ar gyfer nifer y busnesau sydd wedi cyflwyno cynhyrchion neu

wasanaethau newydd i'r cwmni. Mae'r rhain fel a ganlyn yn nhrefn eu harwyddocâd:

- **Oediadau gan fuddiolwyr o ran darparu tystiolaeth o'r allbwn.** Mae llawer o fuddiolwyr yn cyflwyno cynhyrchion neu wasanaethau newydd i'r cwmni yn y misoedd ar ôl derbyn cymorth. Bu'n rhaid i'r contractwr felly gysylltu ag unigolion ar ôl iddynt dderbyn cymorth, fel arfer dros y ffôn neu ar e-bost, i ofyn iddynt anfon y dystiolaeth. Fodd bynnag, nododd y contractwr fod arweinwyr busnes yn ymateb yn araf i'r ceisiadau hyn, ac nid oedd y data a gyflwynwyd bob amser yn bodloni'r gofynion i gael ei hawlio fel allbwn prosiect.
- **Prinder adnoddau ar gyfer casglu gofynion tystiolaeth.** Y cynghorwyr busnes oedd yn gyfrifol am y gofyniad i gasglu data ar allbynnau ar y dechrau. Fodd bynnag, roedd rhai'n cael anhawster cydbwyso'r dasg hon gyda'u dyletswyddau bob dydd o ran cefnogi buddiolwyr. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, cyflogodd y contractwr ddau weinyddwr ar ddechrau 2018 a oedd â'r brif rôl o gasglu'r gofynion tystiolaeth gan fusnesau. Mae hyn yn golygu bod cysylltiadau dilynol â buddiolwyr yn cael eu gwneud yn fwy systematig, ac mae'r contractwr yn credu ei fod eisoes yn eu helpu i berfformio'n well yn erbyn yr allbwn.
- **Gofynion tystiolaeth yn rhy feichus.** Roedd y gofyniad am lofnodion gwlyb yn rhwystr arbennig, oherwydd golygai bod yn rhaid i'r buddiolwr bostio'r dystiolaeth, ac roedd hynny'n cymryd amser. Nododd y contractwr ei fod wedi cytuno ag WEFO mewn egwyddor y byddai llofnodion digidol yn cael eu caniatáu ar gyfer hawlio allbynnau, ond mae angen i hyn gael ei ddilysu o hyd gan y Comisiwn Ewropeaidd.
- **Buddiolwyr ddim bob amser yn cofio bod gwasanaethau newydd wedi dod yn sgil y cymorth a dderbyniwyd gan y rhaglen SFBE.** Nododd staff cyflawni nad oedd rhai busnesau'n ymwybodol mai'r cymorth y gwnaethant ei dderbyn gan yr SFBE oedd y sbardun y tu ôl i rai o'r newidiadau a wnaethpwyd ganddynt. Nododd staff cyflawni yr aethpwyd i'r afael â'r broblem hon pan allent ddangos i'r busnes y cynllun gweithredu yr oedd wedi'i ddatblygu gyda'r cynghorydd SFBE. Mae hyn yn cymryd amser i'w ddatrys, felly mae oediadau wrth gasglu data i dystiolaethu'r allbwn.

Tabl 3.5 Perfformiad prosiectau'r SFBE yn nwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn erbyn y cynllun hyd at fis Mawrth 2018, yn ôl targed a chwarter (% y targed mewn cromfachau)

	Dwyrain Cymru		Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Cyfanswm	
	Targed hyd yn hyn yn ystod y flwydd yn	Gwirioneddol	Targed hyd yn hyn yn ystod y flwydd yn	Gwirioneddol	Targed hyd yn hyn yn ystod y flwydd yn	Gwirioneddol
Mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol	640	691 (108%)	1,134	1,214 (107%)	1,774	1,905 (107%)
Nifer y mentrau sy'n cyflwyno cynhyrchion newydd i'r cwmni ¹⁴	158	14 (9%)	347	27 (8%)	505	41 (8%)

Ffynhonnell: Ffurflenni WEFO ar gyfer yr SFBE, mis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2018

- 3.20 Mae Tabl 3.6 yn cyflwyno perfformiad y prosiectau SFBE yn erbyn eu targedau chwarterol. Mae'n dangos bod perfformiad prosiectau yn erbyn y targed ar gyfer mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol wedi amrywio o 60–75% mewn rhai chwarteri i 125% a rhagor mewn dau chwarter. Nododd y contractwr mai amseru digwyddiadau ac ymgyrchoedd marchnata oedd yn gyfrifol am hyn, sy'n cael effaith ar recriwtio yn y tymor byr.
- 3.21 Mae perfformiad y rhaglen yn erbyn ei thargedau chwarterol ar gyfer mentrau'n cyflwyno gwasanaethau neu gynhyrchion newydd i'r cwmni wedi bod yn is na hanner y targed proffil chwarterol ym mhob chwarter ond un.

Tabl 3.6 Canran y targedau chwarterol a gyflawnwyd gan brosiectau'r SFBE yn nwyrain Cymru a gorllewin Cymru a'r Cymoedd hyd at fis Mawrth 2018, yn ôl chwarter ac allbwn (gwirioneddol mewn cromfachau)

¹⁴ Daw'r wybodaeth hon o ffurflenni data'r contractwr yn hytrach nag o'r System Cyfrifon Busnes, oherwydd golygodd problem dechnegol nad oedd yr holl allbynnau wedi eu cofnodi ar y System Cyfrifon Busnes.

Allbwn	Ebrill – Meh 16	Gorff – Medi 16	Hyd – Rhag 16	Ion – Mawrth 17	Ebrill – Meh 17	Gorff – Medi 17	Hyd – Rhag 17	Ion – Mawrth 18
Mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol ¹⁵	98% (108)	63% (140)	64% (221)	125% (250)	85% (271)	75% (268)	75% (286)	157% (361)
Nifer y mentrau sy'n cyflwyno cynhyrchion newydd i'r cwmni ¹⁶	-	-	0% (0)	0% (0)	3% (3)	0% (0)	18% (20)	72% (18)

Ffynhonnell: Ffurflenni WEFO ar gyfer yr SFBE, mis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2018

Perfformiad rhaglenni Busnes Cymru

- 3.22 Mae'r adran hon yn cyflwyno perfformiad rhaglenni unigol Busnes Cymru yn erbyn eu targedau perfformiad ar gyfer yr ERDF a Llywodraeth Cymru. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar ddata a gyflwynwyd gan contractwyr. Gall fod yn wahanol i'r data a hawliwyd ym mhrosiectau'r ERDF, oherwydd mae angen lefel bellach o ddilysiad ar ddata'r ERDF cyn y gellir ei gyflwyno.

Rhaglen Craidd a Thwf Busnes Cymru

- 3.23 Fel y dangosir yn Tabl 3.7, mae Rhaglen Craidd a Thwf Busnes Cymru wedi perfformio'n dda hyd at fis Mawrth 2018 yn erbyn ei tharged canlyniad ar gyfer cynyddu allforion (156% o darged y flwyddyn hyd yn hyn), ond mae wedi cyflawni llai na hanner ei tharged ar gyfer y canlynol:
- Mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol (32% o darged y flwyddyn hyd yn hyn)
 - Mentrau sy'n mabwysiadu a gwella cynlluniau datblygu cynaliadwy a chydaddoldeb ac amrywiaeth (13% a 23% o'i tharged ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn, yn ôl eu trefn)
 - Mentrau newydd a gefnogwyd (28% o'i tharged ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn)
 - Gwerth bargeinion (46% o'i tharged ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn)
- 3.24 Mae'r rhaglen wedi perfformio'n well yn erbyn targedau canlyniad, gan gyflawni 68% o'r targed ar gyfer cynyddu cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir, 73% o'r targed ar gyfer diogelu swyddi, a 75% o'r targed ar gyfer buddsoddi mewn mentrau. Gellid ystyried hwn yn berfformiad cryf pan fo'r rhaglen wedi cyflawni llai na thraean o'i tharged allbwn ar gyfer mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol.

¹⁵ Rydym wedi defnyddio'r data a gasglwyd gan y contractwr ar gyfer yr allbwn hwn yn hytrach na defnyddio'r data a fewnbynwyd ar system WEFO, oherwydd cafodd y data ei gofnodi'n anghywir ar gyfer yr un olaf.

¹⁶ Dim targed i'w gyrraedd tan y trydydd chwarter

- 3.25 Mae'r data hefyd yn awgrymu bod cyfradd drosi isel rhwng nifer yr entrepreneuriaid sydd wedi derbyn cymorth (2,834) a nifer y mentrau newydd a grëwyd (979), o'i chymharu â'r gyfradd drosi ddisgwyliedig yn y targedau gwreiddiol. Disgwyliwyd yma y byddai 3,462 o entrepreneuriaid yn cael eu cefnogi hyd at fis Mawrth 2018, a byddai hyn yn arwain at greu 3,508 o fentrau.

Tabl 3.7 Perfformiad Rhaglen Craidd a Thwf Busnes Cymru yn erbyn y cynllun hyd at fis Mawrth 2018

Allbynnau	Targed hyd at fis Mawrth 2018	Gwirioneddol erbyn mis Mawrth 2018	% o'r proffil a gyflawnwyd
Targedau ERDF			
Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol	7,160	2,287	32%
Unigolion a gefnogwyd	3,462	2,834	82%
Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella cydraddoldeb ac amrywiaeth	2,326	303	13%
Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella datblygu cynaliadwy	2,326	541	23%
Cynyddu cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir (cyfwerth ag amser llawn)	6,980.10	4,760.93	68%
Mentrau newydd a gefnogwyd	3,508	979	28%
Cynnydd yn lefel yr allforion	£5,261,250	£8,186,137	156%
Targedau Llywodraeth Cymru			
Gweithdai Busnes Cymru a gynhaliwyd	369	933	253%
Busnesau a gafodd wybodaeth a'u cyfeirio	25,161	14,794	59%
Nifer y mentrau twf newydd a gefnogwyd	904	390	43%
Nifer y mentrau twf a gefnogwyd	2,203	1,473	67%
Mentrau a gafodd gymorth gyda chynngor masnach ryngwladol	372	139	37%
Swyddi a ddiogelwyd	1,180	859	73%
Mwy o fuddsoddiad mewn mentrau	£15,248,478	11,505,367	75%
Gwerth bargeinion ¹⁷	£183,000,000	£84,082,737	46%

Ffynhonnell: Data rheoli Busnes Cymru o fis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2018

- 3.26 Fel y nodwyd yn flaenorol, priodolwyd ychydig o'r tanberfformiad hwn i newid contractau cynghorwyr busnes, a wnaeth oedi dechrau'r rhaglen. Fel y dangoswyd yn Tabl 3.8, cyflawnodd y rhaglen lai na hanner ei thargedau contractiol ar gyfer

¹⁷ Mae hyn yn dynodi gwerth contractau newydd a enillwyd gan fuddiolwyr o ganlyniad i'r cymorth y gwnaethant ei dderbyn.

pob allbwn ond dau yn ystod y cyfnodau rhwng Ionawr a Rhagfyr 2016 ac Ionawr a Mawrth 2017. Mae'r perfformiad wedi gwella ers hynny, ac mae'r rhaglen wedi cyflawni neu bron â chyflawni ei thargedau ar gyfer cynyddu cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir ac unigolion sy'n derbyn cymorth yn y ddau chwarter olaf, ond yn parhau i danberfformio yn erbyn targedau ar gyfer mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol a mabwysiadu/gwella cynlluniau cydraddoldeb ac amrywiaeth a chynaliadwyedd.

Tabl 3.8 Canran y targedau chwarterol a gyflawnwyd gan y Rhaglen Craidd a Thwf hyd at fis Mawrth 2018, yn ôl targed a chwarter¹⁸ (gwirioneddol mewn cromfachau)

Allbwn	Ion – Rhag 16	Ion – Mawrth 17	Ebrill – Meh 17	Gorff – Medi 17	Hyd – Rhag 17	Ion – Mawrth 18
Targedau ERDF						
Mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol	25% (562)	25% (141)	16% (103)	31% (335)	36% (469)	53% (677)
Unigolion sy'n derbyn cymorth	17% (201)	17% (50)	90% (264)	166% (813)	116% (682)	140% (824)
Mentrau sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau cynaliadwyedd amgylcheddol	1% (13)	1% (3)	50% (24)	188% (90)	20% (71)	16% (102)
Mentrau sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth	4% (54)	4% (13)	140% (67)	323% (155)	34% (122)	21% (130)
Cynyddu cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir	35% (786.4)	35% (196.6)	85% (537)	91% (950.5)	88% (1,100.7)	95% (1,189.7)
Nifer y mentrau newydd a gefnogwyd	15% (183)	15% (46)	39% (115)	40% (199)	36% (215)	37% (221)
Gwerth allforion (£'000oedd)	133% (£2,442)	133% (£610)	113% (£840)	535% (£3,978)	40% (£300)	2% (£16)
Targedau Llywodraeth Cymru						
Gweithdai Busnes Cymru a gynhaliwyd	60% (77)	150% (60)	458% (183)	460% (184)	305% (183)	410% (246)
Busnesau a gafodd wybodaeth a'u cyfeirio	49% (4,516)	49% (1,129)	49% (1,000)	90% (3,092)	53% (2,168)	70% (2,889)
Nifer y mentrau twf newydd a gefnogwyd	20% (64.8)	20% (16.2)	45% (34)	62% (78)	56% (84)	75% (113)

¹⁸ Ychwanegwyd targedau chwarterol ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr 2016 a Mawrth 2017.

Nifer y mentrau twf a gefnogwyd	49% (348.8)	49% (87.2)	31% (61)	68% (224)	71% (280)	119% (472)
Mentrau a gefnogwyd gyda chynghor masnach ryngwladol	30% (40)	30% (10)	30% (12)	54% (22)	31% (19)	59% (36)
Swyddi a ddiogelwyd	8% (36)	8% (9)	103% (91)	110% (162)	205% (362)	138% (244)
Buddsoddi mewn mentrau (£'000oedd)	57% (£3,504)	57% (£876)	126% (£2,403)	283% (£5,390)	129% (£2,452)	66% (£1,260)
Gwerth bargeinion (£'000oedd)	1% (£443)	1% (£111)	7% (£1,556)	90% (£20,599)	209% (£47,861)	61% (£14,066)

Ffynhonnell: Data rheoli Busnes Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018

Y Rhaglen Cyflymu Twf

- 3.27 Mae Tabl 3.9 yn dangos bod y Rhaglen Cyflymu Twf wedi perfformio'n dda yn erbyn ei thargedau contractiol. Erbyn mis Mawrth 2018, roedd y rhaglen wedi mynd y tu hwnt i'w thargedau am y flwyddyn hyd yn hyn ar gyfer buddsoddi mewn mentrau a gefnogwyd (112% o'r targed), mentrau newydd a gefnogwyd (130% o'r targed) a chynnydd mewn allforion (103% o'r targed). Mae hefyd yn agos i'w tharged ar gyfer nifer yr unigolion a mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol (90% a 92% o'r targed yn ôl eu trefn) a chynyddu cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir (85% o'r targedau am y flwyddyn hyd yn hyn).
- 3.28 Yr unig allbwn nad yw'r rhaglen wedi cyrraedd ei tharged ar ei gyfer yw yn nifer y swyddi a grëwyd sy'n uwch na'r cyflog cyfartalog yng Nghymru. Nododd y contractwr fod y targed hwn yn heriol oherwydd mae cyfran uchel o'r swyddi a grëir mewn rolau rheng flaen mewn sectorau megis gweithgynhyrchu a lletygarwch, sydd â chyflogau cychwynnol isel.
- 3.29 Mae'r contractwr wedi cymryd camau i fynd i'r afael â hyn, fodd bynnag, drwy weithio gyda busnesau i greu rolau mwy proffesiynol, er mwyn gwella'r perfformiad yn erbyn y targed.

Tabl 3.9 Perfformiad yn erbyn cynllun y Rhaglen Cyflymu Twf, hyd at fis Mawrth 2018 (% y targed mewn cromfachau)

Allbwn	Targed am y flwyddyn hyd yn hyn, hyd at fis Mawrth 2018	Gwirioneddol hyd at fis Mawrth 2018	% o'r proffil a gyflawnwyd hyd yn hyn
Targedau ERDF			
Nifer yr unigolion sy'n derbyn cymorth anariannol	209	189	90%
Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol	422	390	92%
Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir (cyfwerth ag amser llawn)	3,906.4	3,328.8	85%
Cynnydd mewn allforion (£'000oedd)	£56,745	£58,748	104%
Mentrau newydd a gefnogwyd	84	109	130%
Targedau Llywodraeth Cymru			
Buddsoddi mewn mentrau (£'000oedd)	£92,700	£104,099	112%
Swyddi (cyfwerth ag amser llawn) sy'n uwch na chyflog cyfartalog Cymru	2,728	884.71	32%

Ffynhonnell: Data rheoli Busnes Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018

- 3.30 Fel y dangosir yn Tabl 3.10, yn y rhan fwyaf o chwarteri cyflawnodd y rhaglen ei thargedau chwarterol ar gyfer unigolion a mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol. Mae'r perfformiad yn erbyn canlyniad y targedau cefnogaeth (cynnydd mewn cyflogaeth ar gyfer mentrau a gefnogir, swyddi sy'n talu cyflogau sy'n uwch na'r cyfartaledd, mwy o allforion) wedi gwella'n sylweddol rhwng Ionawr 2017 a Mawrth 2018. Mae cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir wedi bod yn uwch na'r targed yn gyson ers mis Gorffennaf 2017 a buddsoddi mewn mentrau ers mis Ebrill 2017.
- 3.31 Yn nodweddiadol, mae'r rhaglen wedi cyflawni llai na 55% o'i thargedau chwarterol ar gyfer swyddi a grëwyd sy'n talu dwy ran o dair yn fwy na chyflog cyfartalog Cymru. Fodd bynnag, rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2018, cyflawnodd 99% o'i tharged. Adroddodd y contractwr fod hwn wedi digwydd o ganlyniad i dargedu cymorth at sectorau â chyflogau cyfartalog uchel (megis TGCh) a chefnogi

busnesau i dyfu eu gallu swyddfa gefn a rheoli, sydd hefyd yn alwedigaethau â chyflogau uwch fel arfer.

Tabl 3.10 Canran y targedau chwarterol a gyflawnwyd gan y Rhaglen Cyflymu Twf, fesul chwarter a tharged (gwirioneddol mewn cromfachau)

Allbwn	Ion – Rhag 16	Ion – Mawrth 17	Ebrill – Meh 17	Gorff – Medi 17	Hyd – Rhag 17	Ion – Mawrth 18
Nifer yr unigolion sy'n derbyn cymorth anariannol	231% (241)	62% (13)	182% (38)	110% (23)	115% (24)	53% (11)
Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol	110% (232)	57% (24)	83% (35)	102% (43)	88% (37)	45% (19)
Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir (cyfwerth ag amser llawn)	50% (983)	69% (269)	93% (363)	150% (587)	132% (518)	156% (610)
Swyddi (cyfwerth ag amser llawn) sy'n talu cyflog sy'n uwch na chyflog cyfartalog Cymru	15% (199)	21% (57.6)	35% (94.8)	54% (148.4)	42% (116)	99% (269.3)
Cynnydd mewn allforion (£'000oedd)	14% (£6,576)	18% (£1,715)	175% (£16,255)	93% (£8,590)	97% (£9,023)	159% (£14,808)
Buddsoddi mewn mentrau (£'000oedd)	34% (£15,823)	61% (£5,611)	179% (£16,595)	346% (£32,111)	192% (17,831)	174% (£16,128)
Mentrau newydd a gefnogir	0% (0)	250% (21)	155% (13)	321% (27)	405% (34)	95% (8)

Ffynhonnell: Data rheoli Busnes Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018

Y Rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym lawn (SFBE)

- 3.32 Fel y dangosir yn Tabl 3.11, mae'r rhaglen SFBE wedi mynd y tu hwnt i'w thargedau ar gyfer mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol (104% o'r targed) a gweithdai a gyflawnwyd (123% o'r targed). Mae hefyd wedi delio â nifer sy'n uwch na'r disgwyl o arweiniadau/ymholiadau (104%). Fodd bynnag, y mae'n cwmpo y tu ôl i'r targed ar gyfer pobl sy'n mynychu gweithdai (75% o'r targed) a sesiynau cefnogi busnes un-i-un (80% o'r targed), ac mae'n bell ar ôl o ran canlyniad ei

tharged cymorth ar gyfer mentrau sy'n cyflwyno cynhyrchion neu wasanaethau newydd i'r cwmni.

- 3.33 Gwnaeth y contractwr adrodd, gan fod y rhaglen y tu ôl i'r targed ar gyfer mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol yn 2016, y gwnaeth gytuno ar ddechrau 2017 i gynyddu nifer y gweithdai y byddai'n eu cyflawni bob mis. Gwnaeth hyn gynyddu nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol. Fodd bynnag, gwnaeth y contractwr adrodd fod nifer y buddiolwyr sy'n mynychu sesiwn wedi bod yn is na'r disgwyl yn ddiweddar, er bod galw wedi bod ar gyfer y gweithdai.
- 3.34 Gwnaeth y contractwr nodi mai prif reswm dros y tanberfformio yn erbyn ei darged ar gyfer sesiynau busnes un-i-un oedd oherwydd ei bod yn cymryd yn hirach na'r disgwyl i gael hyd i gyflenwad llawn o gynghorwyr busnes. Gwnaeth y contractwr ganfod ei bod yn heriol recriwtio unigolion gyda'r sgiliau busnes priodol yn ogystal â'r wybodaeth o systemau rheoli a thechnoleg er mwyn darparu cymorth. I ddechrau, nid oedd gan gynghorwyr yr ystod llawn o wybodaeth am dechnoleg TGCh y gellir ei defnyddio ar gyfer rheoli busnes, ac felly nid oeddent yn gallu cyflenwi sesiynau cymorth ar gyfer rhai pynciau. Roedd y cwota staff llawn ond mewn lle erbyn mis Chwefror 2018.

Tabl 3.11 Perfformiad y rhaglen SFBE yn erbyn ei thargedau'r flwyddyn hyd yn hyn, hyd at fis Mawrth 2018 (% y targed mewn cromfachau)

	Targed am y flwyddyn hyd yn hyn	Gwirioneddol y flwyddyn hyd yn hyn
Targedau ERDF		
Mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol	1,463	1,535 (104%)
Nifer y mentrau sy'n cyflwyno cynhyrchion sy'n newydd i'r cwmni	480	23 (5%)
Targedau Llywodraeth Cymru		
Arweiniadau / ymholiadau	3,523	3,679 (104%)
Gweithdai i ysgogi gweithredu	290	357 (123%)
Mynychwyr gweithdy	2,689	2,011 (75%)
Sesiynau cefnogi busnes un-i-un	1,933	1,544 (80%)

Ffynhonnell: Data rheoli Busnes Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018

- 3.35 Mae Tabl 3.12 yn dangos perfformiad y rhaglen SFBE yn erbyn ei thargedau chwarterol. Mae'n dangos bod y rhaglen, ar y cyfan, wedi bod yn gweithredu'n

uwch na'i tharged chwarterol ar gyfer nifer y gweithdai a gynhaliwyd ac, yn hanner y chwarteri, ei bod yn uwch na'i tharged ar gyfer arweiniadau/ymholiadau a gynhyrchir bob mis. Fodd bynnag, ar gyfer y rhan fwyaf o chwarteri, mae nifer y buddiolwyr sy'n mynychu gweithdai wedi bod yn is na'r disgwyl ac mae nifer y buddiolwyr sy'n derbyn cymorth anariannol rhwng 64% ac 85% o'r targed.

Tabl 3.12 Canran y targedau chwarterol a gyflawnwyd gan y rhaglen SFBE hyd at fis Mawrth 2018, fesul chwarter a tharged¹⁹ (gwirioneddol mewn cromfachau)

Allbwn	Ebrill – Meh 16	Gorff – Medi 16	Hyd – Rhag 16	Ion – Mawrth 17	Ebrill – Meh 17	Gorff – Medi 17	Hyd – Rhag 17
Targedau ERDF							
Mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol	98% (108)	64% (140)	64% (221)	125% (250)	85% (271)	75% (270)	75% (285)
Nifer y mentrau sy'n cyflwyno cynhyrchion sy'n newydd i'r cwmni	Amhert hnasol (0)	Amherth nasol (0)	Amherth nasol (0)	3% (3)	0% (0)	18% (20)	0% (0)
Targedau Llywodraeth Cymru							
Arweiniadau / ymholiadau	40% (159)	195% (717)	60% (536)	106% (455)	88% (415)	88% (393)	175% (660)
Gweithdai ysbrydoli gweithredu	143% (43)	128% (51)	125% (50)	109% (49)	111% (50)	143% (57)	143% (57)
Mynychwyr gweithdy	61% (183)	64% (257)	63% (250)	145% (304)	87% (314)	69% (319)	83% (384)
Sesiynau cefnogi busnes un-i-un	98% (108)	64% (140)	64% (221)	125% (250)	100% (271)	268% (268)	75% (286)

Ffynhonnell: Data rheoli Busnes Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018

¹⁹ Mae data ond ar gael hyd at ddiwedd mis Rhagfyr ar gyfer targedau ERDF a chontractwyr

Entrepreneuriaeth leuenctid

- 3.36 Mae Tabl 3.13 yn dangos bod y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi cyflawni neu ragori ar ei thargedau ar gyfer bron pob un o'i hallbynnau perfformiad. Mae'r gweithgareddau Ymgysylltu a Grymuso yn debyg iawn i'r hyn a ddisgwylir, gyda 105% o darged y flwyddyn hyd yn hyn o bobl ifanc sy'n ymwneud â gweithgaredd ymgysylltu a 104% o'r gweithdai cyn-16.
- 3.37 Roedd y rhan fwyaf o agweddau'r gweithgareddau Cyfarparu yn unol â'r disgwyliadau ar y cyfan hefyd. Mae'r rhaglen yn tangyflawni ychydig o ran ei tharged ar gyfer nifer y bobl ifanc a gefnogir i ddechrau busnes (93%) a nifer y bobl ifanc sy'n derbyn cefnogaeth busnes un-i-un (98%), ond mae'n rhagori ar ei tharged ar gyfer nifer y bobl ifanc sy'n symud ymlaen i wasanaeth Craidd a Thwf Busnes Cymru (114%). Fodd bynnag, y mae y tu ôl ar ei tharged ar gyfer nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn sesiwn bwtcamp (63% o'r targed) ac o ran nifer y bobl ifanc sydd â diddordeb mewn dechrau busnes (34% o'r targed).
- 3.38 Gwnaeth contractwyr adrodd bod recriwtio pobl ifanc ar gyfer sesiynau bwtcamp yn dechrau'n araf am eu bod yn cael trafferth wrth adnabod pobl ifanc addas. Fodd bynnag, maent yn gweithio'n agosach gyda hyrwyddwyr entrepreneuriaeth ac mae'r galw am sesiynau yn cynyddu. Gyda sesiynau ychwanegol yn cael eu cynllunio ar gyfer 2018 a thu hwnt, maent yn disgwyl y bydd modd cyflawni'r targedau ar gyfer sesiynau bwtcamp.
- 3.39 Roedd y prif reswm am danberfformiad o ran targedau'r rhaglen ar gyfer pobl ifanc sydd â diddordeb mewn dechrau busnes oherwydd diffyg yn nifer y bobl a aeth ymlaen o'r gweithgareddau Ymgysylltu ac ymweliadau wedi'u teilwra. Disgwylir y bydd y bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn sydd â diddordeb mewn dechrau busnes yn cael eu cyfeirio at wefan y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid, lle y gallant ddatblygu cynllun gweithredu. Roedd tîm y prosiect a'r contractwr yn teimlo bod hyn yn digwydd i raddau mawr am nad oedd pobl ifanc yn symud ymlaen i'r wefan, yn hytrach na diffyg diddordeb.

Tabl 3.13 Perfformiad y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid yn erbyn ei thargedau'r flwyddyn hyd yn hyn, hyd at fis Mawrth 2018 (% y targed mewn cromfachau)

	Cyfanswm	
	Targed y flwyddyn hyd yn hyn Mawrth 2018	Gwirioneddol y flwyddyn hyd yn hyn (nifer a % targed y flwyddyn hyd yn hyn)
Marchnata		
Nifer y canlyniadau ymgyrch (ymweliadau â'r wefan)	68,318	84,515 (124%)
Ymgysylltu a Grymuso		
Nifer y bobl ifanc sy'n ymwneud ag entrepreneuriaeth (sy'n ymwneud â'r gweithgareddau ymgysylltu)	121,574	127,842 (105%)
Nifer y bobl ifanc sydd â diddordeb mewn dechrau busnes	8,675	2,971 (34%)
Nifer y gweithdai ar gyfer unigolion cyn-16	2,713	2,812 (104%)
Nifer y gweithdai ar gyfer unigolion cyn-16	2,571	2,504 (97%)
Nifer y modelau rôl sy'n weithredol	375	367 (98%)
Nifer y modelau rôl a hyfforddwyd	129	128 (99%)
Nifer yr unigolion sy'n derbyn cymorth mewn digwyddiadau	1,280	1,653 (129%)
Cyfarparu		
Nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn ymweliadau sydd wedi'u teilwra ²⁰	11,656	25,209 (216%)
Nifer yr unigolion sy'n cwblhau sesiwn bwtcamp	200	126 (63%)
Nifer yr unigolion sy'n derbyn cymorth un-i-un	1,058	1,036 (98%)
Nifer yr unigolion sy'n symud ymlaen at wasanaethau Busnes Cymru eraill	250	285 (114%)
Nifer y bobl ifanc a gefnogir i ddechrau busnes	855	793 (93%)
Busnesau newydd	85	143 (168%)
Trawsbynciol		
Cefnogaeth ariannol o'r sector preifat / trydydd sector	£25,000	£49,000 (196%)

Ffynhonnell: Data rheoli Busnes Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018

Perfformiad y Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol (REAP)

²⁰ Mae ymweliadau sydd wedi'u teilwra yn sesiynau addysg entrepreneuriaeth sydd wedi'u datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid lleol (megis Ymddiriedolaeth y Tywysog a'r Ffermwyr Ifanc)

- 3.40 Roedd Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus wrth recriwtio cyfranogwyr ar gyfer sesiynau Sefydliad Technoleg Massachusetts. Mynychwyd y sesiynau gan academyddion uwch ym Mhrifysgol Abertawe a Phrifysgol De Cymru, yn ogystal ag arweinwyr busnes llwyddiannus o'r cwmnïau yr ymgysylltwyd â hwy (GoCompare, Wesley Clover, Growth Partners, Admiral Group). Gwahoddwyd yr unigolion hyn yn benodol gan Weinidogion Cymru a gwnaethant fynychu pob un o'r pedwar gweithdy a gynhaliwyd yn 2015 a 2016.
- 3.41 Ers y sesiynau, mae'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid hyn wedi parhau i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu tirwedd fwy entrepreneuriaidd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu a hyrwyddo symudiad 'Creu Sbarc' er mwyn ymgysylltu ag ystod ehangach o randdeiliaid a chael ganddynt ymrwymiad i gefnogi entrepreneuriaeth yng Nghymru.
- 3.42 Gwnaeth gwaith ymchwil ar ecosystem Cymru trwy gyfranogiad yn y rhaglen REAP nodi nifer o uchelgeisiau eang ar gyfer yr holl rhanddeiliaid er mwyn gwella ecosystem Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys:
- Cynyddu'r nifer o gynhyrchion a ddatblygir o fewn addysg uwch sy'n mynd ymlaen i'r farchnad
 - Cynyddu'r nifer o fusnesau twf uchel yng Nghymru
 - Cyflymu gweithgarwch dechrau busnes
 - Cynyddu cofrestriadau o batentau
 - Cynyddu'r nifer o fusnesau sy'n cael eu dechrau gan raddedigion prifysgol
 - Ehangu a gwella buddsoddiad cyfalaf menter yng Nghymru
- 3.43 Ym mis Tachwedd 2017, sefydlodd y rhanddeiliaid Gorfforaeth Buddiannau Cymunedol i symud ymlaen gweithgareddau er mwyn cyflawni'r amcanion hyn. Mae gan bob un o'r pum grŵp rhanddeiliaid gyfran hafal yn y Gorfforaeth Buddiannau Cymunedol. Datblygwyd cynllun gweithredu ym mis Ionawr 2018 er mwyn gyrru ymlaen datblygiadau ar gyfer y rhaglen. Ar hyn o bryd, mae'n gyfnod cynnar o ran rhoi cynllun gweithredu'r Gorfforaeth Buddiannau Cymunedol ar waith.
- 3.44 Gwnaeth rhanddeiliaid adrodd bod cynnydd y rhaglen REAP yn unol yn fras â disgwyliadau. Gwnaeth aelodau'r rhaglen REAP adrodd mai her allweddol a wnaeth

gyfyngu ar waith gweithredu yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen oedd diffyg ysgrifenyddiaeth bwrpasol. Er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu rhywfaint o gymorth, cydnabuwyd bod angen gwell cymorth er mwyn i'r rhaglen allu cyflawni ei hamcanion uchelgeisiol. O ganlyniad, adroddwyd bod y Gorfforaeth Buddiannau Cymunedol wedi darparu mwy o adnoddau i'r rhaglen, y gellid eu neilltuo ar gyfer rhoi'r cynllun gweithredu ar waith.

4. Ymgysylltu â buddiolwyr

- 4.1 Mae'r bennod hon yn archwilio'r ymagweddau sydd wedi eu rhoi ar waith i ymgysylltu â buddiolwyr a'r ystod o fusnesau ac entrepreneuriaid a gafodd fynediad at raglenni amrywiol Busnes Cymru. Mae'n defnyddio dadansoddiad o ddata buddiolwyr y System Cyfrifon Busnes a chyfweliadau ansoddol gyda chontractwyr a darparwyr cymorth i fusnesau eraill (megis Banc Datblygu Cymru, awdurdodau lleol a banciau lleol).

Canfyddiadau allweddol

Ymgysylltu â buddiolwyr posibl

- Er mwyn ymgysylltu â busnesau neu entrepreneuriaid, defnyddiodd y rhaglenni SFBE a Chraidd a Thwf gymysgedd o farchnata, gweithdai/digwyddiadau, ac atgyfeiriadau gan gymdeithasau busnes lleol a rhwydweithiau busnes / darparwyr eraill. Ers diwedd 2017, mae rhanddeiliaid wedi adrodd eu bod wedi cael cyfarfodydd gyda chynghorwyr busnes i rannu gwybodaeth am eu gwasanaethau priodol ac i drefnu digwyddiadau lleol, sydd hefyd wedi bod o gymorth wrth recriwtio.
- Defnyddiwyd yr ymgyrchoedd marchnata, wedi eu hategu drwy ailgysylltu â busnesau cofrestredig drwy'r llinell gymorth, i ymgysylltu a busnesau Lefel 1–2 ar gyfer y Rhaglen Craidd a Thwf. Yn unol â disgwyliadau, adroddwyd mai atgyfeiriadau oedd yr ymagwedd fwyaf cyffredin ar gyfer ymgysylltu â busnesau Lefel 3–5 a'r rhai ar y rhaglen SFBE. Ar y cyfan, seiliwyd yr atgyfeiriadau hyn ar rwydweithiau presennol cynghorwyr busnes.
- Mae recriwtio ar gyfer y Rhaglen Cyflymu Twf yn digwydd trwy atgyfeiriadau yn bennaf. Mae'r pwyslais ar gefnogi busnesau sydd â'r potensial i dyfu yn golygu, yn ôl y diffiniad, fod angen i'r contractwr fod yn ddewisol ynglŷn â'r sefydliadau y mae'n ymgysylltu â hwy. Gwnaeth cyfran uchel (85%) o fuddiolwyr gyflawni twf digonol er mwyn aros yn y rhaglen.
- Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuencid wedi'i sefydlu'n dda yng Nghymru ac, o ganlyniad, mae'r contractwr yn gallu ymgysylltu â chysylltiadau sydd eisoes yn bodoli mewn ysgolion, colegau a sefydliadau

addysg uwch er mwyn trefnu sesiynau Ymgysylltu a denu pobl ifanc i'r gweithdai. Mae'r hyrwyddwyr entrepreneuriaeth yn y colegau a'r sefydliadau addysg uwch hefyd yn helpu i ddarparu atgyfeiriadau i weithgareddau Cyfarparu.

- Mae atgyfeiriadau rhwng rhaglenni yn digwydd er eu bod wedi cymryd amser i gael eu sefydlu. Cafwyd canfyddiad ymysg rhai contractwyr y gellid cynyddu'r atgyfeiriadau rhwng y Rhaglen Craidd a Thwf a'r rhaglen SFBE.

Buddiolwyr yr ymgysylltwyd â hwy

- Ar gyfer y Rhaglen Craidd a Thwf, mae cyfran uwch na'r disgwyl o'r busnesau sy'n cael mynediad at y rhaglen yn fusnesau Lefel 3–4. Dim ond 55% o'r buddiolwyr oedd buddiolwyr Lefel 1 (yn erbyn disgwyliad o 69%). Mae mwy o fusnesau Lefel 3 a 4 wedi derbyn cymorth anariannol (dros 80%) o'u cymharu â busnesau Lefel 1 a 2.
- Ar draws yr holl raglenni, gwnaeth y buddiolwyr gwmpasu amrediad eang o sectorau. Fodd bynnag, mae peth amrywiaeth. Gwnaeth y Rhaglen Craidd a Thwf recriwtio cyfran gymharol uchel o fusnesau gweithgynhyrchu a TGCh, ond gwnaeth y Rhaglen Cyflymu Twf ymgysylltu â chyfran uchel o fusnesau TGCh, gweithgynhyrchu, a gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol. Gwnaeth y rhaglen SFBE recriwtio cyfran gymharol uchel o fusnesau lletygarwch. Gwnaeth y ddwy raglen recriwtio nifer gymharol isel o fusnesau adeiladu a'r sector iechyd.
- Roedd y busnesau yr ymgysylltwyd â hwy yn amrywio o fusnesau newydd i rai yr oedd wedi sefydlu ers peth amser. Roedd busnesau a oedd dros ddeng mlwydd oed yn cyfrif am 33% o fusnesau'r Rhaglen Cyflymu Twf, 40% o fusnesau SFBE, 51% o fusnesau Lefel 3 a 4 y Rhaglen Craidd a Thwf, a 27% o fusnesau Lefel 1 a 2 y Rhaglen Craidd a Thwf.
- Gwnaeth y rhaglenni SFBE, Cyflymu Twf a Chraidd a Thwf recriwtio cyfran lled gymharol o fuddiolwyr ledled Cymru. Roedd de/de-ddwyrain Cymru yn cael ei gorgynrychioli ychydig ymhlith busnesau'r Rhaglen Craidd a Thwf a'r un fath ar gyfer gogledd Cymru ymhlith busnesau SFBE. Roedd buddiolwyr Cyfarparu'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi'u gogwyddo'n drwm

tuag at y de/de-ddwyrain, ac roedd braidd dim ohonynt yn dod o ogledd Cymru, ond priodolwyd hyn i'r oedi cyn i'r contractwr yng ngogledd Cymru fewnbynnu'r data ar y System Cyfrifon Busnes.

- Roedd y rhaglenni wedi bod yn llwyddiannus wrth recriwtio perchnogion busnes benywaidd. Roeddent yn cynnwys 46% o'r buddiolwyr er eu bod ond yn cynnwys 20% o holl berchnogion busnes yn y DU. Fodd bynnag, roedd ychydig o amrywiad rhwng y rhaglenni.
- Prin iawn oedd y buddiolwyr a wnaeth y dewis i dderbyn cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg. Priodolwyd hyn i fuddiolwyr, hyd yn oed rhai sy'n siarad Cymraeg, yn nodi ei bod yn well ganddynt gyfathrebu'n ffurfiol yn Saesneg. Gwnaeth pob contractwr adrodd bod ganddo'r gallu i gyfenwi'r holl gymorth yn Gymraeg.

Ymgysylltu â buddiolwyr

Rhaglen Craidd a Thwf Busnes Cymru

- 4.2 Defnyddiodd y Rhaglen Craidd a Thwf gymysgedd o weithgareddau marchnata goddefol a gweithredol i recriwtio defnyddwyr gwasanaeth newydd. Roedd y recriwtio goddefol yn cynnwys gweithgareddau marchnata sy'n cael eu gweithredu trwy gydol y flwyddyn (gan gynnwys taflenni, hysbysebion, rhaglenni cyfryngau cymdeithasol a hysbysebion ar y radio) i yrru traffig at y wefan a'r llinell gymorth. Mae hyn yn cynnwys marchnata at grwpiau penodol (megis perchnogion benywaidd, yr hunangyflogedig a lleiafrifoedd ethnig).
- 4.3 Atodir y marchnata parhaus gan 'ymgyrchoedd' marchnata mwy dwys sydd yn cael eu cynnal oddeutu unwaith mewn blwyddyn ariannol. Mae'r ymgyrchoedd yn para hyd at chwech i wyth wythnos fel arfer. Cafodd yr ymgyrch ddiweddaraf ei chynnal ym mis Chwefror a mis Mawrth 2018.
- 4.4 Cafodd marchnata mwy gweithredol ei gynnal gan y llinell gymorth a'r contractwyr. Mae tîm y llinell gymorth a'r wefan yn cynhyrchu e-byst targedig, cylchlythyrau a chynnwys cyfryngau cymdeithasol i ailgysylltu â defnyddwyr busnes cofrestredig lefel isel/anweithredol. Mae'r contractwyr yn cynnal digwyddiadau lleol er mwyn ymgysylltu â busnesau newydd. Mae'r rhain wedi'u trefnu gyda grwpiau busnes lleol neu awdurdodau lleol yn bennaf. Roeddent yn cynnwys pynciau y teimlid eu bod yn berthnasol i'r ardal leol a fyddai'n denu busnesau neu entrepreneuriaid

newydd. Mae hyn yn cynnwys pynciau megis marchnata ar-lein, hanfodolion dechrau busnes a masnachu rhyngwladol. Gwnaeth contractwyr a rhanddeiliaid adrodd bod nifer y sesiynau lleol hyn wedi cynyddu yn ystod y chwe mis diwethaf o'r rhaglen.

4.5 Roedd y recriwtio goddefol a'r ymgysylltiad gweithredol gan y llinell gymorth wedi'u hanelu'n bennaf tuag at ymgysylltu â busnesau neu entrepreneuriaid Lefel 1 a 2, sef y rhai y disgwylir eu bod yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r buddiolwyr sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth craidd (12,500 o'r 14,500 o fusnesau neu entrepreneuriaid y disgwylir iddynt ymgysylltu). Gwnaeth partneriaid darparu adrodd bod oddeutu 60% i 70% o ddefnyddwyr newydd yn dod trwy'r sianel hon.

4.6 Gwnaeth partneriaid darparu hefyd adrodd eu bod wedi recriwtio cyfran uchel (oddeutu 30-40%) o ddefnyddwyr newydd trwy ymgysylltu'n weithredol â chymdeithasau busnes lleol a darparwyr cefnogi busnes, lle'r oedd y cynghorwyr busnes wedi cysylltu â'r buddiolwr yn uniongyrchol. Defnyddiwyd y dull hwn yn bennaf i nodi busnesau neu entrepreneuriaid yr oedd â'r potensial i dyfu ac yr oeddent felly yn fwy tebygol o fod yn fuddiolwyr Lefel 3–4. Gwnaeth partneriaid darparu adrodd eu bod wedi derbyn atgyfeiriadau gan sefydliadau megis:

- Grwpiau busnes (megis cymdeithasau cyfrifyddiaeth lleol)
- Darparwyr cymorth busnes lleol (megis banciau, cynghorwyr ariannol a chyfrifwyr)
- Atgyfeiriadau ar lafar oddi wrth gwsmeriaid presennol Busnes Cymru
- Canolfannau gwaith a chynlluniau menter a chyflogaeth lleol
- Atgyfeiriadau gan Fanc Datblygu Cymru

4.7 Gwnaeth yr ymgynghorwyr busnes a holwyd adrodd bod yr atgyfeiriadau hyn, yn y rhan fwyaf o achosion, yn adeiladu ar eu rhwydweithiau personol o gydweithwyr busnes. Adroddwyd bod y rhan fwyaf o'r ymgynghorwyr wedi bod yn gynghorwyr busnes mewn ardaloedd lleol penodol yn flaenorol, gyda rhai ohonynt yn gweithio mewn banciau a gwasanaethau cyfrifyddiaeth. Roedd rhai ohonynt wedi bod yn aelodau gweithredol yn eu siambrau masnach lleol hefyd. Roedd nifer fawr ohonynt wedi cadw mewn cysylltiad â'r sefydliadau hyn a gwnaethant ofyn a oedd modd

iddynt atgyfeirio busnesau yr oedd am gael mynediad i gyllid neu gymorth er mwyn ehangu neu sefydlu eu busnesau.

- 4.8 Budd yr ymagwedd hon yw ei bod yn cynyddu cyrhaeddiad Busnes Cymru. Nid oedd y buddiolwyr a gafodd eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth yn y modd hwn wedi cysylltu â Busnes Cymru yn uniongyrchol, naill ai am nad oeddent yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael neu nad oeddent yn teimlo y byddai'n bodloni eu hanghenion. Yn ogystal, roedd datblygu mecanweithiau atgyfeirio gyda banciau lleol a chyfrifwyr yn golygu y gellid targedu ymyriadau at fusnesau a oedd yn chwilio'n benodol i gael mynediad i gyllid er mwyn tyfu. Gwnaeth cynghorwyr busnes hefyd adrodd bod eu gwybodaeth leol yn golygu eu bod yn gallu atgyfeirio buddiolwyr i gyflenwyr neu ddarparwyr cymorth busnes lleol eraill.
- 4.9 Ers dechrau 2018, adroddodd yr awdurdodau lleol a holwyd fod ymgynghorydd busnes wedi cwrdd â'u timau datblygu economaidd er mwyn cynyddu atgyfeiriadau. Yn y cyfarfod, gwnaeth cynghorwyr busnes ddarparu mwy o wybodaeth am y gwasanaethau yr oeddent yn eu cynnig i'r awdurdod lleol, a gwnaeth y timau datblygu economaidd eu hysbysu ynghylch y gwasanaethau lleol a'r cyllid yr oedd ganddynt ar gyfer busnesau ac entrepreneuriaid. Gwnaeth yr awdurdodau lleol adrodd cynnydd mewn atgyfeiriadau at ac oddi wrth Busnes Cymru ers y cyfarfodydd. Yn ogystal, gwnaeth yr awdurdodau lleol adrodd bod ansawdd yr atgyfeiriadau y gwnaethant eu derbyn oddi wrth Busnes Cymru wedi gwella, am fod gan gynghorwyr Busnes Cymru gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau yr oedd yr awdurdod lleol yn eu cynnig.
- 4.10 Gwnaeth contractwyr adrodd bod yr atgyfeiriadau oddi wrth ddarparwyr gwasanaeth cymorth busnes y sector preifat lleol wedi cynyddu yn ystod cyfnod darparu presennol y rhaglen ERDF (2014–20). Fodd bynnag, gwnaeth rhai cynghorwyr busnes adrodd bod heriau wrth ddatblygu perthnasau â rhai darparwyr lleol, megis canghennau banc, ac ni wnaeth yr un o'r cynghorwyr busnes a holwyd adrodd ei fod wedi ymgysylltu â phrifysgolion neu ganolfannau menter lleol er mwyn recriwtio entrepreneuriaid.

Y Rhaglen Cyflymu Twf

- 4.11 Ar gyfer y Rhaglen Cyflymu Twf, gwnaeth contractwyr adrodd y cafwyd y mwyafrif o fuddiolwyr eu recriwtio trwy atgyfeiriadau gan sefydliadau sy'n gweithio gyda busnesau twf uchel. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau lleol sy'n darparu

gwasanaethau busnes, yn ogystal ag awdurdodau lleol. Cafodd ychydig ohonynt eu hatgyfeirio hefyd gan gynghorwyr busnes yn y Rhaglen Craidd a Thwf.

- 4.12 Fel gyda'r Rhaglen Craidd a Thwf, gwnaeth y mwyafrif o gynghorwyr busnes yn y Rhaglen Cyflymu Twf adrodd bod nifer fawr o atgyfeiriadau wedi dod o'u rhwydweithiau a chysylltiadau lleol eu hunain oherwydd eu gwybodaeth a'u profiad. Roedd y mwyafrif wedi cymryd rhan mewn gwasanaethau NBSS ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid blaenorol a chawsant eu trosglwyddo i'r gwasanaeth newydd.
- 4.13 Cafwyd nifer fach iawn o atgyfeiriadau gan Fanc Datblygu Cymru, er ei fod yn buddsoddi benthyciadau ecwiti mewn busnesau ac entrepreneuriaid y mae'n teimlo bod ganddynt botensial uchel i dyfu. Nid oes gan Fanc Datblygu Cymru unrhyw gytundeb gyda'r Rhaglen Cyflymu Twf i atgyfeirio'r busnesau neu entrepreneuriaid hyn i'r gwasanaeth.
- 4.14 Roedd contractwyr y Rhaglen Cyflymu Twf yn ddetholus ynglŷn â'r sefydliadau yr oeddynt yn eu recriwtio gan fod y targed recriwtio (450 dros bum mlynedd) cryn dipyn yn is na'r targedau ar gyfer y gwasanaeth Craidd a Thwf. O ganlyniad, nid oeddent yn hysbysebu'r gwasanaeth, oherwydd y byddai hyn yn gallu cynhyrchu ymholiadau gan fusnesau nad oedd yn debygol o fodloni meini prawf cymhwysra'r rhaglen. Roedd hyn yn unol â chynllun gwreiddiol y rhaglen.
- 4.15 Roedd contractwyr yn gymharol lwyddiannus wrth ymgysylltu â busnesau a oedd yn bodloni'r meini prawf cymhwysra ar gyfer cyflawni twf gwerth 20% bob blwyddyn. Hyd yn hyn, gwnaeth y contractwr adrodd bod 85% o'r buddiolwyr yr ymgysylltwyd â hwy yn cael eu cadw ar y rhaglen. Cafodd y gweddill, lle nad oedd y twf yn bodloni gofyniad meini prawf y Rhaglen Cyflymu Twf, eu trosglwyddo i'r Rhaglen Craidd a Thwf.

Y Rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (SFBE)

- 4.16 Gwnaeth contractwyr SFBE ddefnyddio amrediad o ymagweddau i ymgysylltu â buddiolwyr. Roedd y rhain yn cynnwys:
- Ymgyrchoedd marchnata 'Cyflymu Cymru i Fusnesau' penodol, a oedd yn cael eu cyflenwi ar-lein a thrwy daflenni a hyrwyddiadau
 - Digwyddiadau hyrwyddo, a oedd yn cael eu fframio'n gyffredinol fel sesiynau hyfforddi (mae'r digwyddiadau yn cael eu cyd-gyflenwi'n gyffredin â chymdeithasau busnes lleol ac awdurdodau lleol)

- Cynhyrchu atgyfeiriadau gan gynghorwyr busnes sy'n cyflenwi Rhaglen Craidd a Thwf Busnes Cymru
- Hyrwyddo trwy rwydweithiau busnes yn y sector preifat, megis ardaloedd menter

- 4.17 Gwnaeth staff cyflenwi'r rhaglen SFBE adrodd bod nifer fach o fuddiolwyr perthnasol wedi'u atgyfeirio trwy'r gwasanaeth llinell gymorth a'r wefan. Roedd y nifer fach o atgyfeiriadau o'r wefan yn cael ei phriodoli'n bennaf i'r ffaith nad oedd tudalen gartref y wefan yn cyfeirio defnyddwyr yn eglur at ficrowefan yr SFBE. Fodd bynnag, adroddwyd bod y mater hwn wedi'i ddatrys yn hwyr yn 2017.
- 4.18 Rhoddwyd rhesymau eraill ar gyfer y nifer fach o atgyfeiriadau o'r llinell gymorth. Gwnaeth gweithredwyr y llinell gymorth adrodd, pan oedd busnesau neu entrepreneuriaid Lefel 3–4 yn cysylltu â'r llinell gymorth, fod y mwyafrif am gael amrediad o wasanaethau, ac yn anaml yr oedd cymorth i ddefnyddio TGCh yn cael ei ystyried fel eu blaenoriaeth fwyaf. O ganlyniad, cawsant eu cyfeirio at y Rhaglen Craidd a Thwf. Gwnaeth un cynghorydd busnes adrodd ei fod yn rhesymol i atgyfeirio'r holl fuddiolwyr tuag at y Rhaglen Craidd a Thwf yn yr achos cyntaf, fel eu bod yn gallu darparu cymorth diagnostig, ac wedyn atgyfeirio buddiolwyr, os oedd angen, i raglen Busnes Cymru arall.
- 4.19 Roedd rhai aelodau o staff cyflenwi'r SFBE yn teimlo nad oedd gan staff y llinell gymorth gwybodaeth ddigonol o'r gwasanaeth SFBE i adnabod p'un a oedd angen cymorth SFBE ar y buddiolwr. Gwnaethant ddatgan, er nad oedd buddiolwyr yn gofyn yn benodol am gymorth i ddefnyddio TGCh, y byddai rhai yn gofyn am gymorth gyda phynciau megis marchnata neu reoli busnesau yn gyffredinol. Petai hyn yn cael ei ddatod, byddai'n nodi'r angen am gymorth a chynghor ynglŷn â gwerthiant ar-lein, marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol a systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, y gellid cael eu darparu gan y rhaglen SFBE.
- 4.20 Yn ystod cyfnod yn 2017, roedd gan y llinell gymorth targedau ar gyfer atgyfeiriadau i'r SFBE. Fodd bynnag, gwnaeth y contractwr SFBE adrodd bod hyn yn golygu bod y gwasanaeth wedi derbyn llawer mwy o atgyfeiriadau amhriodol. Cafodd y targed ar gyfer atgyfeiriadau SFBE ei ollwng o ganlyniad.
- 4.21 Gwnaeth y contractwr adrodd mai'r dull mwyaf effeithiol ar gyfer recriwtio oedd ymgysylltu trwy weithdai ac wrth farchnata'n uniongyrchol gyda chymdeithasau busnes. Adroddodd ei fod wedi cyfrannu oddeutu hanner o'r holl fuddiolwyr newydd. Yn ogystal, daeth cyfran sylweddol o fuddiolwyr oddi wrth atgyfeiriadau

gan Raglen Craidd a Thwf Busnes Cymru, ond roedd y mwyafrif o staff cyflenwi'r rhaglen SFBE yn credu bod hyn yn ffigur isel gan y byddent yn disgwyl y byddai o leiaf hanner o fuddiolwyr Busnes Cymru yn cael budd o gymorth SFBE.

Entrepreneuriaeth leuenctid

- 4.22 Mae'n ofynnol i'r contractwr sy'n cyflenwi'r rhaglen recriwtio ysgolion, colegau a sefydliadau addysg uwch er mwyn cyflenwi'r gweithgareddau Ymgysylltu a Grymuso. Gan amlaf, mae'r ymgysylltiad ag ysgolion yn cymryd rhan drwy gysylltiad ag arweinwyr cwricwlwm. Ar gyfer y rhain, gwnaeth y contractwr adrodd bod gofyniad Bagloriaeth Cymru ar gyfer ysgolion i gyflenwi 'sgiliau cyflogadwyedd craidd' yn ysgogydd mawr ar gyfer cyfranogiad ysgolion.
- 4.23 fewn colegau a sefydliadau addysg uwch, mae'r contractwr yn cysylltu'n bennaf â hyrwyddwyr menter a ariennir gan Lywodraeth Cymru, y cafodd eu cyflwyno'n wreiddiol yn dilyn argymhellion yn y Cynllun gweithredu entrepreneuriaeth i Gymru (2001). Roedd y contractwr yn credu bod ymgysylltu yn weddol ddidrafferth gan fod gan y sefydliadau unigolyn ymroddedig y gellir cysylltu ag ef/hi yr oedd â'r cymhelliad i wella darpariaeth addysg fenter o fewn ei sefydliad.
- 4.24 Mae'r contractwr wedi bod yn cyflenwi Entrepreneuriaeth leuenctid ers 2007 ac o ganlyniad mae wedi datblygu'r perthnasau a chysylltiadau presennol gyda'r rhan fwyaf o ysgolion, colegau a sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. O ganlyniad, gwnaeth staff sy'n cyflenwi adrodd bod ymgysylltu yn weddol ddidrafferth.
- 4.25 Ar gyfer y gweithgareddau Cyfarparu, roedd pobl ifanc naill ai yn cael eu nodi o'r gweithdai neu yr oeddent yn cael eu hatgyfeirio gan yr hyrwyddwyr entrepreneuriaeth yn y sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach. Yn ogystal, mae'r contractwr yn ymgymryd ag ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol i recriwtio newydd ddyfodiaid, trwy'r brand 'Syniadau Mawr Cymru', ac mae'r contractwr yn dweud ei fod yn derbyn cyfaint bach o atgyfeiriadau oddi wrth Raglen Craidd a Thwf Busnes Cymru yn ogystal.

Y Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol (REAP)

- 4.26 Nod y rhaglen REAP yw galluogi rhanddeiliaid i gymryd camau i greu tirwedd fwy entrepreneuriaidd yng Nghymru. I wneud hyn, cymerwyd y camau canlynol:
- Creu'r ymgyrch 'Creu Sbarc', a ddefnyddiwyd i farchnata'r fenter i randdeiliaid newydd.

- Cynhaliwyd digwyddiad 'Creu Sbarc' cychwynnol i randdeiliaid ym mis Mehefin 2017. Gwnaeth cyfanswm o oddeutu 300 o gyfranogwyr fynychu'r sesiwn. Anfonwyd gwahoddiadau at gymysgedd cynrychioliadol o'r pum grŵp rhanddeiliad. Gwahoddwyd y cyfranogwyr i addo y byddent yn darparu cymorth i'r rhaglen.
- Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau, ymyriadau a chyfathrebiadau digidol dilynol er mwyn tyfu nifer y bobl a oedd yn cefnogi'r symudiad o'r 300 cychwynnol i 3,000.

4.27 Ar ddechrau'r rhaglen, nid oedd tîm prosiect pwrpasol i arwain ar y gwaith o ddatblygu'r ymgyrch 'Creu Sbarc'. Felly, yn ogystal â recriwtio rhanddeiliaid newydd, roedd hefyd angen cynnal y gefnogaeth a gafwyd gan y rhanddeiliaid a wnaeth fynychu gweithdy Sefydliad Technoleg Massachusetts, er mwyn sicrhau bod unigolion mewn lle i yrru datblygiadau ymlaen.

Nodweddion y busnesau a'r entrepreneuriaid yr ymgysylltwyd â hwy

4.28 Mae'r adran hon yn cyflwyno nodweddion y busnesau a'r entrepreneuriaid sydd wedi cymryd rhan yn rhaglenni Busnes Cymru er mwyn nodi pa grwpiau neu ranbarthau sydd wedi elwa fwyaf o'r rhaglenni a ble y gallai fod bylchau posibl.

Rhaglen Craidd a Thwf a Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru

Buddiolwyr yn ôl math a lefel

- 4.29 Mae'r System Cyfrifon Busnes yn dangos bod 9,075 o fuddiolwyr wedi cofrestru gyda Rhaglen Cyflymu Twf a Rhaglen Craidd a Thwf Busnes Cymru hyd at fis Mawrth 2018. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 4,557 o entrepreneuriaid a 4,518 o fusnesau. Nid oedd pob un o'r busnesau hyn wedi derbyn gwerth chwe awr o gymorth ac mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod gofynion cymorth y rheini sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth yn amrywiol ac yn amrywio o ran eu dwysedd. Yn wir, fel y'i disgrifir ym Mhennod 3, gwnaeth nifer o fusnesau a dderbyniodd lai na chwe awr o gymorth gynyddu eu hallforion, gan brofi twf mewn swyddi.
- 4.30 Fel y dangosir yn Tabl 4.1, roedd dros hanner (55%) y buddiolwyr a gofrestrwyd yn fusnesau neu entrepreneuriaid Lefel 1. Mae hyn yn is na'r disgwyl, gan mai'r disgwyl yn wreiddiol oedd y byddai busnesau ac entrepreneuriaid Lefel 1 yn cynnwys dros 10,000 o'r 14,500 o fuddiolwyr a ddisgwylir ar y rhaglen (69%). Yn

ogystal, gwnaeth y rhaglen recriwtio cyfran fechan o fuddiolwyr Lefel 2 a chyfran uwch o fuddiolwyr Lefel 3–4. Mae'r tabl hefyd yn dangos nad yw oddeutu hanner y buddiolwyr Lefel 1 (53%) a 60% o fuddiolwyr Lefel 2 wedi derbyn gwerth chwe awr o gymorth anariannol eto. Mae'r ffigur hwn yn uwch ar gyfer busnesau/entrepreneuriaid sy'n fuddiolwyr ar lefelau uwch.

Tabl 4.1 Cymorth a roddwyd i fusnesau ar Lefel 1–4 hyd at fis Mawrth 2018

Lefel y busnes/entrepreneur	Nifer y buddiolwyr (% y cyfanswm)	Nifer y buddiolwyr sy'n derbyn cymorth anariannol (% y cyfanswm a % y lefel)
Lefel 1	5,014 (56%)	2,660 (45%) (53%)
Lefel 2	1,072 (12%)	643 (11%) (60%)
Lefel 3	1,481 (16%)	1,214 (21%) (82%)
Lefel 4	1,104 (12%)	974 (17%) (88%)
Lefel 5	404 (4%)	404 (7%) (100%)
CYFANSWM	9,075	5,895 (65%)

Ffynhonnell: Data'r System Cyfrifon Busnes ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018 (n=9,075)

Cyfran y buddiolwyr fesul sector economaidd


- 4.31 Fel y dangosir yn Ffigur 4.1, cefnogodd y ddwy raglen gyfran gymharol uchel o fusnesau gweithgynhyrchu. Mae'r data yn dangos bod oddeutu un o bob pump (19%) o'r busnesau a wnaeth dderbyn cymorth anariannol yn y sector gweithgynhyrchu, er bod gweithgynhyrchu ond yn cynrychioli 6% o'r holl fusnesau²¹ yng Nghymru. Ymgysylltodd y rhaglen yn ogystal â chyfran gymharol uchel o fusnesau TGCh, lletygarwch a sector y celfyddydau.
- 4.32 Fodd bynnag, mae'r rhaglen wedi ymgysylltu â nifer gymharol lai o fusnesau adeiladu a manwerthu. Naw y cant yn unig o'r busnesau a wnaeth dderbyn cymorth anariannol oedd yn y sector adeiladu, a 7% yn unig oedd o'r sector manwerthu, er eu bod yn cyfrif am 12% o'r holl fusnesau yng Nghymru. Mae ymgysylltiad isel busnesau o'r sector adeiladu yn syndod, wrth ystyried bod gan y sector y nifer fwyaf

²¹ Rydym wedi eithrio'r sector amaeth wrth gyfrif cyfanswm y busnesau yng Nghymru gan nad yw cyflogwyr amaethyddol yn gymwys ar gyfer y rhaglen.

o fasnachwyr unigol / unigolion hunangyflogedig, ond efallai y gellir ei esbonio gan argaeledd cymorth busnes gan Dyfodol Adeiladu Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

- 4.33 Fodd bynnag, mae'r ymgysylltiad fesul sector yn amrywio cryn dipyn rhwng y rhaglenni. Y sectorau mwyaf cyffredin sy'n cael eu cefnogi gan y Rhaglen Cyflymu Twf yw TGCh (23% o'r holl fuddiolwyr), gweithgynhyrchu (19%), a gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (13%). Mae'r lefelau recriwtio uchel ar gyfer busnesau yn y sector TGCh a gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol yn unol â'r disgwyl, gan eu bod wedi tyfu'n gyflym ar draws y DU dros y pedair blynedd diwethaf (gan 15% a 9% yn ôl eu trefn), sy'n awgrymu y mae'n debygol y bydd mwy o gyfleoedd ar gyfer tyfu yn y sectorau hyn.
- 4.34 Yn ogystal, mae rhywfaint o amrywiaeth rhwng lefelau. Gan amlaf, mae busnesau Lefel 1–2 yn y sector proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (14%), y sector celfyddydau (13%) a'r sector gweithgynhyrchu (12%). Y sectorau mwyaf cyffredin ar gyfer busnesau Lefel 3–4 yw gweithgynhyrchu (21%), lletygarwch (12%) ac adeiladu (10%). Ar y cyfan, fodd bynnag, mae'r cwrpas yn weddol debyg ac yn unol â disgwyliadau.

Ffigur 4.1 Cyfran y buddiolwyr sy'n derbyn cymorth anariannol fesul sector




Ffynhonnell: Data'r System Cyfrifon Busnes ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018 (n=2,738)

Cwmpas daearyddol

- 4.35 Mae Ffigur 4.2 yn dangos dosbarthiad y buddiolwyr ar draws rhanbarthau Llywodraeth Cymru. Mae'n dangos bod y rhaglen wedi recriwtio cyfran o fuddiolwyr sydd ychydig yn uwch yng nghanolbarth/de-orllewin Cymru. Roedd 40% o'r buddiolwyr yn dod o'r ardal, er ei bod yn cynnwys 34% yn unig o'r holl fusnesau yng

Nghymru. Gwnaeth y rhaglen recriwtio llai o fuddiolwyr o ardal y de/de-ddwyrain (34% o'i gymharu â 41%). Roedd y dadansoddiad hwn yn ddigon cyson ar gyfer y Rhaglen Craidd a Thwf a'r Rhaglen Cyflymu Twf.

Ffigur 4.2 Cyfran buddiolwyr Rhaglen Cyflymu Twf / Rhaglen Craidd a Thwf Busnes Cymru fesul rhanbarth Cymru




Ffynhonnell: Data'r System Cyfrifon Busnes ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018 (n=2,810)

Oedran busnesau

- 4.36 Mae Ffigur 4.3 yn cyflwyno oedran busnesau sydd eisoes yn bodoli a wnaeth dderbyn cymorth gan Raglen Craidd a Thwf a Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru. Mae'n dangos bod y rhaglenni wedi ymgysylltu â busnesau o bob oed. Roedd cyfran uchel (41%) o fusnesau dros ddeng mlwydd oed ac roedd chwarter (25%) yn llai na chwe blwydd oed, sy'n awgrymu bod cymorth busnes yn cael ei geisio gan fusnesau ar bob lefel o aeddfedrwydd.
- 4.37 Roedd rhai gwahaniaethau rhwng lefelau busnesau. Ar gyfer y Rhaglen Craidd a Thwf, roedd busnesau Lefel 3–4 yn tueddu i fod yn fwy sefydledig (roedd 51% dros ddeng mlwydd oed) ac roedd busnesau Lefel 1–2 ar y cyfan yn llai na deng mlwydd oed (73%). Roedd y mwyafrif (58%) o fusnesau'r Rhaglen Cyflymu Twf rhwng chwech ac 20 mlwydd oed. Efallai nad yw hyn yn syndod gan fod y rhan fwyaf o fusnesau yn cyfuno o fewn y pum mlynedd gyntaf.

Ffigur 4.3 Oedran buddiolwyr Rhaglen Cyflymu Twf / Rhaglen Craidd a Thwff Busnes Cymru sy'n derbyn cymorth anariannol



Ffynhonnell: Data'r System Cyfrifon Busnes ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018 (n=2,811)

Buddiolwyr y Rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym lawn (SFBE)


- 4.38 Mae data'r System Cyfrifon Busnes yn cynnwys 2,292 o fusnesau a wnaeth gofrestru â'r gwasanaeth, ac roedd 1,485 ohonynt yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ac 807 yn nwyrain Cymru. Fodd bynnag, ni fydd pob un o'r buddiolwyr hyn wedi cael ei hawlio yn erbyn y prosiect ERDF gan nad ydynt wedi derbyn chwe awr o gymorth hyd yn hyn.

Cwmpas y sectorau

- 4.39 Mae'r rhaglen SFBE wedi recriwtio buddiolwyr o gymysgedd eang o sectorau, ac nid oes un sector yn cyfrannu mwy nag 14% o'r holl fuddiolwyr. Fodd bynnag, cafodd cyfran uchel o fusnesau lletygarwch a gweithgynhyrchu eu recriwtio o'u cymharu â'u cyfran o fewn busnesau Cymru. Mae lletygarwch yn cyfrif am 9% o fusnesau Cymru ond mae'n cyfrif am 14% o fuddiolwyr SFBE.
- 4.40 Mae'r rhaglen hefyd wedi recriwtio nifer gymharol isel o fusnesau yn y sectorau adeiladu ac iechyd. Dim ond 5% o fuddiolwyr oedd o'r sectorau adeiladu ac iechyd, er bod y sector adeiladau yn cyfrif am 12% ac iechyd am 8% o fusnesau Cymru. Mae'r recriwtio isel o fewn y sectorau hyn yn debyg i Raglen Craidd a Thwff a Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru.

4.41 Fodd bynnag, mae gwahaniaethau sylweddol rhwng buddiolwyr SFBE o'u cymharu â Rhaglen Craidd a Thwf a Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru. Er enghraifft, gwnaeth y rhaglen SFBE recriwtio cyfran gymharol uchel o fusnesau lletygarwch ond roedd cyfran llawer uwch o fusnesau'r Rhaglen Craidd a Thwf a'r Rhaglen Cyflymu Twf yn dod o'r sector gweithgynhyrchu.

Ffigur 4.4 Cyfran y buddiolwyr SFBE fesul sector economaidd




Ffynhonnell: Data'r System Cyfrifon Busnes ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018 (n=2,693)

Cwmpas daearyddol

4.42 Mae Ffigur 4.5 yn dangos bod gan y rhaglen SFBE lawer mwy o fuddiolwyr o ogledd Cymru (29%) yn gymharol â'i gyfran o fusnesau Cymru (24%), gyda nifer gymharol lai yn y ddwy ardal arall.

Ffigur 4.5 Cyfran y buddiolwyr SFBE fesul rhanbarth Cymru




Ffynhonnell: Data'r System Cyfrifon Busnes ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018 (n=2,692)

Oedran busnesau

- 4.43 Fel gyda Rhaglen Craidd a Thwf Busnes Cymru, mae dosbarthiad eang o fusnesau SFBE yn ôl oedran. Roedd 42% o fuddiolwyr dros ddeng mlwydd oed ac roedd 39% o dan bum mlwydd oed, sy'n dangos eu bod yn gymharol ifancach na'r rheini sy'n cael eu cefnogi gan y Rhaglen Craidd a Thwf.

Ffigur 4.6 Oedran buddiolwyr SFBE



Ffynhonnell: Data'r System Cyfrifon Busnes ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018 (n=2,693)

Entrepreneuriaeth leuenctid


- 4.44 Cesglir data'r System Cyfrifon Busnes ynglŷn â buddiolwyr Entrepreneuriaeth leuenctid a wnaeth fynychu sesiynau bwtcamp neu y cawsant fynediad at gymorth busnes trwy'r llinyn Cyfarparu. Gyda'i gilydd, cofrestrodd 516 o bobl ifanc ar y System Cyfrifon Busnes, gyda 301 (58%) ohonynt yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 215 (42%) ohonynt yn nwyrain Cymru.
- 4.45 Fodd bynnag, y mae rhai anghysondebau rhwng data'r System Cyfrifon Busnes a'r data monitro a gasglwyd gan contract tîm Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid. Priodolwyd hyn i oedi gan y contractwr wrth fewnbynnu gwybodaeth ar y System Cyfrifon Busnes. Mae data monitro Llywodraeth Cymru yn dangos cyfran o fuddiolwyr ychydig yn uwch yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Yn 2016/17, roedd buddiolwyr gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cyfrif am 65% o'r holl fuddiolwyr ac yn 2017/18 roeddent yn cyfrif am 73%.
- 4.46 Mae'r gweithgareddau Ymgysylltu wedi ymgysylltu ag oddeutu 112,471 yn ystod 2016/17 a 2017/18 (56,236 bob blwyddyn). Yn flynyddol, mae'n ymgysylltu ag oddeutu un ym mhob saith o'r rheini o fewn addysg rhwng 11 a 25 oed (oddeutu 14%).²² Mae oddeutu dwy ran o dair (65%) o fuddiolwyr yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan gynnwys bron i dri chwarter (73%) o ddysgwyr o fewn addysg bellach.

Cwmpas daearyddol

- 4.47 Mae cymorth busnes Entrepreneuriaeth leuenctid wedi cael ei gyflenwi'n bennaf ar gyfer pobl ifanc yn ne/de-ddwyrain Cymru. Roedd oddeutu tri chwarter (77%) o fuddiolwyr wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol yn yr ardal hon, ac roedd mwy nag un rhan o bump ohonynt (21%) wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, tra oedd nifer fach iawn yng ngogledd Cymru. Priodolwyd hyn i oediadau cyn i'r contractwr yng ngogledd Cymru fewnbynnu data i'r System Cyfrifon Busnes.

²² Yn seiliedig ar ffigurau o'r ystadegau addysg allweddol yng Nghymru ar gyfer 2018 a chan gymryd poblogaeth ysgolion uwchradd, hanner poblogaeth ysgolion arbennig ac annibynnol, cofrestriadau mewn addysg bellach, a chofrestriadau mewn addysg uwch ar gyfer gradd gyntaf (oddeutu 408,000)

Ffigur 4.7 Cyfran y buddiolwyr Grymuso sy'n derbyn cymorth fesul rhanbarth Cymru



Ffynhonnell: Data'r System Cyfrifon Busnes ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018 (n=515)

- 4.48 Mae'r llinyn Ymgysylltu wedi cyflenwi mwy o weithdai ac ymgysylltu â mwy o bobl ifanc yng ngogledd Cymru a llai o bobl ifanc o'r de/de-ddwyrain, o'u cymharu â'r proffil (gweler 0).

Tabl 4.2 Recriwtio a gweithdai Ymgysylltu fesul rhanbarth, mis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2018

Rhanbarth	Gweithdai – targed cyfrannol ²³	Gweithdai – gwirioneddol	Pobl ifanc yr ymgysylltwyd â hwy – targed cyfrannol ²⁴	Pobl ifanc yr ymgysylltwyd â hwy – gwirioneddol
Gogledd Cymru	20% (508)	27% (781)	20% (10,162)	28% (31,717)
Canolbarth/De-orllewin Cymru	29% (716)	29% (837)	29% (14,321)	29% (32,916)
De/De-ddwyrain	51% (1,276)	44% (1,170)	51% (25,516)	43% (47,838)

Ffynhonnell: Data rheoli'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid, mis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2018


Cwmpas y sectorau (Cyfarparu)

²³ Yn seiliedig ar gyfran pobl ifanc y rhanbarth

²⁴ Ibid.

4.49 Roedd buddiolwyr y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn rhan o sefydlu cyfran lawer uwch o fusnesau gweithgynhyrchu ac yn y sector celfyddydau, adloniant a hamdden, o gymharu â'u cyfran o weithlu Cymru. Roedd nifer gymharol lai yn sefydlu busnesau adeiladu, lletygarwch, iechyd, a chludiant a storio.

Ffigur 4.8 Cyfran y buddiolwyr Entrepreneuriaeth leuenctid fesul sector economaidd



Ffynhonnell: Data'r System Cyfrifon Busnes ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018 (n=169)

Nodweddion unigolion sy'n cael mynediad at raglenni Busnes Cymru

4.50 Mae'r adran hon yn cyflwyno nodweddion yr unigolion (staff mewn busnesau ac entrepreneuriaid) a wnaeth gael mynediad at chwe rhaglen Busnes Cymru.

Statws ethnigrwydd ac anabledd

- 4.51 Ymgysylltodd y rhaglenni â 584 o fusnesau â pherchnogion a oedd yn bobl dduon ac o leiafrifoedd ethnig (4.9% o'r holl fuddiolwyr). Mae hyn ychydig yn uwch na'r 4.4% o unigolion sy'n byw yng Nghymru â chefnidir lleiafrif ethnig.²⁵ Roedd y gyfran o leiafrifoedd ethnig yn lled gyson ar draws y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid a rhaglenni Craidd a Thwf a Chyflymu Twf Busnes Cymru. Roedd cyfran ychydig yn llai o berchnogion busnes o leiafrifoedd ethnig yn cael mynediad at y rhaglen SFBE (2.4%). Roedd 527 o berchnogion busnes (4.4% o'r holl fuddiolwyr) a wnaeth ddatgan bod ganddynt anabledd. Mae'r hyn llawer yn is na'r 14% o oedolion 16 oed neu'n hŷn yng Nghymru yr adroddir bod ganddynt anabledd.²⁶


Rhywedd

- 4.52 Mae'r rhaglenni wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth recriwtio perchnogion busnes benywaidd. Roedd 46% o'r buddiolwyr yn fenywod, er i arolwg busnesau bach yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau yn 2016 amcangyfrif bod menywod ond yn cynrychioli 20% o berchnogion busnes yn y DU.
- 4.53 Fodd bynnag, yr oedd rhywfaint o amrywiad fesul rhaglen, fel y dangosir yn Ffigur 4.9. Roedd dros hanner (56%) y buddiolwyr SFBE yn fenywaidd, o gymharu ag un rhan o dair (33%) o gyfranogwyr y Rhaglen Cyflymu Twr a 38% o gyfranogwyr y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid.

²⁵ Cyfrifiad 2011, Nomis (2012)

²⁶ Cyfrifiad 2011, Nomis (2011). Nid oeddem yn gallu canfod unrhyw ddata arolwg busnes a oedd yn amcangyfrif cyfran y busnesau sy'n cael eu harwain gan bobl ag anableddau.

Ffigur 4.9 Cyfran y perchnogion busnes benywaidd fesul rhaglen



Ffynhonnell: Data'r System Cyfrifon Busnes ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018 (SFBE n=2,292; Rhaglen Craidd a Thwf n=8,671; Rhaglen Cyflymu Twf n=404; Entrepreneuriaeth leuenctid n=517)

Siaradwyr Cymraeg

- 4.54 Ar draws yr holl raglenni, roedd 229 (2.0%) o fuddiolwyr yn derbyn cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg, sydd yn sylweddol is na'r 20.8% o bobl yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg. Roedd y ffigur hwn yn gyson ar draws pob rhaglen Busnes Cymru.
- 4.55 Roedd y mwyafrif (86%) o unigolion a oedd yn derbyn cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg wedi'u lleoli yng ngorllewin Cymru. Fel y dangosir yn Tabl 4.3, gwnaeth cyfran gymharol uchel o fuddiolwyr yng Ngwynedd ac Ynys Môn dderbyn cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg (16.7% a 9.1% yn ôl eu trefn), ond gwnaeth llai na 2% o fuddiolwyr yn Sir Gaerfyrddin (1.2%), Powys (1.1%) a Sir Benfro (0.2%) dderbyn cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg, er bod o leiaf 18% o unigolion sy'n byw yn yr ardaloedd hyn yn siaradwyr Cymraeg.

Tabl 4.3 Cyfran y buddiolwyr ym mhob awdurdod lleol a wnaeth dderbyn cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg, hyd at fis Mawrth 2018

Ardal awdurdod lleol	% y siaradwyr Cymraeg (%)	% y buddiolwyr a wnaeth dderbyn cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg (%)
Gwynedd	65.4	16.7%
Ynys Môn	57.2	9.1%
Ceredigion	47.3	3.1%
Sir Gaerfyrddin	43.9	1.2%
Conwy	27.4	2.7%
Sir Ddinbych	24.6	3.0%
Sir Benfro	19.2	0.2%
Powys	18.6	1.1%
Castell-nedd Port Talbot	15.3	1.0%
Sir y Fflint	13.2	1.5%
Wrecsam	12.9	0.3%
Rhondda Cynon Taf	12.3	0.7%
Abertawe	11.4	0.3%
Caerffili	11.2	0.4%
Caerdydd	11.1	1.0%
Bro Morgannwg	10.8	0.2%
Sir Fynwy	9.9	0.3%
Torfaen	9.8	0.0%
Pen-y-bont ar Ogwr	9.7	0.2%
Casnewydd	9.3	0.0%
Merthyr Tudful	8.9	0.6%
Blaenau Gwent	7.8	0.9%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, StatsCymru; gwybodaeth reoli Busnes Cymru (n=9,075)

- 4.56 Gwnaeth contractwyr adrodd bod bron pob un o'r unigolion a wnaeth gysylltu â hwy yn dweud ei bod yn well ganddynt gyfathrebu'n ffurfiol (e.e. cwblhau ffurflenni a chynlluniau) trwy gyfrwng y Saesneg, er efallai y byddai rhai agweddau llai ffurfiol ar y cymorth (sgyrsiau â chynghorwyr), nad ydynt yn cael eu nodi gan wybodaeth fonitro, yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad, mae'r wybodaeth fonitro yn dangos nad oes galw mawr am gymorth trwy gyfrwng y Gymraeg, er bod y gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog.

5. Ansawdd cyflenwi a rheoli

5.1 Mae'r bennod hon yn archwilio ansawdd gweithgareddau rhaglenni a pha mor effeithiol y maent wedi cael eu rheoli. Yn benodol, mae'n cyflwyno:

- Boddhad buddiolwyr gydag ansawdd y cymorth busnes ac entrepreneuriaeth a gyflenwir trwy'r rhaglen (gan gynnwys y llinell gymorth, gwefannau, cyngor busnes, gweithdai a hyfforddi ar-lein)
- Effeithiolrwydd rheolaeth y rhaglenni, gan gynnwys cyfathrebu a chydweithrediad
- Yr ymgysylltiad â phartneriaid a chyfatebolrwydd y rhaglen

5.2 Mae'r bennod yn tynnu oddi ar ganfyddiadau a ddaw o gyfweiliadau ansoddol â darparwyr, buddiolwyr a phartneriaid cyflenwi, ochr yn ochr â dadansoddiad eilaidd Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid Busnes Cymru ac astudiaethau achos SFBE Prifysgol Caerdydd.

Canfyddiadau allweddol

- Roedd buddiolwyr yn dangos bodlonrwydd uchel â gweithgareddau Busnes Cymru. Yn yr Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid, roedd 88% o ymatebwyr yn fodlon â'r cymorth y gwnaethant ei dderbyn. Roedd hyn yn cymharu'n dda â rhaglenni cefnogi busnes eraill, lle'r oedd oddeutu 70–80% o ymatebwyr yn fodlon. Roedd adborth arbennig o gadarnhaol gan ymatebwyr i'r arolwg a'r cyfweleion ynglŷn â'r llinell gymorth, yn ogystal â'r gweithdai a'r sesiynau cymorth busnes un-i-un a gyflenwyd drwy'r rhaglenni Craidd a Thwf ac SFBE. Yr unig fater cyffredin a godwyd gan ychydig o'r cyfweleion oedd yr oedi hir rhwng cael mynediad at y llinell gymorth a chael eu cysylltu gan ymgynghorydd busnes.
- Dywedodd cyfran sylweddol (40%) o'r sawl a wnaeth ymateb i'r arolwg y byddent yn barod i dalu am agweddau ar y gwasanaethau busnes yr oeddent yn eu derbyn oddi wrth Busnes Cymru (ac roedd 25% yn dweud 'efallai' y byddent yn fodlon talu) – yn arbennig ar gyfer cyngor/cymorth arbenigol, wedi'u dilyn gan y gweithdai.

- Gwnaeth cymorth y Rhaglen Cyflymu Twf dderbyn adborth mwy cymysg. Gwnaeth rhai cyfweleion adrodd bod y cymorth yn ddefnyddiol iawn a gwnaethant ganmol brwdfrydedd a gwybodaeth y cynghorydd. Fodd bynnag, dywedodd eraill nad oedd lefel y cymorth y gwnaethant ei dderbyn wedi cyfateb i'w disgwyliadau ac roedd y cyswllt yn rhy anaml.
- Yn ogystal, roedd safbwyntiau cymysg o ran gwefan Busnes Cymru. Dywedodd tua thri chwarter o'r ymatebwyr eu bod wedi gallu dod o hyd i'r wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt. Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr a chyfweleion eu bod eisiau gwybodaeth sydd wedi'i theilwra'n fwy i'w hardal leol a'u busnes. Gwnaeth y gwaith dadansoddi'r we ddarganfod bod cyfradd sboncio gymharol uchel ar y wefan (y gyfran o ddefnyddwyr sy'n rhyngweithio â'r we unwaith – h.y. cael mynediad i'r dudalen gartref ac wedyn gadael heb gael mynediad i unrhyw dudalennau gwe neu ddolenni pellach), o'i chymharu â gwefannau busnes i fusnes eraill.
- Gyda chymorth busnes ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth a chynaliadwyedd amgylcheddol, gwnaeth y rhan fwyaf o gyfweleion gydnabod eu bod wedi cael cynnig cyngor. Er bod rhai wedi elwa ar hyn, roedd eraill yn pryderu fwy ynglŷn â datblygu camau gweithredu eraill a oedd yn deillio o'r cyngor busnes.
- Ni wnaeth cynghorwyr busnes ymgymryd â llawer o waith hyrwyddo ar fanteisio ar y Gymraeg heblaw ei fod yn cael ei geisio'n benodol gan fuddiolwyr. O ganlyniad, nid oedd llawer o enghreifftiau o fuddiolwyr yn gwneud newidiadau i'w busnes er mwyn manteisio ar y cyfleoedd sy'n codi o ddefnyddio'r Gymraeg.
- Ar y cyfan, roedd ysgolion a phobl ifanc yn gadarnhaol ynglŷn â gweithgareddau ymgysylltu'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid. Roedd ychydig o dan ddau o bob tri o ddisgyblion o dan 16 oed a thri chwarter o'r myfyrwyr addysg bellach a wnaeth ymateb i arolwg yn dweud bod y gweithgareddau wedi cael llawer o effaith / effaith enfawr ar eu gwybodaeth am ddechrau busnes. Yn y cyfweiliadau ansoddol, gwnaeth y cymorth busnes a'r sesiynau bwtcamp hefyd dderbyn adborth cadarnhaol oddi wrth y

buddiolwyr.

- Yn gyffredinol, tybiwyd bod y rhaglenni wedi'u rheoli a'u cyflenwi'n dda gan contractwyr a Llywodraeth Cymru. Y prif fater oedd iddo gymryd amser hir i dderbyn cymeradwyaeth ar gyfer newidiadau arfaethedig i'r contract, megis y cynllun cyflenwi diwygiedig a'r defnydd o lofnodion digidol.
- Wedi ymgysylltu cymharol gyfyngedig hyd at ganol 2017, mae tystiolaeth fod contractwyr Busnes Cymru wedi gweithio mewn modd mwy eang gydag awdurdodau lleol a Banc Datblygu Cymru er mwyn gwella'r nifer sy'n cymryd rhan ac sy'n cael eu hatgyfeirio. Mae rhai mecanweithiau atgyfeirio sydd wedi eu sefydlu ers amser rhwng cyngorwyr busnes a sefydliadau'r sector preifat a sefydliadau lleol. Mae'r rhain yn seiliedig ar rwydweithiau lleol a chysylltiadau personol.
- Gwnaeth y contractwyr adrodd bod nifer o atgyfeiriadau rhwng y timau Craidd a Thwf a thimau'r Rhaglen Cyflymu Twf ac Entrepreneuriaeth leuenctid, ond ei fod wedi cymryd mwy o amser i sefydlu atgyfeiriadau rhwng y rhaglenni SFBE a Chraidd a Thwf, yn bennaf yn sgil yr amwysedd dros y broses ar gyfer cefnogi unigolion sydd angen cymorth gan y ddau wasanaeth.


Canfyddiadau cyffredinol ynglŷn â'r rhaglenni

- 5.3 Yn yr Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid, gwnaeth 64% ddatgan eu bod yn fodlon iawn â'r cymorth y gwnaethant ei dderbyn, ac roedd 24% yn eithaf bodlon (roedd cyfanswm o 88% yn fodlon).²⁷ Fel y dangosir yn Ffigur 5.1, roedd oddeutu hanner yr ymatebwyr hefyd yn teimlo bod gwasanaethau Craidd a Thwf a Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru yn well nag yr oeddent wedi'u disgwyl i ddechrau, ac roedd 32% o'r ymatebwyr hyn yn dweud eu bod 'llawer' yn well na'r disgwyl. Roedd hyn yn amrywio ychydig yn ôl lefel y cymorth a dderbyniwyd gan y buddiolwyr. Roedd buddiolwyr Lefel 1 a Lefel 4 yn fwy tebygol o ddweud bod y gwasanaeth yn well na'r disgwyl (56% a 59% yn ôl eu trefn), o'u cymharu â buddiolwyr Lefel 2 (38%) a buddiolwyr Lefel 5 (32%).

²⁷ Yn seiliedig ar ddata o Don 3 yr arolwg boddhad, a oedd yn cynnwys 302 o ymatebion, gyda 127 ohonynt yn derbyn cymorth Lefel 1, 32 yn derbyn cymorth Lefel 2, 49 yn derbyn cymorth Lefel 3, 44 yn derbyn cymorth Lefel 4 a 50 yn derbyn cymorth Lefel 5. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 18 Rhagfyr 2017 a 15 Ionawr 2018.

- 5.4 Mae'r lefelau o fodlonrwydd hyn yn cymharu'n ffafriol â rhaglenni tebyg eraill. Gwnaeth gwerthusiad o'r gwasanaeth broceriaeth Hyfforddi i Ennill (GHK, 2009) a Chyswllt Busnes Dwyrain Canolbarth Lloegr (Barratt a Hope, 2010) ganfod bod y gwasanaethau hyn wedi cyflawni bodlonrwydd cwsmeriaid o 70–80%.
- 5.5 Roedd ychydig (8%) o fuddiolwyr yn anfodlon â'r gwasanaeth. Mae Ffigur 5.1 yn dangos bod 11% o'r ymatebwyr yn teimlo bod y gwasanaeth yn waeth na'r disgwyl, a gwnaeth 18 o'r rhain ddweud ei fod yn 'llawer' gwaeth na'r disgwyl. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod y gwasanaeth yn well na'r disgwyl (51%). Yn gyffredinol, roedd hyn yn unol â'r rhaglenni cymorth busnes eraill a ddisgrifiwyd uchod.

Ffigur 5.1 I ba raddau yr oedd y gwasanaeth y gwnaethoch ei dderbyn yn cymharu â'ch disgwyliadau?



Ffynhonnell: Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid 2018 (n=302)

- 5.6 Nodwyd canlyniadau tebyg yn yr ymchwil ansoddol. Roedd y rhan fwyaf o'r buddiolwyr a holwyd yn dweud eu bod yn fodlon â'r cymorth yr oeddent wedi'i dderbyn gan y rhaglen yn gyffredinol. Gwnaeth rhai hefyd adrodd eu bod yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn barod i fuddsoddi mewn cefnogi BBaChau gan fod hyn yn gwneud iddynt deimlo fel eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu hardal. Fodd bynnag, roedd ychydig rhai o'r cyfranogwyr a

gafodd eu holi yn anhapus â'r lefel o gymorth sydd ar gael trwy Busnes Cymru, ac roedd rhai yn siomedig iawn nad oedd grantiau yn cael eu darparu trwy'r gwasanaeth neu nad oedd modd iddynt gael mynediad at gymorth yr oeddent yn teimlo ei fod wedi'i deilwra at eu sector nhw. Mae hyn yn dangos bod gan rai ddisgwyliadau uwch o'r cymorth y dylai gael ei ddarparu trwy Busnes Cymru.

- 5.7 O ganlyniad, gwnaeth 90% o ymatebwyr i'r arolwg a'r rhan fwyaf o fuddiolwyr a wnaeth gymryd rhan yn y cyfweiliadau ansoddol ddweud y byddent yn argymhell y gwasanaeth i eraill. Yn ogystal, dywedodd 40% o ymatebwyr y byddent yn barod i dalu am agweddau o'r gwasanaethau busnes roeddent wedi eu derbyn oddi wrth Busnes Cymru (ac roedd 25% yn dweud 'efallai' y byddent yn fodlon talu) – yn arbennig ar gyfer cyngor/cymorth arbenigol, wedi'u dilyn gan y gweithdai. Mae hyn yn uchel o ystyried y gwerthusiad o Linell Gymorth Cymorth i Fusnesau a Gov.uk (yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, 2014),²⁸ a wnaeth ganfod bod busnesau yn cael anhawster wrth asesu gwerth cymorth i fusnesau ac felly yn amharod i dalu amdano.

Canfyddiadau ynglŷn â gweithgareddau Craidd a Thwf Busnes Cymru

Llinell gymorth

- 5.8 Yn y cyfweiliadau ansoddol, roedd bron bob un o'r buddiolwyr yn adrodd eu bod yn fodlon ag ansawdd y cymorth yr oeddent wedi'i dderbyn gan y llinell gymorth. Gwnaethant adrodd bod gweithredwyr y llinell gymorth yn effeithiol ar y cyfan wrth adnabod eu hanghenion a'u bod yn eu cyfeirio neu'n eu hatgyfeirio at fathau priodol o gymorth.
- 5.9 Roedd busnesau Lefel 1–2 yn enwedig wedi adrodd bod y cymorth yr oedd wedi'i ddarparu gan y llinell gymorth yn werthfawr i'w busnesau. Fel y dywedodd un:

"Roeddem ni'n hapus â'r cymorth cychwynnol y gwnaethom ei dderbyn, ac felly ni wnaethom edrych mewn unrhyw le arall ar gyfer cymorth unwaith yr oeddem wedi dechrau ein perthynas â Busnes Cymru. Ni fyddai wedi gwneud synnwyr i gael gormod o gymorth arall, gan na fyddai gormod o leisiau sy'n gwrthddweud ei gilydd wedi helpu twf y busnes."

Busnes Lefel 2

²⁸ Ar gael yn:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/381818/bis-14-1192-evaluation-of-the-business-support-helpline-and-gov-uk.pdf

- 5.10 Y farn gyffredinol ar draws yr holl gyfweiliadau oedd bod y llinell gymorth yn cael ei rheoli'n dda, a bod gweithredwyr y llinell gymorth yn darparu cyngor pellach os oeddent wedi profi unrhyw broblemau gydag atgyfeiriad, neu i drafod y camau nesaf.
- 5.11 Gwnaeth ymatebwyr i'r Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid ddweud hefyd eu bod yn fodlon ar y cyfan gyda'r cymorth yr oeddent wedi'i dderbyn gan y llinell gymorth. Yn gyffredinol:
- Roedd 91% yn teimlo bod gweithredwyr y llinell gymorth yn ddefnyddiol
 - Roedd 93% yn fodlon â lefel eu gwybodaeth/arbenigedd
 - Roedd 90% yn fodlon a'u hamser ymateb
 - Roedd 92% yn fodlon â'r diddordeb y gwnaethant ddangos yn eu hymholiad
 - Roedd 97% yn fodlon â'u proffesiynoldeb
 - Roedd 93% yn credu eu bod wedi esbonio'r gwasanaeth yn glir iddynt
- 5.12 Yr unig agwedd o'r gwasanaeth na wnaeth berfformio cystal oedd y cyflymder y byddai ymatebwyr yn derbyn cymorth. Gwnaeth yr arolwg ganfod bod 83% o ymatebwyr wedi derbyn cymorth yn gyflym a bod 85% yn fodlon â'r broses atgyfeirio. Gwnaeth canfyddiadau tebyg ddod i'r amlwg o'r cyfweiliadau ansoddol. Gwnaeth ychydig o'r cyfweleion adrodd, ar ôl iddynt gael mynediad at y gwasanaeth, y byddai mwy na mis yn mynd heibio cyn y byddai cynghorydd busnes yn cysylltu â nhw. Gwnaeth un adrodd bod hyn ond wedi digwydd ar ôl iddo ffonio cynghorydd y llinell gymorth unwaith eto.
- 5.13 Gwnaeth gweithredwyr y llinell gymorth a gafodd eu cyfweled adrodd nad oedd disgwyl iddynt gadarnhau bod y cysylltiad wedi'i wneud unwaith yr oedd atgyfeiriad wedi'i wneud. Fodd bynnag, gwnaethant adrodd bod ambell un o'r buddiolwyr wedi cysylltu â nhw i ddweud nad oedd cynghorydd busnes wedi bod mewn cysylltiad.

Gwefan

- 5.14 Mae gwaith dadansoddi'r we o'r wefan yn dangos bod oddeutu 3,000–4,000 yn ei defnyddio bob mis. Mae nifer y defnyddwyr yn lled gyson ar draws y flwyddyn, er


bod cynnydd sylweddol ers mis Ionawr 2018 o'i gymharu â'r un chwarter yn 2017, a phriodolodd y contractwr hwn i ymdrech fwy yn yr ymgyrch farchnata genedlaethol.

- 5.15 Mae pobl yn ymgysylltu â'r wefan ac yn ei defnyddio am gyfnodau cymharol fyr o amser. Mae'r amser cyfartalog y mae defnyddiwr yn ei dreulio ar y wefan oddeutu tri munud ac mae'r mwyafrif yn ymweld â thair tudalen ar gyfartaledd. Mae'r gyfradd sboncio hefyd ar ben uchaf y cyfartaledd (55%),²⁹ sy'n dynodi nad yw dros hanner y defnyddwyr sy'n cael mynediad at y wefan yn cynnal unrhyw ryngweithiad arall ar y wefan. Fodd bynnag, gallai hyn gael ei briodoli'n rhannol at y ffaith fod y wefan yn ymddangos mewn chwiliadau pan mae defnyddwyr yn chwilio am bynciau megis grantiau busnes a rhwydweithio ar gyfer busnesau neu i gael mynediad at hyfforddiant busnes wedi'i deilwra. Nid yw'r rhain yn rhannau craidd o wasanaeth Busnes Cymru ac efallai y bydd defnyddwyr yn gadael y wefan yn syth o ganlyniad.
- 5.16 Roedd buddiolwyr a wnaeth ddefnyddio'r wefan yn ei chael yn ddefnyddiol ar y cyfan. Fel y dangosir yn Ffigur 5.2, roedd oddeutu tri chwarter o ymatebwyr i'r Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid yn teimlo bod gwefan Busnes Cymru yn darparu'r cymorth yr oedd ei angen arnynt. Roedd y rheini a wnaeth anghytuno adrodd bod 'angen i'r wefan ddarparu mwy o wybodaeth sydd ar gael yn rhwydd' a chynnwys 'mwy o gysylltiadau at ffynonellau eraill ar gyfer cyngor ac arweiniad'. Yn ogystal, gwnaeth ychydig o ymatebwyr ddweud y dylai'r wefan darparu mwy o fanylion am y wybodaeth sydd ganddi am gyllid, gan fod rhai gwahaniaethau ynglŷn â phwy sy'n gymwys ar ei gyfer a phryd y mae ar gael.
- 5.17 Yn y cyfweiliadau ansoddol, cafwyd safbwyntiau cymysg ynglŷn â defnyddioldeb y wefan. Gwnaeth rhai adrodd ei bod yn gweithio'n dda gan 'ei bod yn dda gweld popeth mewn un man'. Fodd bynnag, gwnaeth eraill ddweud eu bod yn ei chael hi'n anodd adnabod pa wybodaeth roeddent ei heisiau gan fod arnynt angen gwybodaeth ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael yn eu hardal leol.
- 5.18 Gwnaeth y cynghorwyr busnes a'r rhanddeiliaid cenedlaethol adrodd bod y wefan yn cael ei defnyddio'n bennaf ar gyfer unigolion a oedd â dealltwriaeth glir ynglŷn â'r hyn yr oedd ei angen arnynt. Roeddent yn gallu mynd yn syth at y deunydd sy'n berthnasol iddynt. Fodd bynnag, gwnaethant adrodd bod rhai wedi cael mynediad at Busnes Cymru er mwyn adnabod meysydd lle y gallent wella eu busnes, a'u bod wedyn yn chwilio am y cymorth priodol. Yn yr achos hwn, nid oedd y wefan yn cael

²⁹ Yn seiliedig ar ddadansoddiad Google Analytics gan Customedialabs, sy'n dangos bod y gyfradd sboncio gyfartalog ar gyfer gwefannau busnes i fusnes rhwng 25% a 55%.

ei hystyried yn ddefnyddiol iawn. Mae'r llinell gymorth dros y ffôn yn fwy defnyddiol ar gyfer y busnesau hyn.

Ffigur 5.2 I ba raddau yr ydych chi'n cytuno bod gwefan Busnes Cymru yn darparu'r cymorth sydd ei angen?



Ffynhonnell: Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid 2018 (n=241)

Gweithdai

- 5.19 Yn ystod y cyfweiliadau ansoddol, gwnaeth y rhan fwyaf o fuddiolwyr adrodd bod y gweithdai yn ddefnyddiol ar gyfer eu busnes. Yn ogystal, roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod y fformat yn effeithiol wrth ddarparu mynediad hawdd at arbenigedd busnes arbenigol.

"Roeddwn i'n eithaf bodlon â chynnwys a hyd yr holl seminarau i mi eu mynychu. Nid oeddwn i byth yn teimlo wrth adael seminar fy mod i wedi gwastraff fy amser neu y gallai fod wedi cael ei gynnal yn well. Rwyf wedi bod yn eithaf bodlon bob tro a bod yn onest."

Busnes Lefel 2

- 5.20 Roedd busnesau Lefel 1-2 yn arbennig o gadarnhaol ynglŷn ag effeithiolrwydd y gweithdai ar-lein. Gwnaeth ychydig o ymatebwyr ddweud, o ganlyniad i ansawdd a pherthnasedd y gweithdai, eu bod wedi derbyn y cynnig i gael cymorth un-i-un.
- 5.21 Ychydig iawn o'r buddiolwyr y gwnaethom eu cyfweld a oedd wedi mynychu'r gweithdai wyneb yn wyneb, er bod rhai wedi anfon eu staff. Fodd bynnag, roedd

mwyafrif y rhai a oedd wedi mynychu wedi canfod bod y cymorth yn werthfawr ac roeddent yn teimlo eu bod yn darparu cyfle da i rwydweithio gyda busnesau tebyg eraill. Fel y dywedodd un, *"Roedd yn beth da i fynd a rhoddodd lawer i ni i feddwl amdano."* Fodd bynnag, roedd un busnes yn teimlo bod rhai o'r gweithdai yn 'rywsut-rywsut' gan fod eu cynnwys yn gallu bod yn rhy gyffredinol i fod yn gwbl berthnasol i'w fusnes.

- 5.22 Gwnaeth cynghorwyr busnes adrodd bod y gweithdai yn darparu man cychwyn da ar gyfer busnesau nad oeddent yn barod i ymrwymo i wneud newidiadau i'w sefydliad. Teimlid bod hyn yn eu galluogi i ystyried buddiannau ac anfanteisio dulliau gwahanol, a sut y gallent gael eu gweithredu o fewn eu sefydliad.
- 5.23 Roedd y canfyddiadau o'r cyfweiliadau ansoddol yn cael eu cadarnhau ar y cyfan gan ganlyniadau'r Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid. Yn yr arolwg, gwnaeth 89% o ymatebwyr gytuno neu gytuno'n gryf fod y cymorth a roddwyd wedi'i deilwra i'w hamgylchiadau; roedd 95% yn fodlon a'r modd yr oedd cyngor wedi'i ddarparu; ac roedd 89% yn fodlon ag ansawdd y cyngor a ddarparwyd. Mae'r ffigur hwn yn uchel ar gyfer cyrsiau hyfforddi byr, lle gwnaeth gwerthusiadau ICF o hyfforddiant busnes arall ganfod eu bod yn cyflawni lefelau bodlonrwydd o 85-90% yn nodweddiadol.
- 5.24 Fodd bynnag, gwnaeth rhai ymatebwyr i'r arolwg, ac unigolion a wnaeth gymryd rhan yn y cyfweiliadau ansoddol, argymhell y byddent yn hoffi cael gweithdy dilynol er mwyn adeiladu ar yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu. Gwnaeth un ddweud: *"Efallai y byddai gwerth seilio presenoldeb ar brofiad a'i deilwra ar gyfer y sawl sydd yn mynychu."*

Cymorth gan gynghorwyr un-i-un

- 5.25 Yn y cyfweiliadau ansoddol, roedd y mwyafrif o'r buddiolwyr yn hapus â'r cymorth yr oeddent wedi'i dderbyn. Roeddent yn credu bod y cynghorydd wedi ymdrechu i ddeall gofynion eu busnes, ac roedd yr atebion yr oeddent yn eu hargymhell yn ystyrlon ac wedi'u llunio i fynd i'r afael â'u meysydd gwella. Fel y gwnaeth un busnes ddweud, *"Byddwn i'n rhoi deg allan o ddeg iddynt; mae'n wych i'w cael nhw ar ein hochr."* Roedd hyn yn gyson ar gyfer cymorth Lefel 3 a Lefel 4.
- 5.26 Roedd y mwyafrif yn credu bod gan y cynghorydd busnes wybodaeth a phrofiad manwl a pherthnasol ar y pwnc yr oedd yn ei gynghori amdano, ac o ganlyniad roedd yn gallu darparu atebion craff ac ymestynnol. Fel y gwnaeth un busnes

ddweud: *"Efallai bod y wybodaeth y maent yn ei rhoi i chi yn gallu bod yn llym ar adegau ac nid yw'r un fath â'r hyn yr ydych am ei glywed, ond mae'r wybodaeth o hyd yn dda."*

- 5.27 Yn ogystal, gwnaeth y rhan fwyaf o'r buddiolwyr adrodd bod y cyfathrebu rhyngddynt hwy a'r cynghorydd busnes yn effeithiol. Roeddent yn teimlo eu bod yn gallu cysylltu â'u cynghorwyr busnes pe bai problem ganddynt ac y byddent yn ceisio helpu. Fel y gwnaeth un busnes ddweud, *"Weithiau mae'n rhaid i ni aros iddynt ffonio nôl, ond maent yn gwneud hyn bob amser. Rydym yn gwerthfawrogi nad yw hyn yn hawdd am fod ganddynt ddyddiadur sy'n llawn o bethau i'w gwneud."*
- 5.28 Gwnaeth ychydig o fusnesau adrodd am brofiad negyddol gyda chynghorydd. Dywedodd un bod y cynghorydd wedi *"ein hanfon ar y llwybr anghywir yn rheolaidd"* a'i fod yn anodd cysylltu ag ef. Gwnaeth busnes arall adrodd nad oedd y cynghorydd *"wedi dweud unrhyw beth cofiadwy ac ni chlywais ganddo ar ôl hyn"*. Fodd bynnag, ac mae hyn yn bwysig ar gyfer y mwyafrif o'r achosion hyn, gwnaeth buddiolwyr adrodd eu bod wedi gallu cael mynediad at gynghorydd arall a oedd yn gallu eu helpu i fynd i'r afael â'u gofynion.

Darparu cymorth ar gyfer themâu trawsbynciol

- 5.29 Gwnaeth contractwyr a chynghorwyr busnes adrodd eu bod yn cynnig cymorth i fusnesau ynglŷn â chynaliadwyedd amgylcheddol a chydaddoldeb ac amrywiaeth fel rhan o'r drefn. Fodd bynnag, gwnaethant ddweud eu bod wedi pecynnu'r cymorth o amgylch themâu ehangach er mwyn annog mwy i gymryd rhan. Er enghraifft:
- Fframiwyd cyngor ynglŷn â chynaliadwyedd amgylcheddol o amgylch 'cyngor i'ch helpu chi i wneud arbedion o ran eich costau gweithredu'. Yn yr achos hwn, roedd y cynghorwyr yn cynnig cyngor ynglŷn â mesurau arbed ynni a lleihau gwastraff, gan gynnwys sut i aildefnyddio ac ailgylchu adnoddau.
 - Fframiwyd cyngor ynglŷn â chydaddoldeb ac amrywiaeth o amgylch cymorth ar gyfer recriwtio ac adnoddau dynol. Yn yr achos hwn, roedd y cynghorwyr yn gallu cynnig cyngor ynglŷn ag ymarfer recriwtio priodol, gan annog amrediad

amrywiol o unigolion i ymgeisio am rolau o fewn eu cwmnïau, a chefnogi gweithwyr o bob cefndir.

- 5.30 Gwnaeth mwyafrif o'r buddiolwyr y gwnaethom eu cyfweld dweud eu bod wedi derbyn cymorth i lunio cynlluniau cyfle cyfartal neu gynaliadwyedd amgylcheddol a'u bod hefyd wedi cael cynnig o gymorth pellach ar y pynciau hyn. Fodd bynnag, gwnaeth llai na hanner ohonynt adrodd eu bod wedi derbyn y cynnig hwn. Er eu bod yn ei ystyried yn bwysig, nid oeddent yn credu y byddai'n cael cymaint ag effaith ar eu busnes o'i gymharu â rhai o'r cynigion eraill yn y cynllun gweithredu yr oeddent wedi ei ddatblygu gyda'r cynghorwyr busnes.
- 5.31 Gyda chydaddoldeb ac amrywiaeth, y prif gymorth a dderbyniwyd gan y buddiolwyr oedd cyngor ar ddatblygu cynlluniau recriwtio effeithiol i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau. Roedd hyn yn cynnwys hysbysebu cyfleoedd swyddi mewn modd sy'n annog amrediad eang o ymgeiswyr, megis defnyddio geirfa gynhwysol a hysbysebu mewn lleoliadau yn y gymuned leol. Roedd buddiolwyr a wnaeth dderbyn y cymorth hwn yn dweud eu bod yn croesawu'r cyngor ar p'un a oedd eu dulliau gweithredu yn bodloni gofynion cyfreithiol. Gwnaeth un buddiolwr adrodd bod hyn yn ofyniad angenrheidiol iddo allu ymgeisio ar gyfer tendrau cyhoeddus.
- 5.32 Roedd y buddiolwyr hynny yr oedd eu busnesau wedi derbyn cymorth ynglŷn â chynaliadwyedd amgylcheddol yn adrodd eu bod yng nghanol y broses o roi newidiadau ar waith yn eu sefydliad. Roedd rhai yn cymryd camau gweithredu i leihau eu defnydd o ynni, megis cyflwyno prosesau i sicrhau bod peth o'u hoffer yn cael eu diffodd dros nos, a'u bod hefyd wedi dechrau ailgylchu eu gwastraff busnes. Yn ogystal, gwnaeth un busnes adrodd ei fod wedi newid ei ymagwedd tuag at archebu cyflenwadau a gwnaeth hyn leihau'r maint o wastraff yr oedd yn ei gynhyrchu'n sylweddol. Gwnaeth un buddiolwr adrodd ei fod *"yn newid ei hymagwedd yn llwyr - cawsom ein gorfodi i wneud llawer o bethau yn wahanol"*. Gwnaeth buddiolwr arall ddweud: *"Roedd ein cynllun yn cynnwys llawer o gamau yr ydym yn gweithredu yn eu cylch."*

Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destun busnes

- 5.33 Ni chanfuodd yr astudiaeth lawer o enghreifftiau lle'r oedd y rhaglen yn darparu cymorth ynglŷn â buddiannau defnyddio'r Gymraeg. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r

cynghorwyr a holwyd adrodd eu bod ond wedi darparu cyngor ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy helaeth yn ystod gweithgareddau busnes pan oedd buddiolwr wedi gofyn amdano yn benodol. Ni wnaeth un o'r cynghorwyr ddweud eu bod yn hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn weithredol, er bod rhai wedi dweud ei fod yn cael ei ystyried ochr yn ochr â chyngor yr oeddent yn ei ddarparu i fusnesau ynglŷn â chydaddoldeb ac amrywiaeth.

5.34 Cafodd hyn ei gadarnhau yn y cyfweiliadau â buddiolwyr. Ni wnaeth un o'r buddiolwyr adrodd eu bod wedi derbyn cyngor a oedd yn hyrwyddo buddiannau defnyddio'r Gymraeg, naill ai oddi wrth y llinell gymorth, y wefan neu gynghorwyr, neu eu bod wedi ei geisio.

5.35 Fodd bynnag, gwnaeth rhai o'r buddiolwyr adrodd eu bod, yn dilyn cyngor gan wasanaeth Busnes Cymru, wedi gweithredu newidiadau a oedd yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Gwnaeth un busnes a oedd yn datblygu fersiwn Gymraeg o'i wefan a busnes arall a oedd yn sefydlu gwefan adrodd eu bod wedi cael cyngor i ddatblygu gwefan ddwyieithog.
- Gwnaeth ambell fusnes adrodd eu bod wedi newid arwyddion ar eu safle fel eu bod yn cynnwys y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd hyn yn gyffredin iawn ar gyfer buddiolwyr yn y sector lletygarwch.
- Gwnaeth dau fusnes adrodd, yn dilyn y cymorth a dderbyniwyd ganddynt, eu bod yn bwriadu datblygu cynhyrchion neu labeli sydd yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Roedd y busnesau hyn yn y sector gweithgynhyrchu.

5.36 Gwnaeth y rhan fwyaf o fusnesau adrodd eu bod yn gwneud y newidiadau hyn am eu bod yn credu y byddent yn denu cwsmeriaid newydd i'w busnes. Fel y gwnaeth un busnes yng nghanolbarth Cymru adrodd, "*Nid oedd angen meddwl amdano mewn gwirionedd.*" Yn ogystal, gwnaeth nifer ohonynt ddweud eu bod wedi gwneud y newidiadau er mwyn gwneud eu cynhyrchion neu wasanaethau yn fwy cynhwysol, yn enwedig pan oeddent mewn ardaloedd o ogledd neu ganolbarth Cymru a oedd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg.

Canfyddiadau ynglŷn â chymorth y Rhaglen Cyflymu Twf

- 5.37 Roedd mwyafrif y buddiolwyr yn fodlon â'r cymorth gan y Rhaglen Cyflymu Twf yr oeddent wedi'i dderbyn. Y budd mwyaf yr oeddent yn credu eu bod yn ei dderbyn gan y gwasanaeth oedd cael mynediad at 'gyfaill beirniadol' a oedd yn gallu cynnig cyngor adeiladol allanol. Roedd hyn yn gyson ymysg y buddiolwyr, waeth beth bynnag oedd y lefel o gymorth yr oeddent yn ei dderbyn.

"Mae e [cymorth y Rhaglen Cyflymu Twf] bron fel dull hyfforddi i mi. Rwyf wedi bod mewn busnes am saith mlynedd, ond roedd angen i mi ddysgu ynglŷn â sut i fod yn rheolwr gyfarwyddwr. Mae cael rhywun yn edrych i mewn â'r gallu i'ch herio yn wych pan ydych mewn rôl arweinyddiaeth."

Busnes Lefel 5

"Yr hyn sydd wedi gwneud argraff amaf yw pa mor frwdfrydig y maent yn gallu bod ac mae hyn dal yn fy nrysu i nawr - maent yn canolbwyntio cymaint ar eich cynnyrch fel eu bod yn rhoi ynni a gwerth ychwanegol i chi - maent yn llwgu am wybodaeth ac maent yn eich gwneud yn frwdfrydig. Rwy'n angerddol am yr hyn yr wyf yn ei wneud, ond mae'r ffaith eu bod nhw yn mabwysiadu'r rôl angerddol honno ... nid ydynt yn rhoi'r argraff eu bod yn cyflawni rôl a'u bod bob tro yn frwdfrydig ac yn cyfrannu fwy na'r hyn sy'n ofynnol ganddynt - maent yn cynnau sbarciau a thanio brwdfrydedd yn barhaus gyda'r hyn y maent yn ei wneud."

Busnes Lefel 5

- 5.38 Ar y cyfan, roedd busnesau wedi adrodd bod y cyngor yr oeddent wedi'i dderbyn yn *"dda iawn. Roedd wedi ein helpu i gyflawni'r hyn yr oeddwn am ei wneud."* Teimlwyd bod y cymorth a ddarparwyd gan rai yn y sector preifat yn adlewyrchu gofynion eu busnes, ac fel y dywedodd un o'r buddiolwyr, *"Mae wedi ein helpu ni i dyfu mewn modd cynaliadwy."*
- 5.39 Fodd bynnag, yn y cyfweiliadau ansoddol, roedd ambell fuddiolwr yn anhapus â'r cymorth yr oedd wedi'i dderbyn. Adlewyrchwyd hyn yn yr Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid, a wnaeth ganfod nad oedd 18% o'r ymatebwyr yn fodlon â'r gwasanaeth, a oedd llawer yn uwch na llinynnau eraill Busnes Cymru.
- 5.40 Rheswm cyffredin a gafodd ei roi gan fuddiolwyr a oedd yn anfodlon â'r gwasanaeth oedd eu bod yn credu nad oedd y cymorth yn cael ei deilwra ar gyfer eu hamgylchiadau (fel yr adroddwyd gan 17% o ymatebwyr i'r arolwg). Cafodd hyn ei nodi yn y cyfweiliadau ansoddol yn ogystal. Fel y dywedodd un: *"Roedd yn swnio'n llawer gwell nag yr oedd yn y diwedd ... nid oedd cyflwyniad na phecyn*

croeso i'r hyn yr oeddent yn gallu ei gynnig... Nid oedd gennym unrhyw fewnbwn i'r peth; rhoddwyd pethau i ni yn unig."

- 5.41 Yn yr arolwg, gwnaeth 18% o unigolion a oedd wedi'u cefnogi gan y Rhaglen Cyflymu Twf deimlo nad oeddent yn cael y cymorth yr oeddent am ei gael yn ddigon cyflym. Tynnwyd sylw at hyn hefyd yn y cyfweiliadau ansoddol, lle gwnaeth ychydig o fuddiolwyr adrodd bod bylchau wedi bod yn y cymorth yr oeddent wedi'i dderbyn. Efallai bod hyn am fod rhai o'r cynghorwyr busnes a gyfwelwyd gennym yn adrodd eu bod wedi ceisio targedu eu hymyriadau ar adegau pan oeddent yn teimlo bod y busnes yr oeddent yn ei gefnogi yn wynebu cyfnod o newid ac felly roeddent yn rhoi cymorth dwys ac yna'n gadael y busnes i'w roi ar waith.
- 5.42 Yn ogystal, gwnaeth nifer o'r buddiolwyr adrodd yn yr arolwg y byddent yn hoffi cael mwy o dryloywder ac eglurder ar beth yn union yw'r Rhaglen Cyflymu Twf a'r hyn y mae'n ei gynnig, ac i ba raddau y mae yn gallu cynnig cymorth arbenigol ac wedi'i deilwra ar gyfer busnesau. Byddai hyn yn eu galluogi i gael disgwyliadau realistig ynglŷn â'r hyn y maent yn gallu ei ddisgwyl.


Canfyddiadau ynglŷn â'r Rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym lawn (SFBE)

Y cymorth diagnostig cychwynnol a gweithdai hyfforddi


- 5.43 Yn y cyfweiliadau ansoddol, gwnaeth y rhan fwyaf o'r buddiolwyr adrodd bod y cymorth diagnostig cychwynnol wedi'i ddarparu'n dda. Adroddwyd mai'r prif fuddiannau oedd ei fod yn gallu adnabod '*enillion cyflym*' - newidiadau cadarnhaol y gellir eu gwneud yn hawdd. Er enghraifft, gwnaeth un buddiolwr adrodd bod y cymorth diagnostig wedi nodi'r angen am wefan ddwyieithog. Gwnaeth buddiolwyr eraill adrodd, o ganlyniad i'r cymorth diagnostig, iddynt adolygu'r data ar eu gwefan a gwella eu termau chwilio.
- 5.44 Yn ogystal, derbyniodd y gweithdai SFBE adborth cadarnhaol. Mae'r ffurflenni adborth y disgwylir i gyfranogwyr eu cwblhau ar ddiwedd y sesiwn (gweler Ffigur 5.3 a Ffigur 5.4) yn dangos:
- bod 89% o'r rheini a fynychodd weithdy yn credu bod y trefniant a'r wybodaeth a ddarparwyd yn dda iawn neu'n dda
 - bod 95% yn credu bod gwerth y gweithdy i'w sefydliad yn dda neu'n dda iawn

- 5.45 Mae'r ffigur hwn wedi aros yn lled gyson dros amser, hyd yn oed wrth i nifer y bobl sy'n mynychu gweithdai gynyddu. Yn ogystal, ar gyfer y tri chwarter olaf (Chwarter 3 2016, Chwarter 4 2017 a Chwarter 1 2018), mae cyfran y mynychwyr sydd wedi cael bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' wedi aros yn sefydlog (76%).

Ffigur 5.3 Trefniadaeth a gwybodaeth gweithdai



Ffigur 5.4 Gwerth y gweithdy i'r sefydliad



Ffynhonnell: Ffurflenni adborth ar gyfer gweithdai SFBE, mis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2018 (n = 2,835)

- 5.46 Yn y cyfweiliadau ansoddol, gwnaeth bron pob un o'r buddiolwyr adrodd hefyd fod y cyngor yr oeddent wedi'i dderbyn yn y gweithdai o ansawdd da a'i fod yn berthnasol i'w hanghenion. Fodd bynnag, gwnaeth rhai ohonynt adrodd y byddent yn hoffi cael gweithdai ar lefelau uwch sy'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt.
- 5.47 Yn gyffredinol, roedd y buddiolwyr hyn wedi cael mynediad at y rhaglen yn ystod cyfnodau cynnar ei darpariaeth. Gwnaeth contractwyr SFBE a staff Llywodraeth Cymru adrodd eu bod wedi cyflwyno rhai rhaglenni ar amrediad o lefelau er mwyn gwahaniaethu rhwng buddiolwyr sydd â 'mannau cychwyn' gwahanol.

Cymorth un-i-un i fusnesau

- 5.48 Roedd y rhan fwyaf o'r buddiolwyr y gwnaethom eu cyfweld yn credu bod y cymorth dwys yn cael ei ddarparu'n dda. Adroddodd y rhan fwyaf fod y cynghorydd yn llawn cymorth ac yn wybodus a bod y cyngor yr oeddent wedi'i dderbyn o ansawdd uchel. Fel y dywedodd un buddiolwr: *"Cawsant eu cyflenwi mewn modd gwych - mae gennyf gefndir mewn TG, felly roeddwn i'n gallu dweud eu bod yn gwybod am yr hyn yr oeddent yn sôn amdano."*
- 5.49 Gwnaeth bron pob un o'r cyfweleion ddweud bod y gwasanaeth wedi bodloni neu ragori ar eu disgwyliadau, a theimlwyd bod yr adroddiadau manwl (sy'n dilyn y cymorth diagnostig) yn ddefnyddiol iawn. Yn ogystal, gwnaeth y rhan fwyaf o'r buddiolwyr adrodd bod y cymorth wedi cael ei gyflenwi'n dda a'u bod wedi derbyn arweiniad defnyddiol a pherthnasol o ansawdd uchel.
- 5.50 Nodwyd canfyddiadau tebyg yn yr Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid, a wnaeth ganfod bod dros 90% o fuddiolwyr SFBE yn fodlon â:
- Cymwynasgarwch yr unigolyn yr oeddent wedi ymgysylltu ag ef/hi yn ddiwethaf (92%)³⁰
 - Lefel gwybodaeth ac arbenigedd yr unigolyn diwethaf y buont mewn cysylltiad ag ef/hi (94%)
 - Amser ymateb eu cysylltiad diwethaf â'r gwasanaeth (91%)
 - Y diddordeb a ddangoswyd yn eu hymholiad yn ystod eu cysylltiad diwethaf (91%)
 - Proffesiynoldeb yr unigolyn diwethaf y buont mewn cysylltiad ag ef/hi (99%)
- 5.51 Yn ogystal, roedd 92% o ymatebwyr a gafodd fynediad at gymorth SFBE yn cytuno bod y cymorth a rhoddwyd iddynt wedi'i deilwra i'w hamgylchiadau, ac roedd 88% yn fodlon â'r diagnosis o'u hanghenion (pa mor dda yr adnabuwyd a deallwyd eu hanghenion busnes).

³⁰ Yn seiliedig ar 61 o ymatebion

³¹ Case study available online: <https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/astudiaethau-achos/ymagwedd-ymarferwyr-ansolfedd-tuag-ddigidol-yn-eu-cadw-ar-y-blaen-i-newidiadaur-llywodraeth>

³² Case study available online: <https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/astudiaethau-achos/gwasanaeth-mwy-effeithlon-iw-haelodau>

- 5.52 Mae astudiaethau achos sydd wedi'u cyhoeddi ar-lein yn nodi ansawdd uchel y cymorth a ganfyddir - er enghraifft:

"Rydyn ni hefyd wedi cael cymorth gan Cyflymu Cymru i Fusnesau i helpu i nodi cyfleoedd a syniadau newydd. Cefais sesiwn un-i-un ac adroddiad marchnata gan Cyflymu Cymru i Fusnesau, a oedd yn eithriadol o dda a gwerthfawr. Fe wnaethon nhw agor fy llygaid i lawer o gyfleoedd a gollwyd, yn ogystal â syniadau ar gyfer tactegau yn y dyfodol."

McAlister & Co³¹

"Does yr un ohonom ni yma'n arbenigwr TG; roeddem ni angen rhywun gydag arbenigedd ehangach a allai edrych ar bob agwedd o'n system TG a'n helpu i wneud y penderfyniadau cywir. Mae'n fuddsoddiad mawr i ni ac roedd yn rhaid i ni feddwl yn ofalus ynghylch sut yr oeddem yn mynd i wneud hynny. Roedd y cymorth a'r cyngor yn amhrisiadwy ac, o ganlyniad, rydym erbyn hyn yn llawer mwy slic."

Cambrian Alliance³²

Canfyddiadau ynglŷn â'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid

Sesiynau Ymgysylltu a Grymuso

- 5.53 Roedd y staff ysgol y gwnaethom eu cyfweld yn fodlon â'r sesiynau Ymgysylltu y gwnaethom eu darparu i bobl ifanc 14–16 oed. Roedd y mwyafrif yn credu eu bod wedi darparu trosolwg da o fod yn hunangyflogedig a'u bod yn ddiddorol ac yn ysgogol. Fel y gwnaeth un ddweud: *"Mae'n rhoi blas o'r byd busnes iddynt ac mae'n eu gwneud yn ymwybodol o'r mathau gwahanol o fusnesau."*
- 5.54 Yn ogystal, gwnaeth y modelau rôl ddweud bod y sesiynau wedi gweithio'n dda. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr ysgol neu'r coleg wedi paratoi ar gyfer y sesiwn, roedd y disgyblion/myfyrwyr hefyd yn ymwybodol o'r hyn fyddai'n cael ei gwmpasu, ac roedd y dosbarthiadau yn ymddwyn yn dda ac wedi ymgysylltu. Fodd bynnag, gwnaeth ambell un adrodd am ddigwyddiadau unigol pan fu rhaid iddynt ddelio ag ymddygiadau heriol gan ddisgyblion/myfyrwyr neu pan nad oedd y modd y gwnaethant ddarparu'r sesiwn yn bodloni gofynion y grŵp. Gwnaeth y contractwr adrodd eu bod wedi anfon model rôl gwahanol y flwyddyn ganlynol pan fu problemau mewn ysgol.
- 5.55 Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan ffurflenni adborth o'r sesiynau. Gwnaeth yr ymchwil a wnaed gan Beaufort Research ganfod bod 96% o bobl ifanc wedi adrodd bod y rhaglen wedi gwella eu gwybodaeth o sut mae rhedeg busnes ac roedd 66% o ddisgyblion o dan 16 oed a 75% o fyfyrwyr addysg bellach yn credu bod y sesiwn

wedi cael effaith 'enfawr' neu 'fawr'. Dywedodd 49% o ddisgyblion a 56% o fyfyrwyr addysg bellach ychwanegol fod y sesiwn wedi cael dylanwad enfawr/mawr arnynt o ran gwneud iddynt feddwl am syniadau ar gyfer busnes.

- 5.56 Yn ogystal, gwnaeth yr ysgolion a cholegau ddarparu adborth cadarnhaol ynglŷn â'r cystadlaethau Grymuso. Gwnaethant adrodd eu bod wedi helpu i ysgogi a chymell pobl ifanc i feddwl am entrepreneuriaeth, a'u bod wedi'u cynnal a'u darparu mewn modd proffesiynol. Yn ogystal, gwnaeth yr ysgolion adrodd bod eu myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r sesiynau, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn dueddol o gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.
- 5.57 Roedd contractwyr yn credu bod bwlch mewn darpariaeth ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7–9 mewn ysgolion (11–13 oed). Ar hyn o bryd, mae cystadlaethau yn cael eu darparu i blant ysgolion cynradd a darperir sesiynau i'r rheini sydd yn agos at adael ysgol neu goleg. Roedd y contractwyr yn teimlo y byddai ymgysylltu â'r grŵp Blwyddyn 7–9 yn cynnal diddordeb pobl ifanc i ddechrau busnes trwy gydol eu haddysg. Roeddent hefyd yn credu y byddai cymorth yn ystod y cam hwn yn helpu i lywio eu penderfyniadau ynghylch pa bynciau y dylent ganolbwyntio arnynt ar gyfer eu harholiadau TGAU.

Cyfarparu

- 5.58 Yn y cyfweiliadau ansoddol, roedd y mwyafrif o bobl ifanc yn fodlon ag ansawdd y cymorth a ddarparwyd yn y sesiynau bwtcamp. Gwnaethant adrodd eu bod wedi'u strwythuro a'u trefnu'n dda a'u bod yn cael eu cynnal ar gyflymder priodol. Yn ogystal, teimlwyd bod y cynnwys yn werthfawr. Fel y dywedodd un unigolyn, *"Teimlais ei fod yn ysbrydoledig, ac mae wedi fy ysgogi i feddwl."* Roedd yr adborth yn gyson boed yr unigolyn ifanc wedi dechrau busnes yn barod neu'n bwriadu gwneud hynny.
- 5.59 Gwnaeth un cyfweilai adrodd y byddai wedi dewis cael mwy o gymorth manwl ynglŷn ag adrannau gwahanol cynllun busnes. Awgrymodd un arall y byddai'n hoffi cael sesiwn yn y bwtcamp lle y gallai pobl ifanc dderbyn cymorth mwy personol ar gyfer eu busnes. Fodd bynnag, y consensws cyffredinol oedd mai pwyntiau bach oedd y rhain ar gyfer gwella rhaglen sy'n effeithiol.
- 5.60 Dau yn unig o'r bobl ifanc y gwnaethom eu cyfweld oedd wedi derbyn cymorth busnes un-i-un, er bod y gweddill yn dweud eu bod yn deall bod yr adnodd ar gael

ac efallai y byddent yn cael mynediad ato yn y dyfodol. Roedd y rheini a oedd wedi derbyn cymorth un-i-un yn ei weld yn ddefnyddiol iawn. Gwnaeth un ddweud:

"Gwnaethom ddatblygu cysylltiad. Gallaf ei ddefnyddio fel seinfwrdd gan ei fod yn fy neall ar lefel ddyfnach." Gwnaeth un arall adrodd i'w *"help wneud y broses yn llai brawychus, gan fy mod yn gwybod bod gennyf rywun a oedd yn gallu fy helpu"*.

Cynllunio a rheoli

Rheolaeth gan y contractwyr

- 5.61 Gwnaeth rheolwyr contract Llywodraeth Cymru adrodd eu bod yn fodlon â'r modd yr oedd y contractau wedi cael eu cyflawni gan y contractwyr. Ar y cyfan, roeddent yn teimlo bod y contractwyr yn cadw gwybodaeth gywir i reoli'r rhaglen a bod hefyd modd cysylltu â nhw yn hawdd os oeddent am drafod unrhyw broblemau.
- 5.62 Yn y rhan fwyaf o achosion, adroddwyd hefyd fod contractwyr wedi gwneud newidiadau i'w cynnig i gynyddu y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Ar gyfer y rhaglen SFBE, roedd hyn yn cynnwys cyflwyno nifer gynyddol o weithdai i helpu i fynd i'r afael â thanberfformiad cychwynnol, ac ar gyfer y Rhaglen Craidd a Thwf, roedd yn cynnwys cyflwyno gweithdai wyneb yn wyneb ychwanegol a oedd wedi'u teilwra ar gyfer ardaloedd lleol penodol.
- 5.63 Yr unig broblem gyffredin a adroddwyd oedd y diffyg paratoi gan rai contractwyr o ran datblygu'r systemau casglu data a rheoli er mwyn gweithredu'r rhaglen. Dechreuodd y datblygiad hwn yn bennaf pan ddechreuodd y contractau ym mis Ebrill 2016. Fodd bynnag, roedd rheolwyr contract yn credu ei fod wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl a gallai rhywfaint o'r gwaith paratoi fod wedi cael ei wneud pan hysbysodd Llywodraeth Cymru'r contractwyr o'i bwriad i gynnig y contract iddynt. Yn yr un modd, gwnaeth y contractwyr adrodd y byddent wedi elwa ar gael mwy o arweiniad ar y dechrau ynglŷn â'r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer pob allbwn gan y cytunwyd ar hon, mewn rhai achosion, ychydig o fisoedd ar ôl i'r contract ddechrau.

Rheolaeth gan Lywodraeth Cymru

- 5.64 Ar draws yr holl raglenni, roedd y contractwyr yn credu bod y rhaglen yn cael ei reoli'n dda gan Lywodraeth Cymru. Nododd pawb drafodaethau dal i fyny misol i archwilio cynnydd, lle y gellid adnabod problemau a heriau yn gynnar. Yn ogystal,

gwnaeth y contractwyr adrodd eu bod yn credu ei fod yn hawdd cysylltu â'r rheolwr contract petaent yn profi unrhyw broblemau.

- 5.65 Gwnaeth contractwyr adrodd mai prif gryfder ymagwedd Llywodraeth Cymru oedd bod y cleient yn fodlon i archwilio newidiadau er mwyn gwella darpariaeth a gofynion data/adrodd ar gyfer y rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys archwilio cyfleoedd ar gyfer llofnodion digidol, archwilio'r cyfle i gynnig sesiynau byrrach ar gyfer entrepreneuriaid, newid y gyfres o weithdai i'w darparu, a gwneud newidiadau i'r wefan a swyddogaethau'r llinell gymorth (a reolir gan Lywodraeth Cymru) i gyfeirio traffig tuag at y rhaglen.
- 5.66 Her allweddol y gwnaeth contractwyr adrodd amdani oedd yr amser sy'n cael ei gymryd i weithredu newidiadau. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchu'r ffaith fod y rhaglen yn cael ei hariannu trwy gronfeydd strwythurol yr UE ac felly mewn sawl achos fod angen derbyn cymeradwyaeth gan WEFO ac wedyn cymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd i wneud rhai newidiadau. Fodd bynnag, mae'n golygu nad yw rhai newidiadau, megis y newidiadau i gynlluniau cyflenwi a gytunwyd ym mis Gorffennaf 2017 a'r defnydd o lofnodion go iawn, wedi cael eu cymeradwyo eto erbyn diwedd mis Mehefin 2018, er eu bod wedi'u cytuno mewn egwyddor.
- 5.67 Fodd bynnag, gwnaeth contractwyr hefyd nodi enghreifftiau lle y gwnaeth tîm Busnes Cymru yn Llywodraeth Cymru a WEFO newidiadau yn gyflym iawn a fyddai'n gwella cyflwyniad y rhaglen. Mae hyn yn cynnwys y newidiadau i'r gwaith o gyflwyno'r themâu trawsbynciol er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan. Mae hyn hefyd yn cynnwys newidiadau i'r wefan, gan gynnwys cyflwyno tudalen we SFBE benodol sy'n gallu cael ei chynnal gan y contractwr.

Cydlyniant ac atgyfeiriadau gyda gweithgareddau cymorth i fusnesau eraill

Cydlyniant â rhanddeiliaid eraill

Cymorth i fusnesau

- 5.68 Gwnaeth y rhanddeiliaid o'r sector preifat y gwnaethom eu cyfweld adrodd yn gyffredinol eu bod wedi gweithio gyda chynghorwyr busnes Busnes Cymru am fwy na thair blynedd. Gwnaethant adrodd eu bod yn cyfeirio eu cwsmeriaid yn aml tuag at gymorth Busnes Cymru, pan mae'r cwsmer yn gofyn am gymorth penodol gan amlaf, megis help ar gyfer marchnata ar-lein, neu pan mae'n amlwg fod angen help arnynt i wella ansawdd eu cynlluniau busnes a'u rhagolygon ariannol.

- 5.69 Fodd bynnag, roedd y lefel o ymgysylltu yn seiliedig ar berthnasau unigol. Adroddodd y banciau stryd fawr a sefydliadau busnes y cafodd eu cyfweld nad oedd ganddynt unrhyw weithdrefnau trefniadol penodol ar gyfer hwyluso atgyfeiriadau at Busnes Cymru a'i contractwyr, ar wahân i rywfaent o ddeunyddiau hyrwyddo y rhoddwyd iddynt gan y contractwr. Maent yn deall felly fod rhai o'r staff o fewn eu sefydliad yn atgyfeirio cwsmeriaid yn helaeth i Busnes Cymru er nad yw eraill yn gwneud hyn.
- 5.70 Yn gyffredinol, gwnaeth rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus adrodd ychydig iawn o ymgysylltu â chontractwyr Busnes Cymru yn ystod blwyddyn a hanner gyntaf y rhaglen (2016–17). Adroddwyd bod hyn wedi cael effaith negyddol ar atgyfeiriadau gan nad oedd gan rhanddeiliaid wybodaeth drylwyr am ba gymorth oedd ar gael yn y rhaglen newydd. Gwnaeth ambell rhanddeiliad adrodd bod Busnes Cymru wedi atgyfeirio cleientiaid iddynt yr oedd â disgwyliadau afrealistig o'r grantiau a'r cymorth y gallent eu cyflawni ar eu cyfer.
- 5.71 Fodd bynnag, ar ddiwedd 2017, gwnaeth rhai o'r rhanddeiliaid y gwnaethom eu cyfweld adrodd eu bod wedi gweithio'n agosach gyda staff Busnes Cymru i wella'r cydlyniant rhwng y gwasanaethau. Yn benodol:
- Gwnaeth rhai awdurdodau lleol a Banc Datblygu Cymru adrodd eu bod wedi cynnal sesiynau mewnol lle darparodd contractwyr Busnes Cymru fwy o wybodaeth ynglŷn â'r gwasanaeth i'w timau datblygu economaidd. Gwnaeth y rhanddeiliaid hyn adrodd eu bod hwythau, yn eu tro, wedi ymweld â safle'r contractwr Busnes Cymru i hysbysu cynghorwyr busnes am y cymorth y maent yn ei ddarparu i fusnesau a'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cymorth hwn.
 - Yn ogystal, gwnaeth rhai awdurdodau lleol adrodd eu bod wedi gweithio gyda chontractwyr Busnes Cymru er mwyn cyflenwi gweithdai ar y cyd yn yr ardal leol. Roedd yr awdurdodau lleol wedi recriwtio a hyrwyddo'r digwyddiadau i fusnesau ac entrepreneuriaid lleol tra oedd tîm Busnes Cymru wedi cyflenwi sesiynau hyfforddi a oedd wedi'u teilwra i adlewyrchu diddordebau busnesau lleol ac a oedd wedi'u gosod yng nghyd-destun yr ardal leol.
- 5.72 Gwnaeth Banc Datblygu Cymru adrodd bod ganddo broses o ganlyniad i hyn i hysbysu ei holl gleientiaid sy'n gwneud cais am gyllid fod modd iddynt gael

mynediad at gymorth ychwanegol gan Busnes Cymru, ac, os ydynt yn rhoi eu caniatâd, mae Busnes Cymru yn anfon eu manylion ymlaen at Busnes Cymru.

- 5.73 Gwnaeth Banc Datblygu Cymru adrodd nad oedd wedi derbyn llawer o atgyfeiriadau oddi wrth Busnes Cymru. Fodd bynnag, efallai nad yw hyn yn syndod gan fod y banc yn fenthyciwr pan fetha popeth arall ac mae Busnes Cymru yn cynnig gwasanaeth diduedd.
- 5.74 Nid oedd unrhyw un o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld wedi adrodd unrhyw ymgysylltiad penodol â'r contractwyr sy'n cyflenwi'r Rhaglen Cyflymu Twf. Roedd yn syndod mawr nad oedd system atgyfeirio ar waith ar gyfer cwsmeriaid oddi fewn Banc Datblygu Cymru a oedd yn derbyn buddsoddiadau ecwiti gan y tybir bod gan eu busnesau botensial mawr i dyfu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn dweud nad yw'r Rhaglen Cyflymu Twf yn cefnogi'r busnesau hyn gan eu bod efallai wedi cael eu recriwtio trwy lwybrau eraill.
- 5.75 Adroddodd contractwr y Rhaglen Cyflymu Twf fod y gofynion twf ar gyfer cael mynediad at y Rhaglen Cyflymu Twf yn golygu na fyddai llawer o fusnesau sy'n cael mynediad at ffurfiau eraill o gymorth i fusnesau ar gyfer y sector cyhoeddus neu breifat yn bodloni ei meini prawf cymhwysedd. Felly, yn hytrach na datblygu systemau atgyfeirio ffurfiol, roeddent yn gweithio'n agos gydag unigolion arbennig sy'n gweithio mewn ardaloedd lleol er mwyn nodi busnesau sy'n cymryd camau y gallai arwain at dwf mawr (megis ehangu eu gweithrediadau gweithgynhyrchu, neu gyflwyno cynnyrch neu wasanaeth newydd).

Gweithgareddau Entrepreneuriaeth leuenctid

- 5.76 Yn ogystal â'r ddarpariaeth sy'n cael ei chyflwyno mewn ysgolion, roedd y contractwr hefyd yn gweithio gyda sefydliadau'r trydydd sector a chymdeithasau busnes lleol i gyflwyno sesiynau Grymuso. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau megis Ymddiriedolaeth y Tywysog a'r Ffermwyr Ifanc. Gwnaeth y contractwr Entrepreneuriaeth leuenctid gyflwyno rhaglenni oedd wedi'u teilwra ar gyfer pobl ifanc sy'n cymryd rhan yn ei weithgareddau.
- 5.77 Gwnaeth y contractwr adrodd dyhead i weithio gydag amrediad ehangach o sefydliadau er mwyn cyflwyno'r sesiynau Entrepreneuriaeth leuenctid. Roedd yn teimlo y byddai hyn yn ei alluogi i dargedu cymorth tuag at unigolion sydd efallai â chynlluniau pendant yn barod ynglŷn â dechrau busnes yn y pendraw (fel yn achos

y Ffermwyr Ifanc) neu i gyflenwi cymorth sydd wedi'i deilwra i bobl ifanc sydd o dan anfantais yn y farchnad lafur.

- 5.78 Roedd y partneriaid y gwnaethom eu cyfweld yn credu bod y cymorth yr oeddent wedi'i dderbyn trwy'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi'i drefnu'n dda. Roeddent yn credu bod y staff Entrepreneuriaeth leuenctid wedi treulio amser i adnabod eu gofynion, a bod y sesiwn yr oeddent wedi'i chyflwyno yn addas ac wedi'i theilwra ar gyfer eu haelodau.

Cydlyniant rhwng rhaglenni Busnes Cymru

- 5.79 Gwnaeth y contractwyr a thimau rhaglen a gyfwelwyd nodi rhai systemau atgyfeirio sefydledig ymysg contractwyr, yn fwyaf nodedig:

- Atgyfeiriadau rhwng timau'r Rhaglen Cyflymu Twf a thimau Craidd a Thwf Busnes Cymru, lle y byddai buddiolwyr Lefel 4 â photensial twf mawr yn cael eu hatgyfeirio i'r Rhaglen Cyflymu Twf yn gyffredinol a byddai buddiolwyr Lefel 5 nad oeddent yn bodloni disgwyliadau twf y rhaglen yn cael eu trosglwyddo i Raglen Craidd a Thwf Busnes Cymru.
- Atgyfeiriadau o Entrepreneuriaeth leuenctid i Busnes Cymru. Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi rhagori ar ei thargedau ar gyfer atgyfeiriadau i Busnes Cymru, a phriodolwyd hyn at y ffaith fod rhai darparwyr Entrepreneuriaeth leuenctid (Busnes mewn Ffocws ac Antur Teifi) yn cyflwyno Rhaglen Craidd a Thwf Busnes Cymru yn ogystal, sy'n golygu bod gan eu cynghorwyr ddealltwriaeth dda o'r gwasanaethau y mae Busnes Cymru yn eu darparu a bod ganddynt berthnasau gwaith gyda chynghorwyr busnes Busnes Cymru.
- Mae atgyfeiriadau o'r Rhaglen Craidd a Thwf a'r rhaglen SFBE yn ymddangos fel petaent yn llai systematig ac arferol. Gwnaeth rhai cynghorwyr busnes SFBE a Busnes Cymru adrodd eu bod yn atgyfeirio buddiolwyr yn rheolaidd tuag at y rhaglen arall. Fodd bynnag, mae'r contractwr yn credu'n gyffredinol fod nifer fach (oddeutu 10%) o fuddiolwyr Busnes Cymru yn cael eu hatgyfeirio i'r rhaglen SFBE, ac maent yn credu y dylai'r ffigur hwn fod yn uwch. Roedd cynghorwyr busnes SFBE yn teimlo y gallai hyn fod oherwydd bod rhai cynghorwyr busnes yn y gwasanaeth Craidd a Thwf yn credu bod SFBE yn canolbwyntio'n bennaf ar

fanteisio ar fand eang, pan mae ei gylch gwaith llawer yn ehangach mewn gwirionedd, gan ei fod yn cwmpasu marchnata a chyflwyno systemau rheoli busnes trwy ddefnyddio band eang.

- Yn yr un modd, adroddwyd yn ogystal fod nifer fach o atgyfeiriadau rhwng y llinell gymorth a'r rhaglen SFBE a chafodd hyn ei nodi gan y contractwr fel maes sydd angen ei wella trwy ddealltwriaeth well o'r hyn y mae SFBE yn ei gynnig o fewn tîm y llinell gymorth.

6. Canlyniadau, effeithiau a gwerth ychwanegol sy'n dod i'r amlwg

6.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canlyniadau ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg o'r rhaglenni ac yn archwilio eu gwerth ychwanegol. Yn benodol, mae'n cyflwyno'r isod:

- Y rhesymau pam fod unigolion wedi cael mynediad at raglenni Busnes Cymru, o ran eu hanghenion cymorth a'r rhesymau pam y gwnaethant ddewis Busnes Cymru dros ffynonellau cymorth eraill
- Pa newidiadau mae buddiolwyr wedi eu gwneud o ganlyniad i'r cymorth y gwnaethant ei dderbyn, a'r effaith y cafodd hyn ar eu busnesau
- Y graddau yr oedd y rhaglenni wedi cyflawni eu hamcanion o gefnogi twf busnes, ysgogi dechrau busnesau a chreu tirwedd fwy entrepreneuraidd
- I ba raddau mae model y rhaglen wedi'i alinio â pholisïau a rhaglenni economaidd cyfredol Llywodraeth Cymru, ac yn adlewyrchu anghenion y farchnad lafur

6.2 Mae'r bennod yn tynnu oddi ar gyfweiliadau ansoddol gyda buddiolwyr a dadansoddiad eilaidd o'r Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid Busnes Cymru, dadansoddiad o ffurflen werthuso'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid, adroddiad Aeddfedrwydd Digidol 2018, ac astudiaethau achos y Rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym lawn (SFBE). Mae hefyd yn tynnu oddi ar ddadansoddiad o ddatblygiadau polisi yng Nghymru ac ar ddadansoddiad o'r data economaidd ac ar y farchnad lafur a'r System Cyfrifon Busnes.

Canfyddiadau allweddol

Y rhesymau dros fynediad busnesau a'u canlyniadau

- Dywedodd nifer o ymatebwyr busnes y Rhaglen Craidd a Thwf i'r Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid eu bod wedi derbyn cymorth ynglŷn â dechrau busnes a rheoli busnes yn gyffredinol, gyda chyfrannau uwch o fusnesau Lefel 3 a Lefel 4 yn cael cyngor a chymorth ar bynciau penodol. Gwnaeth y cyfweleion nodi bod hyn yn cwmpasu amrediad eang o bynciau a bod y rhain

yn datblygu'n fwy arbenigol ar gyfer busnesau Lefel 3 a 4. Roedd ymatebwyr y Rhaglen Cyflymu Twf yn cael eu cefnogi wrth fasnachu'n rhyngwladol yn amlach.

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r arolwg yn teimlo bod y cyngor a'r cymorth wedi cael effaith gadarnhaol ar eu busnes (78%), gyda 47% yn dweud ei bod yn gadarnhaol iawn. Roedd y rhan fwyaf o fuddiolwyr busnes Lefel 1 a 2 yn adrodd bod y cymorth wedi cynyddu eu hyder o ran goroesi a thyfu eu busnes a'u galluogi i gystadlu'n effeithiol (tua dau draean neu'n well). Yn gyffredinol, roedd hyn yr un peth ar gyfer busnesau Lefel 3 a 4, busnesau'r Rhaglen Cyflymu Twf a busnesau SFBE.
- Dywedodd busnesau ac entrepreneuriaid a gefnogwyd ar bob lefel eu bod wedi gwneud gwelliannau i'w gweithgareddau busnes o ganlyniad i'r cyngor a'r cymorth roeddent yn eu derbyn. Gallai'r rhan fwyaf gyfeirio at effeithiau cadarnhaol ar eu heffeithlonrwydd neu drosiant. Ar gyfer busnesau Lefel 3 a 4, roedd hyn yn cynnwys newidiadau i'w systemau cyllid ac adnoddau dynol, marchnata a chydymffurfiaeth. Yn y Rhaglen Cyflymu Twf, roedd dwysedd y cymorth a ddarparwyd i fusnesau yn dibynnu ar raddfa'r newid roeddent yn ei wneud i'w sefydliad. Roedd y rheini a oedd yn gwneud newidiadau nawr (megis adleoli eu gweithrediadau gweithgynhyrchu yng Nghymru, neu'n lansio cynnyrch newydd) yn adrodd am effeithiau uwch o'r cymorth roeddent yn ei dderbyn. Mae busnesau SFBE wedi profi cynnydd mewn effeithlonrwydd ac wedi datblygu eu sail cwsmer ar ôl derbyn cymorth.
- Mae gweithgareddau Ymgysylltu'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth pobl ifanc ynglŷn â dechrau busnes drwy gynyddu eu cymhelliant a'u hyder. Mae'r contractwr cyflenwi a'r rhanddeiliaid yn credu bod gweithgareddau Cyfarparu'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi helpu pobl ifanc sydd wedi cymryd rhan i wneud cynnydd tuag at ddechrau busnes. Dywedodd rhai o'r cyfranogwyr fod y sesiynau bwtcamp wedi eu cynorthwyo i ddechrau busnes er nad dyna oedd y catalydd.

Effeithiau

- Mae'r rhaglenni wedi galluogi'r rhan fwyaf o fusnesau i gael mynediad at gyngor a chymorth, na fyddent wedi gwneud fel arall. Dim ond 16% o fusnesau Lefel 1 a hanner y busnesau Rhaglen Cyflymu Twf a wnaeth ymateb i'r arolwg oedd wedi cael mynediad at gymorth preifat, gan awgrymu bod y rhaglen yn mynd i'r afael â methiant ar y farchnad. Esboniodd y busnesau a gafodd eu cyfweld fod hyn oherwydd bod y rhaglenni yn ddi-dduedd, am ddim ac y gellir ymddiried ynddynt, yn ogystal â bod yn hygyrch / darparu'r cyngor roedd ei angen arnynt.
- Mae'r rhaglenni wedi creu twf busnes. Mae busnesau Lefel 4 ac yn arbennig y busnesau Rhaglen Cyflymu Twf wedi cynyddu allforion o £66 miliwn (£183,000 fesul busnes a gefnogwyd), gan greu dros 8,200 o swyddi (yn amrywio o gyfartaledd o 0.6 swydd cyfwerth ag amser llawn ar gyfer busnesau Lefel 1 i 2.8 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ar gyfer busnesau Lefel 4 ac 8.4 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ar gyfer busnesau'r Rhaglen Cyflymu Twf).
- Mae'r rhaglenni wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at greu tirwedd fwy entrepreneuriaidd a chefnogi busnesau newydd. Mae'r Rhaglen Craidd a Thwf eisoes wedi ymgysylltu â dros 4,000 o entrepreneuriaid, gyda thua thraean yn mynd yn eu blaenau i ddechrau busnes. Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi gwella dyheadau pobl ifanc, gyda dau draean yn nodi iddi eu helpu i sylweddoli beth y gallent ei gyflawni a 40% yn nodi iddi wneud iddynt feddwl am ddechrau busnes.

Cyfatebolrwydd a gwerth ychwanegol

- Mae cytundeb cyffredinol ymhlith darparwyr cymorth busnes fod rhaglenni Busnes Cymru yn ategu cymorth busnes arall a gynigir a'u bod yn llenwi bwlch mawr o ran yr hyn sydd ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o entrepreneuriaid a busnesau. Maent yn cadarnhau bod busnesau wedi adrodd bod y Rhaglen Craidd a Thwf a'r Rhaglen Cyflymu Twf wedi darparu cyngor a chymorth sydd wedi eu galluogi i gael mynediad llwyddiannus at gyllid. Maent wedi cydnabod y byddai ceisiadau wedi bod yn llai tebygol o fod yn llwyddiannus heb y cymorth.
- Gwnaeth yr ysgolion a phobl ifanc adrodd bod y sesiynau Entrepreneuriaeth

leuenctid yn ddefnyddiol. Gwnaeth dau draean o'r bobl ifanc adrodd iddynt gael effaith sylweddol ar eu gwybodaeth am ddechrau busnes. Yn y cyfweiliadau ansoddol, gwnaeth y cyngor busnes a'r sesiynau bwtcamp hefyd dderbyn adborth cadarnhaol.

- Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi galluogi ysgolion a cholegau i ddiwallu anghenion pobl ifanc o ran dysgu am entrepreneuriaeth, er bod hyn yn ddisgwyliedig fel rhan o'r cwricwlwm. Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi ategu gwaith grwpiau sy'n cefnogi pobl ifanc i'w helpu i bontio tuag at gyflogaeth.
- Ers i'r rhaglenni gael eu sefydlu, mae gwerth ychwanegol gros fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru wedi cynyddu ac mae'r bwlch rhwng Cymru a gweddill y DU wedi gostwng (o 1.4 pwynt canran). Mae busnesau newydd wedi parhau i gynyddu (er bod hynny yn arafach nag mewn mannau eraill o'r DU). Mae cryn dipyn yn llai o bobl yng Nghymru na mannau eraill yn y DU (Monitor Entrepreneuriaeth y Byd, 2017) yn credu bod cyfleoedd da ar gyfer busnesau newydd.
- Mae'r rhaglenni yn parhau i gyd-fynd â blaenoriaethau polisi'r llywodraeth yn y Cynllun Gweithredu Economaidd ar gyfer Cymru, gan gynnwys camau gweithredu ar allforion, masnach, entrepreneuriaeth ac arferion busnes cyfrifol, fel yr amlinellwyd yng nghontract Llywodraeth Cymru gyda busnesau.

Y rhesymau y gwnaeth busnesau gael mynediad at Fusnes Cymru


Anghenion cymorth ar gyfer buddiolwyr Lefel 1–2

- 6.3 Mae'r Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid yn dangos bod galw arbennig o gryf ar gyfer cymorth i fusnesau newydd ymhlith busnesau Lefel 1–2 (gweler Ffigur 6.1). Dywedodd bron i dri chwarter (71%) yr ymatebwyr i'r arolwg mai dyma'r prif reswm roeddent wedi cael mynediad at y rhaglen.³¹ Roedd dros dri chwarter (76%) o fusnesau Lefel 1 eisiau cymorth gyda dechrau busnes o'i gymharu â hanner union o'r busnesau Lefel 2.

³¹ Fodd bynnag, gallai hyn fod wedi gogwyddo oherwydd roedd 127 o'r ymatebwyr yn fusnesau Lefel 1 (h.y. busnesau newydd / unig fasnachwyr) a dim ond 32 oedd yn fusnesau Lefel 2 yn y sampl.

- 6.4 Dilynwyd hyn gan gymorth ar **reoli busnes yn gyffredinol**. Dywedodd 52% o'r ymatebwyr i'r arolwg mai dyma oedd y prif reswm pam y gwnaethant gael mynediad at y rhaglen. Yn yr ymateb testun agored i'r arolwg, gwnaeth yr ymatebwyr adrodd yn bennaf eu bod eisiau cymorth ar gyfer cynllunio busnes, ymchwil i'r farchnad neu farchnata, a chynllunio ariannol.

Ffigur 6.1 Mathau o gyngor neu gymorth y gwnaeth buddiolwyr Lefel 1–2 Busnes Cymru eu derbyn



Ffynhonnell: Cam 3 yr Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid (n=159)

- 6.5 Dywedodd y cyfweleion ansoddol fod llawer o debygrwydd o ran anghenion busnesau Lefel 1 a 2 ond bod y rhai ar Lefel 1 yn fwy tebygol o ofyn am gymorth ar gyfer materion penodol (e.e. tendro, diogelu data a'r GDPR), tra bo'r rhai ar Lefel 2 yn fwy tebygol o fod eisiau cymorth ar brosesau busnes ehangach a syniadau allanol ar gynlluniau busnes neu gyfleoedd datblygu. Gwnaeth buddiolwyr a phartneriaid cyflenwi hefyd nodi galw mawr am gymorth er mwyn cael mynediad at gyllid, megis gwybodaeth am grantiau a chymhellion ariannol sydd ar gael i fusnesau neu entrepreneuriaid.


Anghenion cymorth ar gyfer buddiolwyr Lefel 3–4

- 6.6 Fel y dangosir yn Ffigur 6.2, gwnaeth cyfran uchel o ymatebwyr Lefel 3–4 hefyd gael mynediad at Fusnes Cymru i dderbyn cymorth i fusnesau newydd

(48%) a rheoli busnes yn gyffredinol (47%), er i raddau llai na buddiolwyr Lefel 1–2. Roedd buddiolwyr Lefel 3–4 yn fwy tebygol o ofyn am gymorth mewn meysydd a fyddai'n arwain at dwf, megis tendro ar gyfer contractau, masnachu'n rhyngwladol a datblygu sgiliau.

- 6.7 Cafodd hyn ei gadarnhau yn y cyfweiliadau ansoddol gyda busnesau Lefel 3–4. Yr hyn a oedd fwyaf cyffredin oedd eu bod yn dymuno derbyn cymorth ar faterion megis marchnata a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a chynghor o ran e-fasnach. Roedd llai yn dymuno cymorth ar gyfer cael mynediad at gyllid neu gymorth ar gyfer paratoi 'achos busnes' ar gyfer buddsoddiad.

Ffigur 6.2 Mathau o gyngor neu gymorth y gwnaeth buddiolwyr Lefel 3–4 Busnes Cymru eu derbyn




Ffynhonnell: Cam 3 yr Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid (n=93)

Anghenion cymorth buddiolwyr y Rhaglen Cyflymu Twf

- 6.8 Fel y dangosir yn Ffigur 6.3, roedd y rhan fwyaf o fuddiolwyr y Rhaglen Cyflymu Twf eisiau cyngor rheoli busnes yn gyffredinol. O'r ymatebwyr a oedd wedi cael mynediad at neu wedi derbyn cyngor cyffredinol ar ddechrau busnes, roedd hwn yn dueddol o fod yn gyngor ar agweddau digidol (TG / gwefan / cyfryngau cymdeithasol); adolygu eu busnes / lle yn y farchnad (gwneud cynlluniau busnes); gwerthiant neu farchnata; a chael mynediad at gyllid, grantiau neu arian. Nid oedd hyn yn wahanol iawn i anghenion

buddiolwyr Lefel 3–4. Fodd bynnag, roedd buddiolwyr y Rhaglen Cyflymu Twf yn fwy tebygol o fod angen cymorth wrth fasnachu'n rhyngwladol ac eisiau cymorth 'arall', gyda llai oedd ag angen help gyda contractio.

Ffigur 6.3 Mathau o gyngor neu gymorth y gwnaeth buddiolwyr y Rhaglen Cyflymu Twf eu derbyn



Ffynhonnell: Cam 3 yr Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid (n=50)

6.9 Gwnaeth buddiolwyr y Rhaglen Cyflymu Twf a gafodd eu cyfweld gael mynediad at y gwasanaeth am amrywiaeth o resymau. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Eisiau cyngor a chymorth ar symud eu sylfaen gynhyrchu o dramor i Gymru
- Eisiau cyngor ar weithgynhyrchu a marchnata cynnyrch newydd
- Eisiau cymorth i symud eu swyddogaeth gynhyrchu i safle mwy
- Eisiau creu safle manwerthu mewn ardal newydd

6.10 Yn nodweddiadol, roedd hyn angen cymorth oddi wrth ymgynghorwyr busnes yn ogystal â sefydliadau allanol fel rheolwyr eiddo, cyfreithwyr, ac arbenigwyr mewn logisteg a threfnu contractau allanol.

Canlyniadau'r cymorth i fuddiolwyr

6.11 Yn gyffredinol, roedd dros dri chwarter (78%) o'r ymatebwyr i'r Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid yn teimlo bod y cyngor a'r cymorth roeddent wedi'u derbyn oddi wrth y gwasanaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar eu busnes, gyda 47% yn nodi ei bod yn effaith gadarnhaol 'iawn'. Yn benodol, roedd y rheini a fynychodd y gweithdai neu a gafodd fynediad i gymorth busnes Lefel 4 yn teimlo bod y gwasanaeth wedi cael effeithiau cadarnhaol. Roedd enghreifftiau o effeithiau busnes a roddwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg yn cynnwys y canlynol:

- Sefydlu neu ymestyn eu busnes (e.e. drwy sicrhau cyllid ar gyfer gofod swyddfa) neu sefydlu prosesau er mwyn dechrau busnes (e.e. diogelu data)
- Newid cynlluniau busnes, strategaethau neu gyfeiriad yn dilyn y cyngor a dderbyniwyd
- Dod o hyd i gyfleoedd newydd ar gyfer tyfu'r busnes (e.e. ymuno â marchnad newydd neu bartneriaethau newydd)
- Gwella cyllid, gan gynnwys llif arian a sicrhau cymorth ariannol

6.12 Mae gweddill yr adran hon yn ystyried y canlyniadau a'r effeithiau yn ôl y math o gymorth busnes y cafwyd mynediad ato.

Buddiolwyr Lefel 1–2

6.13 Ymhlith buddiolwyr Lefel 1–2, effaith fwyaf cyffredin y rhaglen oedd gwella eu strategaethau a'u cynlluniau. Yn yr Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid a'r cyfweiliadau ansoddol, y buddiannau mwyaf cyffredin a gafodd y buddiolwyr o'r cymorth oedd yr isod:

- Gwneud gwelliannau i gynlluniau busnes a rhagolygon ariannol (roedd hyn yn gyffredin ar gyfer busnesau a oedd yn bodoli eisoes yn ogystal â busnesau newydd)
- Cymorth a chyngor ynglŷn â recriwtio aelodau newydd o staff, drwy helpu i gasglu gwybodaeth i ddatblygu disgrifiadau swyddi a thrwy hysbysebu swyddi gwag
- Gwella ansawdd y tendrau maent yn eu cyflwyno

- Gwella eu dogfennau busnes, megis ffurflenni caniatâd a datganiadau diogelu data
- Eu cefnogi i weithredu systemau newydd, megis pecynnau cyfrifyddu a systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM)

6.14 Gwnaeth rhai o'r busnesau hyn adrodd bod y newidiadau hyn eisoes wedi eu galluogi i ddenu gwaith newydd, a chreu ychydig o effeithlonrwydd i'w busnesau a oedd wedi hybu proffidioldeb. Roedd y rhan fwyaf hefyd yn hyderus y byddai'r cymorth yn cael effeithiau tymor hwy ar eu busnes, fel y dangosir yn Tabl 6.1.

Tabl 6.1 Busnesau yn adrodd am gynnydd o ran hyder yn dilyn cymorth

Roedd cymorth Busnes Cymru wedi cael effaith gadarnhaol iawn neu weddol gadarnhaol ar:	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5
Hyder y bydd y busnes yn goroesi	70% (85/121)	83% (24/29)	74% (36/49)	72% (30/42)	70% (34/49)
Hyder y bydd y busnes yn tyfu	71% (87/122)	75% (24/32)	63% (31/49)	83% (33/41)	75% (36/48)
Hyder y bydd y busnes yn gallu cystadlu'n fwy effeithiol yn y farchnad	66% (49/74)	85% (17/20)	75% (26/35)	84% (32/38)	66% (29/44)

Ffynhonnell: Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid, Cam 3

- 6.15 Gwnaeth yr Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid hefyd ddarganfod bod 86% o fuddiolwyr Lefel 1–2 yn dweud eu bod wedi datblygu gwell gwybodaeth o ffynonellau hyfforddiant i fynd i'r afael â'u hanghenion dysgu, sy'n unol â'r buddiannau a nodwyd gan fuddiolwyr Lefel 3, Lefel 4 a Lefel 5, a dderbyniodd cymorth mwy dwys.
- 6.16 Yn debyg, yn y cyfweiliadau ansoddol, gwnaeth rhai buddiolwyr adrodd efallai mai effaith fwyaf sylweddol y rhaglen iddynt hwy oedd gwella eu hyder a darparu peth sicrwydd, gan *“ein bod yn gwybod bod cymorth ar gael os bydd ei angen arnom”*.

"Dwi'n credu eu bod yn darparu cymorth da, yn arbennig ar gyfer pobl sy'n dechnegol a heb unrhyw brofiad rheoli, profiad mewn marchnata a phethau fel 'na, ac maen nhw'n helpu pobl i ddatblygu eu strategaeth gydag ychydig o hyfforddiant ac ychydig o gymorth. Dwi'n credu taw dyna le maent ar eu gorau – rhywun sydd â phrofiad rheoli mewn rhedeg busnes fel unigolyn proffesiynol. Mae'n dda iawn oherwydd dyw rheolwyr proffesiynol fwy na thebyg ddim ei angen, ond gallai'r rhan fwyaf o bobl sy'n rhedeg mentrau bach neu ganolig efallai fod wedi dod oddi ar y teithiau eu hunain a dwi'n credu eu bod yn darparu gwasanaeth arbennig o dda i godi ymwybyddiaeth."

Busnes Lefel 2

Buddiolwyr Lefel 3–4

- 6.17 Yn y cyfweiliadau ansoddol, y canlyniad mwyaf cyffredin a adroddwyd gan fuddiolwyr oedd cael mynediad at gyllid ychwanegol. Dywedodd bron i draean o'r cyfweleion eu bod wedi gwneud cais am gyllid yn dilyn cyngor oddi wrth Fusnes Cymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd hyn yn bennaf yn sgil ymgynghorwyr busnes yn cyfeirio'r unigolyn at fathau eraill o fuddsoddiad neu gymorth ariannol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd y buddiolwr hefyd yn adrodd bod yr ymgynghorydd busnes wedi ei helpu i gwblhau'r ffurflen gais.
- 6.18 Cafodd y cyllid ei ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau i wella cynhyrchiant, gan gynnwys buddsoddi mewn offer newydd a chyflogi staff a allai arbenigo mewn maes penodol (er enghraifft, gwnaeth un cwmni adrodd am gyflogi dylunydd gwe er mwyn datblygu platfform gwerthu ar-lein). Mewn ychydig o achosion, gwnaeth y buddiolwyr hefyd adrodd am gael mynediad at gyllid er mwyn caffael busnes arall, a oedd yn helpu i gynyddu trosiant. Er bod y rhan fwyaf o'r buddiolwyr wedi nodi efallai y byddent wedi cael mynediad at y cyllid heb gymorth Busnes Cymru, dywedodd rhai y byddai wedi cymryd mwy o amser fwy na thebyg, neu byddai wedi bod ar raddfa lai neu'n aflwyddiannus.
- 6.19 Gwnaeth y rhan fwyaf o fusnesau adrodd am wneud newidiadau i'w busnes o ganlyniad i dderbyn cymorth Busnes Cymru. Roedd y newidiadau hyn yn bennaf i systemau monitro a rheoli, er enghraifft:

- Gwnaeth rhai buddiolwyr newidiadau i'w systemau ariannol. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio meddalwedd cadw cyfrifon newydd neu dempledi Excel i fonitro gwariant. Fel y dywedodd un: *"Gwnaeth hyn ein helpu i gyrraedd yr 21ain ganrif."*
- Gwnaeth rhai buddiolwyr newidiadau i'w marchnata. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio sianeli newydd (cyfryngau cymdeithasol yn bennaf) neu ddulliau gweithredu newydd (megis cyflwyno cardiau teyrngarwch). Roeddent hefyd yn cynnwys gwneud newidiadau i'r negeseuon allweddol maent yn eu defnyddio i hyrwyddo eu busnes. Er enghraifft, dywedodd un, *"Gwnaeth yr ymgynghorydd ein helpu ... i ganolbwyntio ar bethau penodol, megis y cyswllt cyntaf... [G]wnaeth siarad â ni ynglŷn â sut i ffurfio ein rhaglen waith."* Dywedodd un arall, *"Roeddem yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol o'r blaen, ond mewn ffordd oedd heb ei chynllunio. Gwnaeth yr ymgynghorydd ein helpu i ddatblygu strategaeth ynglŷn â sut y dylem fod yn eu defnyddio."*
- Gwnaeth ychydig o fuddiolwyr adrodd am wneud newidiadau i'w prosesau adnoddau dynol. Dywedodd un iddo gael argymhelliad am asiantaethau recriwtio yn ei sector gan ei fod wedi profi heriau o ran recriwtio staff. Gwnaeth buddiolwr arall adrodd am ddiweddarau ei lawlyfr staff yn dilyn cyngor gan ymgynghorydd busnes. Nododd fod hyn *"yn gwneud i staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'n bod yn eu cefnogi"*.

6.20 Ar gyfer entrepreneuriaid, y prif newidiadau a wnaethant oedd:

- Datblygu rhagolwg ariannol mwy realistig. Gwnaeth ychydig o entrepreneuriaid adolygu eu rhagolygon ariannol ar gyfer eu cynllun busnes ar ôl derbyn cyngor oddi wrth ymgynghorydd busnes. Yn y rhan fwyaf o achosion, gwnaethant nodi bod y rhagolygon gwreiddiol yn seiliedig ar dybiaethau a oedd yn rhy optimistaidd ac afrealistig.
- Ystyried cynlluniau wrth gefn a risgiau. Gwnaeth un buddiolwr ddatblygu cynllun wrth gefn, nad oedd wedi'i ystyried yn flaenorol. Roedd y cynllun wrth gefn yn cynnwys dulliau gweithredu i gael mynediad at fathau eraill o gyllid pe bai dirywiad o ran gwaith a threfniadau staffio yn y dyfodol. Gwnaeth un arall ddatblygu cofrestr risg ar gyfer ei fusnes.

- Gwell cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol. Gwnaeth ychydig dderbyn cyngor ar ofynion yswiriant ac iechyd a diogelwch ar gyfer eu sector, a gwnaeth un arall dderbyn cyngor ar ddatblygu contractau cyflogaeth, a oedd heb fod ar waith.

- 6.21 Mae'r Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid yn dangos bod y rhaglenni wedi cael effaith sylweddol ar wella hyder buddiolwyr Lefel 3–4 yn eu busnesau. Yn gyffredinol, roedd 74% o fusnesau Lefel 3 ac 84% o fusnesau Lefel 4 yn teimlo ar ôl derbyn cymorth eu bod yn fwy hyderus y gallai eu busnes gystadlu'n fwy effeithiol yn eu marchnad. Roedd hyn yn debyg i fuddiolwyr Lefel 2% (85%) ac yn uwch na busnesau Lefel 1 (66%).
- 6.22 Roedd y rhan fwyaf o fuddiolwyr (73% o fuddiolwyr Lefel 3 ac 81% o fuddiolwyr Lefel 4) yn adrodd ar ôl derbyn cymorth eu bod yn fwy hyderus y byddent yn goroesi ac roedd 63% o fusnesau Lefel 3 ac 83% o fusnesau Lefel 4 yn hyderus y byddai eu busnes yn tyfu. Fodd bynnag, roedd buddiolwyr Lefel 3 yn llai hyderus y byddai eu busnesau yn goroesi neu'n tyfu na'u busnesau Lefel 2 cyfatebol, er eu bod yn fwy o ran maint. Dangosir hyn gan yr arolwg, sy'n dangos bod 31% o fuddiolwyr Lefel 1–2 wedi adrodd nad oedd y gwasanaeth wedi cael unrhyw effaith gadarnhaol ar eu hyder y byddai eu busnesau yn tyfu, o gymharu â 37% o fuddiolwyr Lefel 3.

Buddiolwyr y Rhaglen Cyflymu Twf

- 6.23 Dywedodd busnesau iddynt dderbyn cymorth dwys yn bennaf pan oeddent yn gwneud newid mawr i'w sefydliad. Er enghraifft:
- Gwnaeth ychydig o fusnesau dderbyn cymorth ar gyfer symud eu gweithrediad gweithgynhyrchu i Gymru. Yma gwnaethant dderbyn cyngor a chymorth o ran prynu a gosod eiddo, recriwtio, a delio â chaniatâd cynllunio. Gwnaeth hyn greu swyddi newydd yng Nghymru.
 - Dywedodd un perchennog busnes iddo dderbyn cymorth i ddod yn weithgynhyrchwr ar ôl bod yn fewnforiwr yn flaenorol. Mantais y dull gweithredu hwn oedd ei fod yn cynyddu ei elw a swyddi yn yr ardal leol.
 - Gwnaeth buddiolwr arall adrodd iddo dderbyn cyngor i gefnogi caffael busnes arall.

"Rydym yn derbyn llawer o gymorth – ac mae tyfu busnes bach yn anodd iawn, mae'n rhaid i chi wneud penderfyniadau allweddol ... [M]ae'n ychydig o broses dal dwylo i ni, a fi yw'r unig un ar y bwrdd i wneud penderfyniadau, felly os ydym yn credu bod unrhyw beth y mae angen help neu gymorth arnom ynglŷn ag ef, rydym yn eu galw i mewn ... Mae pawb yn cyfrannu rhywbeth at y pair – mae ganddynt i gyd eu sgiliau a sail gwybodaeth a'u rhwydwaith personol eu hunain."

Busnes Lefel 5

- 6.24 Roedd busnesau nad oeddent yn gwneud newidiadau strwythurol mawr yn derbyn llai o gymorth dwys, ac roedd y buddiolwyr hyn yn adrodd am lai o effaith o'r cymorth. Fodd bynnag, nododd un o'r busnesau hyn, er enghraifft, iddo wella ei broffidioldeb o ganlyniad i gyngor ar gostio ei gynigion yn fwy effeithiol, a dywedodd un arall iddo arbed arian yn sgil y cyngor y gwnaeth ei dderbyn ynglŷn â phrynu gweithdy newydd.
- 6.25 Ar ôl derbyn cymorth, roedd 66% o fuddiolwyr Lefel 5 yn teimlo'n fwy hyderus y gallai eu busnes gystadlu'n fwy effeithiol yn eu marchnad. Roedd hyn yn is nag ar gyfer busnesau Lefel 1–2 a Lefel 3–4. Fodd bynnag, roedd cyfran gymharol uchel yn credu bod y cymorth yn rhoi mwy o hyder iddynt y byddai eu busnes yn tyfu (75%) ac yn goroesi (69%).
- 6.26 Roedd bron holl fusnesau'r Rhaglen Cyflymu Twf (11 allan o'r 13 o gyfweleion) yn teimlo bod y cyngor a'r cymorth a dderbyniwyd hefyd wedi cael effaith gadarnhaol neu weddol gadarnhaol ar eu gallu i adnabod darpariaeth hyfforddiant a mynd i'r afael ag anghenion sgiliau.

Buddiolwyr Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn

- 6.27 Mae astudiaethau achos a luniwyd fel rhan o Adroddiad Effaith Economaidd SFBE 2017³² a'i gyhoeddi ar-lein,³³ yn ogystal â'r cyfweiliadau ansoddol a gynhaliwyd gyda buddiolwyr SFBE ar gyfer yr adroddiad hwn, yn tynnu sylw at y mathau o welliannau a wnaed gan fusnesau i'w helpu i gystadlu yn y farchnad:

- **Cynnydd o ran effeithlonrwydd sy'n arwain at arbedion cost ac amser:**
Gwnaeth amrediad o fusnesau ddefnyddio technolegau digidol i gymryd lle

³² Ysgol Busnes Caerdydd (2017), op. cit.

³³ Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn i Fusnesau: Astudiaethau Achos. Ar gael ar-lein ar Fusnes Cymru: <https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/astudiaethau-achos>

technolegau traddodiadol, a wnaeth arwain at arbedion cost. Er enghraifft, gwnaeth un busnes symud i system ffôn yn seiliedig ar y rhyngwrdd (VoIP), a wnaeth arwain at 70% o arbedion cost ar alwadau a rhent llinell.³⁴ Yn y cyfweiliadau ansoddol, roedd hefyd enghreifftiau o fusnesau yn cyflwyno system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) er mwyn helpu i reoli eu data cwsmeriaid, a chanfuwyd bod hyn yn arbed diwrnod yr wythnos i'r tîm, a defnyddio cyfrifiadura cwmwl fel y gallai cyflogeion weithio'n fwy hyblyg.

- **Tyfu sail cwsmeriaid:** Dangosodd un astudiaeth achos fod busnes sy'n derbyn cymorth SFBE yn gallu deall yn well sut i gynyddu gwerthiannau drwy greu cais ffôn rhyngweithiol ar gyfer eu busnes a dargedwyd at sail cwsmeriaid iau.³⁵ Mae astudiaeth achos arall yn tanlinellu, o ganlyniad i weithdai ar y cyfryngau cymdeithasol a marchnata digidol, y gwnaeth busnes fodelu'r "*daith gyfan i gwsmeriaid*" i wella ei wasanaethau. Gwnaeth hyn arwain at fodlonrwydd cwsmeriaid uwch, a wnaeth yn ei dro arwain at gynydd mewn gwerthiannau.³⁶ Yn y cyfweiliadau ansoddol, gwnaeth y buddiolwyr hefyd adrodd am fynd i'r afael ag optimeiddio peiriannau chwilio a defnyddio dulliau gweithredu mwy effeithiol a dargedwyd yn well ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol neu werthu drwy eBay, a wnaeth wella gwerthiannau mewn ffordd debyg.
- **Cynydd o ran arloesedd:** Mae Arolwg Aeddfedrwydd Digidol 2017 yn dangos perthynas gadarnhaol rhwng mabwysiadu band eang cyflym iawn a chynydd o ran aeddfedrwydd digidol ac amllder gweithgarwch arloesi busnesau.³⁷ Yn yr astudiaethau achos, roedd enghreifftiau o fusnesau yn gwneud hyn, er enghraifft drwy ddefnyddio meddalwedd a alluogwyd gan y cwmwl i awtomeiddio'r gwaith o baratoi dogfennau cyfreithiol. Yn y

³⁴ Astudiaeth achos ar gael ar-lein: <https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/astudiaethau-achos/effeithlonrwydd-thwf-drwy-dechnoleg-i-gwmni-diogelu-data>

³⁵ Astudiaeth achos ar gael ar-lein: <https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/case-studies/cwmni-llechi-o-gymru-yn-tyfu-drwy-ddefnyddio-pwer-tri>

³⁶ Astudiaeth achos ar gael ar-lein: <https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/astudiaethau-achos/siop-stryd-fawr-yn-cynyddu-trosiant-170-y-cant-diolch-i-drawsnewidiad-digidol>

³⁷ Henderson ac eraill (2018), op. cit.

cyfweiliadau ansoddol, roedd hefyd enghreifftiau o fusnesau'n sefydlu gwefan neu'n gwerthu eu cynhyrchion ar-lein am y tro cyntaf.

- **Lleihau'r risgiau o golli data / mynediad diawdurdod at ddata:** Yn y cyfweiliadau ansoddol, dywedodd rhai buddiolwyr mai un o brif fanteision defnyddio technolegau megis cyfrifiadura cwmwl a systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) oedd ei fod yn gwella diogelwch manylion cwsmeriaid. Roedd defnyddio cyfrifiadura cwmwl yn hytrach na gweinyddion ffisegol hefyd yn lleihau'r risg o golli data pe bai achos o niwed.

- 6.28 Yn yr Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid, dywedodd dau draean (66%) o fuddiolwyr fod y cymorth yn eu gwneud yn fwy hyderus y gallent gystadlu yn eu marchnad. Yn ychwanegol, gwnaeth 59% adrodd eu bod yn fwy hyderus y byddai eu busnesau yn goroesi a gwnaeth 77% adrodd am fod yn fwy hyderus y byddai eu busnes yn tyfu. Mae'r olaf yn unol â defnyddwyr Rhaglen Craidd a Thwf Busnes Cymru.
- 6.29 Dywedodd cyfran gymharol uchel (30%) nad oedd y rhaglen yn eu gwneud yn fwy hyderus y byddai eu busnes yn goroesi. Fodd bynnag, gallai hyn fod oherwydd nad oeddent wedi rhagweld yn flaenorol fod nifer o risgiau i oroesiad eu busnes.

Y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid

- 6.30 Yn gyffredinol, mae staff cyflenwi a contractiwyd a modelau rôl yn credu bod y rhaglenni Ymgysylltu a Chyfarparu wedi bod yn effeithiol o ran codi ymwybyddiaeth pobl ifanc ynglŷn â dechrau busnes. Gwnaethant adrodd mewn ysgolion cynradd, er enghraifft, mai dim ond pobl ifanc gyda rhieni sy'n hunangyflogedig neu'n berchen ar fusnes sydd ag unrhyw ddyheadau ar gyfer gwneud hynny eu hunain, felly gall hyn newid dyheadau. Yn debyg, mewn ysgolion uwchradd, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc, yn arbennig y rheini sydd â dyheadau o ran mynd i'r brifysgol, ond wedi ystyried gweithio mewn rôl gyflogedig.
- 6.31 Mae staff cyflenwi a modelau rôl yn credu bod y rhaglen wedi ymgysylltu â phobl ifanc o'r holl gefndiroedd ac sydd â dyheadau galwedigaethol

gwahanol, o letygarwch a gwaith cynnal a chadw ar gerbydau modur i fusnesau technolegol newydd a dylunio gemau cyfrifiadurol.

- 6.32 Ni allai'r cyfweleion ddamcaniaethu sut roedd gweithgareddau Ymgysylltu a Grymuso wedi effeithio ar ddechrau busnesau yng Nghymru, gan brin yw'r data olrhain ar bobl ifanc ar ôl iddynt fynychu sesiynau yn sgil amharodrwydd ysgolion a cholegau i rannu data myfyrwyr neu geisio caniatâd.
- 6.33 Mae'r rhaglen wedi cyflawni amrediad o weithgareddau i fynd i'r afael â hyn a chynnal cyfathrebu â phobl ifanc a oedd â rhywfaint o ddiddordeb mewn dechrau busnes. Mae hyn yn cynnwys: arolygon electronig o fodlonrwydd cwsmeriaid yn dilyn digwyddiadau ymgysylltu i'w trosglwyddo i wefan Syniadau Mawr Cymru; porth cofrestru ar-lein i dderbyn canllawiau, cylchlythyron a chymorth ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein i fusnesau newydd; a'r defnydd o'r ap gwe Simply Do er mwyn olrhain pobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r gyfradd ymateb ar gyfer y gweithgareddau hyn wedi bod yn isel.
- 6.34 Yn y cyfweiliadau ansoddol, gwnaeth y modelau rôl hefyd adrodd nad oedd ganddynt wybodaeth am y nifer o bobl ifanc a oedd wedi symud ymlaen o'r rhaglen Cyfarparu i ddechrau busnes. Nid oedd y rhan fwyaf o'r modelau rôl yn ymwybodol o'r mecanweithiau hyn i olrhain dysgwyr ac nid oeddent yn eu hyrwyddo i'r rheini a oedd yn mynychu'r gweithdai.
- 6.35 Fodd bynnag, dywedodd un model rôl profiadol ei bod wedi cyfarfod â phobl ifanc ar ychydig o achlysuron a oedd wedi dechrau busnes ac a ddywedodd iddynt gael eu hysbrydoli gan y sesiwn Ymgysylltu. Gwnaeth y rhan fwyaf o fodelau rôl hefyd adrodd bod gan un neu ddau o gyfranogwyr fel arfer mewn sesiwn syniadau a chynlluniau datblygedig a oedd yn arwydd eu bod yn debygol o ddechrau busnes. Efallai y bydd pobl ifanc eraill yn y sesiwn yn dechrau busnes ond byddent ond yn debygol o fod mewn sefyllfa i wneud hynny sawl blwyddyn ar ôl y sesiwn.
- 6.36 Roedd y staff cyflenwi hefyd yn teimlo bod y sesiynau bwtcamp wedi cael effaith gadarnhaol ar helpu entrepreneuriaid i ddechrau busnes. Yn ein cyfweiliadau gyda chyfranogwyr y sesiynau bwtcamp, dywedodd y rhan fwyaf eu bod wedi dechrau busnes ar ôl mynychu'r sesiynau bwtcamp. Ystyriwyd

bod y sesiynau bwtcamp wedi *"gwneud y broses yn ddi-boen"*, er bod y rhan fwyaf wedi nodi y byddent fwy na thebyg wedi dechrau busnes heb gymorth y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid.

- 6.37 Nodwyd canlyniadau tebyg yn nadansoddiad Beaufort Research o ffurflenni gwerthuso'r rhaglen. Roedd hyn yn nodi bod y rhaglen Ymgysylltu wedi cael effaith sylweddol ar wella cymhelliant a hyder pobl ifanc. Canfuwyd fel a ganlyn:
- Gwnaeth 66% o ymatebwyr cyn-16 a 73% o ymatebwyr addysg bellach adrodd bod y rhaglen *"wedi helpu gwneud i fi sylweddoli beth y gallaf ei gyflawni"*
 - Gwnaeth 55% o ymatebwyr cyn-16 a 61% o ymatebwyr addysg bellach adrodd bod y rhaglen *"wedi fy ysbrydoli"*
 - Roedd 40% o fuddiolwyr cyn-16 a 46% o fuddiolwyr addysg bellach yn credu bod y sesiwn *"wedi gwneud i fi feddwl am ddechrau fy musnes fy hun"*
- 6.38 Gwnaeth y dadansoddiad a gwblhawyd gan Beaufort hefyd ddarganfod bod yr effeithiau yn uwch pan oedd gan y person ifanc aelod arall o'r teulu a oedd yn hunangyflogedig. Gwnaeth y modelau rôl hefyd adrodd bod y bobl ifanc hyn yn fwy tebygol o sylweddoli manteision fod yn hunangyflogedig cyn iddynt fynychu'r sesiwn.
- 6.39 Gwnaeth yr ymchwiliad hefyd ddarganfod yn gyffredinol fod 2% o'r ymatebwyr i'r arolwg wedi dechrau busnes a dywedodd 6% eu bod yn cynllunio gwneud hynny yn ystod y tair blynedd nesaf. Gwnaeth bron i dri chwarter (73%) nodi efallai y byddent yn dechrau busnes yn y dyfodol. Gwnaeth cyfran uwch o ymatebwyr addysg bellach adrodd am ddechrau busnes (4% o'i gymharu â 2% yn gyffredinol). Roedd pobl ifanc rhwng 20 a 24 oed yn llawer mwy tebygol o adrodd am ddechrau busnes (gwnaeth 12% hynny, o'i gymharu â 2% yn gyffredinol) neu'n cynllunio gwneud hynny yn ystod y tair blynedd nesaf (40% o'i gymharu â 6%).

Effaith y rhaglen

Cynyddu mynediad at gymorth busnes

- 6.40 Mae'r rhaglen wedi cynyddu mynediad busnes at gymorth busnes. Yn yr Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid, dywedodd llai na chwarter (21%) o fuddiolwyr eu bod wedi cael mynediad at gymorth busnes arall. Y sefydliadau a oedd yn lleiaf tebygol o fod wedi cael mynediad at fathau eraill o gymorth yn flaenorol oedd buddiolwyr Lefel 1 (adroddwyd gan 16%) a busnesau newydd (12%). Dim ond hanner y buddiolwyr Lefel 5 gafodd fynediad at gymorth busnes preifat, er eu bod yn disgwyl cyflawni cyfradd twf uchel.
- 6.41 Dywedodd rhanddeiliaid fod y rhaglen yn fwyaf tebygol o annog busnesau newydd i gael mynediad at gymorth busnes. Maen nhw a'u contractwyr yn credu bod unigolion sy'n dechrau busnes yn llai tebygol o fod â'r modd i nodi a buddsoddi mewn cymorth oddi wrth y sector preifat, yn arbennig y rheini sy'n cynllunio bod yn hunangyflogedig.
- 6.42 Gwnaeth y cyfweiliadau ansoddol hefyd nodi amrediad o resymau pam y gwnaeth unigolion gael mynediad at gymorth Busnes Cymru yn hytrach na chymorth oddi wrth y sector preifat. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:
- **Amhleidioldeb y gwasanaeth.** Roedd hwn yn rheswm arbennig o gyffredin pam y byddai buddiolwyr a oedd yn chwilio am gyllid yn troi at Fusnes Cymru. Roedd nifer o fuddiolwyr yn bryderus y byddai darparwyr neu fenthycwyr sector preifat yn hyrwyddo eu gwasanaethau eu hunain yn drwm, hyd yn oed pan nad oeddent yn angenrheidiol neu wedi'u prisio'n anghystadleuol. Yma roedd y buddiolwyr yn teimlo y byddai Busnes Cymru yn caniatáu iddynt gael cyfraddau cystadleuol ar gyfer cymorth allanol ac yn eu cyfeirio at y cymorth a fyddai'n ychwanegu'r gwerth mwyaf i'w busnesau yn eu barn nhw.
 - **Oherwydd ei fod yn wasanaeth am ddim.** Yn y cyfweiliadau ansoddol, roedd hwn yn ffactor arbennig o bwysig ar gyfer y rhan fwyaf o fuddiolwyr a oedd heb ymdeimlad clir o'r hyn roedd ei angen arnynt, ac o ganlyniad roeddent eisiau cael trafodaeth fwy archwiliadol yn gyntaf i nodi eu hanghenion ac yna trafod sut y gellid mynd i'r afael â hwy. Yma nid oedd

gwerth posibl y cymorth yn glir o'r dechrau, felly dywedodd y buddiolwyr na fyddent yn awyddus i fuddsoddi mewn cymorth busnes preifat, neu gymorth Busnes Cymru pe bai angen talu ffi.

- **Ansawdd 'brand' Llywodraeth Cymru.** Dywedodd rhai buddiolwyr, oherwydd bod y rhaglen yn cael ei chyflenwi gan Lywodraeth Cymru, eu bod yn cysylltu hyn ag ansawdd uchel. O ganlyniad, gwnaethant ddweud bod ganddynt fwy o hyder y byddai'r cymorth y byddent yn ei dderbyn o werth i'w sefydliad.
- **Fel llwybr ar gyfer mwy o wybodaeth am gymorth ariannol i fusnesau.** Nododd rhai buddiolwyr y byddai cael mynediad at raglen a ariennir gan y llywodraeth yn eu helpu i ddod o hyd i ffynonellau grantiau a chymorth eraill a oedd ar gael gan eu hawdurdodau lleol a grwpiau busnes eraill. Nid oedd y buddiolwyr hyn yn ymwybodol o sefydliadau eraill i gysylltu â nhw er mwyn derbyn y wybodaeth hon.

- 6.43 O ran cymorth gan y sector cyhoeddus, dywedodd y rhanddeiliaid mai prin oedd y ddarpariaeth a oedd ar gael a fyddai'n dyblygu'r gwaith a wnaed gan Fusnes Cymru. Gwnaeth timau datblygu economaidd adrodd ynglŷn â derbyn ymholiadau ar gyfer y grantiau a oedd ganddynt i'w cynnig a nododd rhai buddiolwyr eu bod yn ymwybodol o'r cymorth a ddarparwyd gan gymdeithasau cyflogwyr neu ddysgu gan gymheiriaid drwy rwydweithiau busnes. Fodd bynnag, yn gyffredinol roedd hyn ar raddfa fach neu mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol ac ni theimlwyd ei fod mor gynhwysfawr â'r cymorth sydd ar gael drwy Fusnes Cymru.

Creu twf busnes

- 6.44 Mae'r data yn dangos bod y rhaglen wedi cael effaith sylweddol ar gynyddu allforion a buddsoddiad mewn busnes a chreu swyddi. Ar gyfer yr holl allbynnau hyn, mae'r rhaglen yn perfformio'n dda yn erbyn ei allbynnau. Fodd bynnag, mae'r lefel a'r math o effeithiau yn amrywio yn ôl y mathau o fusnes / busnesau newydd. Caiff hyn ei ddadansoddi ymhellach yn y paragraffau canlynol.

Cynyddu allforion

- 6.45 Mae'r data yn dangos bod y rhan fwyaf (87%) o'r twf mewn allforion wedi'i gyflawni gan fusnesau Lefel 5 a oedd yn derbyn cymorth gan y Rhaglen Cyflymu Twf. Ar gyfartaledd, mae buddiolwr sy'n derbyn cymorth gan y Rhaglen Cyflymu Twf yn creu bron i £200,000 o gynnydd o ran allforion fesul buddiolwr sydd yn cymryd rhan yn y rhaglen, sy'n gyfartaledd llawer yn uwch na buddiolwyr Lefel 4 (£10,511) neu Lefel 3 (£376).
- 6.46 Mae'r data yn dangos hefyd fod cyfran fach iawn o fusnesau Lefel 1–4 wedi cynyddu allforion (llai nag 1%). Mewn gwrthgyferbyniad, gwnaeth 43% o fusnesau Lefel 5 gynyddu allforion ar ôl cael mynediad at gymorth gan y Rhaglen Cyflymu Twf.

Tabl 6.2 Cynnydd o ran allforion yn ôl lefel y buddiolwyr (gan eithrio busnesau newydd)

Lefel	Nifer y buddiolwyr (ac eithrio busnesau newydd)	Nifer y busnesau sy'n cynyddu allforion	Cynnydd mewn allforion (£)	Cyfartaledd fesul busnes (£)
Lefel 1	571	0	0	0
Lefel 2	339	0	0	0
Lefel 3	797	<5	300,041	376
Lefel 4	785	8	8,251,053	10,511
Lefel 5	319	136	58,273,036	182,677
Cyfanswm	2,811³⁸	145	66,825,130	23,773

Ffynhonnell: Data System Cyfrifon Busnes ar gyfer mis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2018 (n=2,811)

- 6.47 O ran allforion, cafodd 46% o gyfanswm yr allforion eu cyflawni gan fusnesau gweithgynhyrchu, er eu bod yn cyfrif am 19% o'r buddiolwyr yn unig. Gwnaeth buddiolwyr TGCh a gwasanaethau proffesiynol hefyd gyfrannu 12% o'r holl gynnydd mewn allforion. Fel y dangosir yn Tabl 6.3, mae gan y sector manwerthu y gwerth cyfartalog uchaf o allforion (£88,659 fesul sector busnes a gymerodd ran yn y rhaglen), wedi'i ddilyn gan gyfanwerthu (£78,326), gweithgynhyrchu (£52,374), a gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a

³⁸ Yn y data System Cyfrifon Busnes, nid oedd 11 o gyflogwyr wedi cael eu dosbarthu yn ôl lefel.

thechnegol (£42,873). Y ddau olaf yw'r sectorau mwyaf cyffredin sy'n cael mynediad at gymorth Busnes Cymru.³⁹

Tabl 6.3 Cynnydd mewn allforion yn ôl sector (gan eithrio busnesau newydd)

Sector	Nifer y busnesau sy'n cynyddu allforion	Cyfanswm gwerth yr allforion (£)	Cyfartaledd fesul sector (£)
Gwasanaethau llety a bwyd	1	120,000	433
Y celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill	5	124,239	547
Gwasanaethau gweinyddu a chymorth busnes	2	254,320	1,167
Adeiladu	2	158,387	677
Addysg	4	409,606	4,267
Cyllid ac yswiriant	1	189,495	5,121
Iechyd	1	1,494	9
Gwybodaeth a chyfathrebu	17	1,298,001	7,333
Gweithgynhyrchu	67	26,606,268	52,374
Gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol	17	13,076,376	42,873
Manwerthu	9	16,933,830	88,659
Trawsgludo a storio	2	129,838	1,564
Cyfanwerthu	16	7,519,276	78,326
Cyfanswm	145	66,825,130	23,773

Ffynhonnell: Data System Cyfrifon Busnes ar gyfer mis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2018 (n=145)

Cynyddu swyddi

- 6.48 Mae'r data yn dangos bod y buddiolwyr ar bob lefel wedi creu swyddi newydd. Gwnaeth y buddiolwyr Lefel 1–2 greu swydd cyfwerth ag amser llawn ar gyfer pob dau fuddiolwr a gymerodd ran yn y rhaglen. Gwnaeth buddiolwyr Lefel 3–4 greu rhwng 1.5 a thair swydd cyfwerth ag amser llawn

³⁹ Dylid edrych ar y cyfartaleddau hyn yn ofalus ar gyfer sectorau sydd â llai na deg o fusnesau yn cynyddu allforion oherwydd gallai un neu fwy yn cyflawni cynnydd anarferol o uchel o ran allforion wyro'r cyfartaledd.

ar gyfer pob buddiolwr a gymerodd ran a gwnaeth busnesau Lefel 5 greu dros wyth o swyddi cyfwerth ag amser llawn fesul buddiolwr a gymerodd ran.

- 6.49 Gan fwyaf, mae'r sectorau lle y crëwyd swyddi yn adlewyrchu cyfansoddiad buddiolwyr Busnes Cymru, gyda'r rhan fwyaf o swyddi yn cael eu creu mewn gweithgynhyrchu (19%), lletygarwch (11%) a gwasanaethau proffesiynol (11%).

Tabl 6.4 Cynnydd mewn swyddi yn ôl lefel y buddiolwr

	Nifer y busnesau	Nifer y buddiolwyr sy'n adrodd am gynnydd mewn swyddi	Cyfanswm y swyddi cyfwerth ag amser llawn a grëwyd (n)	Cyfartaledd fesul busnes sy'n cynyddu swyddi	Cyfartaledd y swyddi a grëwyd fesul y busnes a gymerodd ran
Lefel 1	1,093	561	616.63	1.09	0.56
Lefel 2	463	154	281	1.82	0.61
Lefel 3	1,093	489	1,631	3.33	1.49
Lefel 4	905	486	2,564	5.28	2.83
Lefel 5	371	700	3,131	4.47	8.44
CYFANSWM	3,925	2,390	8,223	2.91	2.10

Ffynhonnell: Data System Cyfrifon Busnes ar gyfer mis Ebrill 2016 i fis

Mawrth 2018 (n=3,925)

Effeithiau tymor hirach

- 6.50 Yn y cyfweiliadau ansoddol, gwnaeth y buddiolwyr adrodd eu bod yn nyddiau cynnar gwireddu manteision y newidiadau hyn. Roedd rhai busnesau a oedd wedi gwneud newidiadau i wella effeithlonrwydd yn gallu nodi arbedion ariannol. Er enghraifft, dywedodd un buddiolwr Lefel 5 ei fod wedi arbed £65,000 drwy gyflwyno protocolau rheoli gwastraff. Roedd newidiadau eraill yn cynnwys symud i gyfrifiadura cwmwl a gwella prosesau casglu, storio a defnyddio data – mae hyn wedi helpu busnesau i leihau gorbenion. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau hyn wedi arwain at gynnydd mewn trosiant eto, er bod llawer yn disgwyl y byddent yn gwneud hynny yn y dyfodol.

- 6.51 Yn debyg, gwnaeth busnesau a wnaeth newidiadau i'w strategaeth busnes a chyflwyno cynhyrchion marchnata newydd hefyd adrodd bod hyn ond wedi cael effaith fach ar eu trosiant busnes hyd yn hyn (tua 2–5%). Fodd bynnag, gwnaethant adrodd eu bod yn disgwyl i hyn gynyddu wrth iddynt sefydlu'n fwy yn y cyfryngau cymdeithasol a chael mwy o adolygiadau ac argymhellion cadarnhaol.

Creu tirwedd fwy entrepreneuriaidd

- 6.52 Mae dadansoddiad o ffurflenni gwerthuso'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn dangos bod elfennau Ymgysylltu a Grymuso'r rhaglen hon wedi cael rhywfaint o effaith ar godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o ddechrau busnes neu ddod yn hunangyflogedig. Fodd bynnag, ar yr adeg pan oedd y ffurflen yn cael ei chwblhau, dim ond 2% oedd wedi dechrau busnes ac roedd 6% yn cynllunio dechrau busnes yn ystod y tair blynedd nesaf. Efallai nad yw hyn yn syndod o ystyried bod y ddarpariaeth yn aml yn cael ei chyflenwi i grwpiau ysgol lle y bydd llawer eisoes wedi penderfynu symud ymlaen at addysg uwchradd uwch, addysg bellach a phrifysgol cyn ymuno â'r farchnad lafur.
- 6.53 Nid yw'n bosibl mesur y graddau y mae pobl ifanc eraill sy'n derbyn cymorth wedi symud ymlaen wedi hynny i ddechrau busnes, gan fod y broses o olrhain buddiolwyr yn gyfyngedig. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen ond yn gallu olrhain pobl ifanc ôl-16 sydd wedi tanysgrifio ar gyfer cyngor un-i-un a sesiynau bwtcamp. At hynny, nid oes unrhyw ddata ar gael i ddangos pa mor helaeth y mae ysgolion neu golegau yn cyflenwi sesiynau Ymgysylltu i'w myfyrwyr, a ph'un a yw'r gweithgaredd hwn yn digwydd bob blwyddyn ac yn cwmpasu grwpiau blwyddyn cyfan.
- 6.54 Mae'r Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol (REAP) wedi cymryd camau i greu tirwedd entrepreneuriaidd, yn arbennig o ran crynhoi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac yn enwedig llywodraeth leol a mentrau lleol, er mwyn cefnogi ymdrechion i annog entrepreneuriaeth. Y cam nesaf ar gyfer y rhaglen yw mynd i'r afael â'r ddau rwystr allweddol i entrepreneuriaeth a nodwyd yng ngweithdy Sefydliad Technoleg Massachusetts (mynediad at gyllid a gofynion gweinyddol uchel). Mae hyn yn hanfodol i'r rhaglen gyflawni ei hamcanion uchelgeisiol.

Cefnogi busnesau newydd

- 6.55 Gwnaeth Rhaglen Craidd a Thwf Busnes Cymru ymgysylltu â chyfran uchel o entrepreneuriaid (82% neu 2,834 o'i tharged), er bod y rhaglen ar ei hôl hi ar ei thargedau ar gyfer y mentrau a grëwyd. Mae cyfran gymharol fach (llai na thraean) o entrepreneuriaid sy'n derbyn cymorth wedi hynny yn mynd yn eu blaenau i ddechrau busnes.
- 6.56 Mae sesiynau bwtcamp a chyingor busnes un-i-un (Cyfarparu) y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi bod yn effeithiol o ran creu busnesau newydd, gyda'r rhaglen yn gorgyflawni ar y targed hwn. Cafodd hyn ei gadarnhau yn yr ymchwil ansoddol. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r rhai a fynychodd y sesiynau bwtcamp y gwnaethom eu cyfweld nodi eu bod wedi dechrau busnes wedi hynny. Roedd y modelau rôl y gwnaethom eu cyfweld yn credu bod nifer o'r rhai a fynychodd pob sesiwn Cyfarparu yn debygol o ddechrau busnes yn fuan, ac y gallai ychydig mwy ddechrau busnes yn hwyrach.
- 6.57 Gwnaeth y cyfweiliadau ansoddol hefyd ddarganfod bod y rhan fwyaf o entrepreneuriaid a wnaeth ddechrau busnes yn teimlo bod y cymorth y gwnaethant ei dderbyn *"yn helpu i wneud i'r broses fynd yn esmwyth"* ac *"yn helpu i sicrhau ein bod wedi dechrau ar sail gadarn"*. Roeddent yn cydnabod bod hyn yn ei dro yn debygol o wella goroesiad busnes a helpu i sicrhau bod eu busnesau mewn safle gwell i gyflawni twf cynaliadwy yn y tymor byr.

Cyfatebolrwydd a gwerth ychwanegol


Cyfatebolrwydd â chymorth busnes cyhoeddus a phreifat arall

- 6.58 Roedd awdurdodau lleol a ddarparwyr cymorth busnes eraill yn credu yn gyffredinol fod Busnes Cymru yn ategu'r ddarpariaeth a oedd ar gael yn eu hardal lleol. Gwnaeth yr awdurdodau lleol adrodd na wnaethant ddarparu cymorth busnes y tu allan i'r grantiau a dargedwyd at sectorau gwahanol. Roeddent yn ystyried Busnes Cymru fel elfen graidd o'u cynnig cymorth busnes lleol, a rhan allweddol o'u cynlluniau ar gyfer gwella twf, perfformiad a goroesiad busnesau lleol.

- 6.59 Gwnaeth sefydliadau ariannol hefyd adrodd bod Busnes Cymru wedi chwarae rhan allweddol wrth helpu busnesau a busnesau newydd i gael mynediad at eu gwasanaethau. Gwnaethant adrodd ei fod yn gyffredin i unigolion wneud cais am arian heb gynllun busnes cynhwysfawr neu ragolygon ariannol realistig, a oedd yn golygu bod eu ceisiadau yn aflwyddiannus. Ystyriwyd bod Busnes Cymru yn wasanaeth allweddol ar gyfer helpu busnesau i ddatblygu cynlluniau busnes effeithiol. Fel y dywedodd un sefydliad ariannol: *“Dwi bob amser yn gallu dweud pan fod cleient wedi derbyn gwasanaeth Busnes Cymru.”*
- 6.60 Gwnaeth Banc Datblygu Cymru hefyd adrodd bod Busnes Cymru yn chwarae rhan allweddol o ran cefnogi eu gwaith. Gwnaethant ddweud bod y rhaglenni'n helpu i gefnogi busnesau a busnesau newydd i gael mynediad at gyllid a hefyd i ddiogelu eu buddsoddiad drwy gefnogi busnesau i gyflawni eu targedau ariannol. Fel benthyciwr pan fetho popeth arall, mae Banc Datblygu Cymru yn cydnabod y byddai rhai busnesau yn profi anawsterau o ran cyflawni eu rhwymedigaethau heb gymorth allanol.
- 6.61 Roedd ysgolion a cholegau hefyd yn ystyried bod y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn rhan allweddol o'r dirwedd ar gyfer addysg menter. Gwnaethant adrodd mai prin oedd yr addysg menter ryngweithiol arall roeddent yn ei darparu o fewn y cwricwlwm, yn sgil amser ac adnoddau cyfyngedig. Yn ogystal, gwnaeth sefydliadau megis Ymddiriedolaeth y Tywysog a'r Ffermwyr Ifanc hefyd adrodd bod y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i'r bobl ifanc roeddent yn gweithio gyda nhw, drwy ddarparu gwybodaeth am lwybrau cyflogaeth amgen a darparu'r offer i bobl ifanc i'w galluogi i reoli busnes newydd.
- Y sefyllfa economaidd ac alinio â blaenoriaethau economaidd*
- Newidiadau cynhyrchiant ers 2007*
- 6.62 Fel y dangosir yn Ffigur 6.4, mae bwlch cynhyrchiant yn parhau rhwng Cymru a'r DU. Yn 2016, roedd y gwerth ychwanegol gros fesul pen yn £19,200 yng Nghymru, o'i gymharu â £26,584 yn y DU. Mae hwn yn fwllch o £7,384, neu 27.8%.

6.63 Fodd bynnag, mae gwerth ychwanegol gros fesul pen yng Nghymru wedi cynyddu'n raddol ers i'r rhaglenni Ymgysylltu â Chwsmeriaid a Chymorth Busnes i Fusnesau Newydd ddechrau yn 2007, gan gynyddu o £16,272 yn 2007 i £19,200 yn 2016. At hynny, ers i raglen newydd Busnes Cymru ddechrau yn 2015, mae'r bwlch cynhyrchiant rhwng Cymru a'r DU wedi dirywio o 1.4 pwynt canran. Fodd bynnag, mae'r newidiadau hyn yn debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol gan amodau macro-economaidd ac felly ni ellir eu priodoli i'r rhaglenni yn unig.

Ffigur 6.4 Gwerth ychwanegol gros fesul pen y boblogaeth (dull gweithredu incwm) ar brisiau sylfaenol cyfredol, 2007–2016



Ffynhonnell: Data gwerth ychwanegol gros y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), mis Ebrill 2007 i fis Rhagfyr 2016

Newidiadau entrepreneuriaeth ers 2007


6.64 Fel y dangosir yn Ffigur 6.5, mae'r nifer o fusnesau newydd yng Nghymru wedi cynyddu'n raddol ers dirwasgiad 2009–10, o 8.3% o'r stoc busnes yn 2010 i 12.3% yn 2016. Mae hyn wedi bod yn unol â'r cynnydd ar draws y DU. Fodd bynnag, mae'r bwlch rhwng cyfraddau genedigaethau busnesau newydd yng Nghymru a'r DU wedi cynyddu dros yr un cyfnod, o 1.7 pwynt canran yn 2010 i 2.3 pwynt canran yn 2016.

6.65 Ar yr un pryd, mae anghyfartaledd sylweddol yn parhau o ran y gyfradd genedigaethau busnesau rhwng y rhanbarthau yng Nghymru. Mae'r gyfradd

genedigaethau busnesau yn gymharol uchel (dros 14%) yn ne-ddwyrain Cymru, o'i chymharu ag 8% yng nghanolbarth Cymru a 10–12% yn ne-orllewin a gogledd Cymru. Mae'r bwlch hwn wedi cynyddu ers 2007, pan oedd y bwlch rhwng yr ardaloedd yn llai na dau bwynt canran.

- 6.66 Yn ychwanegol, prin oedd y newid o ran y cyfraddau marwolaethau busnesau⁴⁰ yng Nghymru; er bod y gyfradd farwolaethau wedi gostwng ychydig ers 2009 (11%), serch hynny mae hefyd wedi parhau uwchben 9.2%, gan gynyddu i 10.5% yn 2016. Mae hyn yn adlewyrchu tueddiadau'r gyfradd marwolaethau busnesau ar draws y DU. Fodd bynnag, yn 2016, gwnaeth y bwlch rhwng y gyfradd marwolaethau busnesau yng Nghymru a'r DU ymestyn yn llawer mwy nag o'r blaen, gyda 2.3% yn llai o fusnesau yn marw yng Nghymru o'i gymharu â gweddill y DU – cyn hyn, roedd y bwlch wedi parhau'n gyson ar 0.5%.

Ffigur 6.5 Cyfraddau genedigaethau busnesau yng Nghymru a'r DU, 2007–2016




Ffynhonnell: Data twf busnes a dechrau busnes yr ONS, mis Ionawr 2007 i fis Rhagfyr 2016

- 6.67 Mae adroddiad Monitor Entrepreneuriaeth y Byd ar gyfer 2017 hefyd yn dangos bwlch sylweddol (7.4 pwynt canran) yn y gyfran o bobl yng Nghymru sy'n teimlo bod cyfleoedd da i ddechrau busnes lle maen nhw'n byw, o'i

⁴⁰ Mae marwolaeth yn cael ei diffinio fel busnes a oedd ar y ffeil weithredol ym mlwyddyn t ond nid yw bellach yn bresennol ar y ffeil weithredol ar gyfer blwyddyn t+1 neu t+2 (Stats Cymru).

gymharu â gweddill y DU. Mae hyn wedi parhau i fod yn gymharol gyson ers 2014.

Ffigur 6.6 Canfyddiadau entrepreneuriaeth ymhlith unigolion nad ydynt yn weithredol entrepreneuriaid yng ngwledydd cartref y DU, 2017



Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Oedolion y DU 2017, Monitor Entrepreneuriaeth y Byd

Beth mae hyn yn ei olygu o ran y galw am raglenni Busnes Cymru?

- 6.68 Mae nifer y busnesau gweithredol⁴¹ (fesul 10,000) wedi tyfu dros amser (o 457 yn 2010 i 512 yn 2016) ac mae'r gyfradd genedigaethau busnes yng Nghymru wedi cynyddu o ddau bwynt canran rhwng 2012 a 2013, cyn parhau i fod yn gymharol gyson rhwng 2013 a 2016. Mae hyn yn awgrymu y dylai fod galw cynyddol am gymorth busnes wrth symud ymlaen.
- 6.69 Ar yr un pryd, mae'r angen yn parhau i gynyddu cynhyrchiant, er bod hyn wedi gwella, yn ogystal â chyfraddau'r busnesau sy'n goroesi.

⁴¹ Mae busnesau gweithredol yn cael eu diffinio fel rhai sy'n cynhyrchu trosiant.

Alinio â blaenoriaethau polisi

- 6.70 Mae argaeledd cyffredinol cymorth Busnes Cymru yn helpu i fodloni amcan strategaeth ddiweddar Llywodraeth Cymru Ffyniant i Bawb (2017) i “[g]lynnig cyfleoedd i bawb [a] ... mynd i’r afael ag anghydraddoldeb, gan sicrhau ffyniant i unigolion ac i’n cenedl”. Mae Busnes Cymru yn darparu cymorth i alluogi unigolion i ddechrau busnes, tra bo’r swyddi a gaiff eu creu gan fusnesau’n cael mynediad at y rhaglen hefyd yn helpu creu cyflogaeth ddiogel a chynaliadwy.
- 6.71 Mae’r cymorth adnoddau mwy dwys a ddarperir gan Fusnes Cymru hefyd yn bodloni dau allan o’r pedwar maen prawf y mae’n rhaid i fusnesau eu bodloni er mwyn cael mynediad at gymorth Llywodraeth Cymru, fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu ar Economi Cymru (2018):
- Dangos y potensial i dyfu (o ran y swyddi a grëwyd, cynhyrchiant a lluoswyr) drwy’r gadwyn gyflenwi
 - Cynnydd o ran lleihau’r ôl-troed carbon, drwy thema drawsbynciol datblygu cynaliadwy
- 6.72 Nid yw’r rhaglen yn benodol yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau greu ‘gwaith teg’ (yn unol â diffiniad y Bwrdd Gwaith Teg) neu hybu iechyd, gan gynnwys pwyslais arbennig ar iechyd meddwl, sgiliau a dysgu yn y gweithle. Fodd bynnag, mae cynghorwyr busnes yn darparu rhywfaint o gymorth ar gyfer recriwtio ac adnoddau dynol er mwyn bodloni’r thema cydraddoldeb ac amrywiaeth, sy’n cynnwys ystyried materion moesegol.
- 6.73 Mae elfennau o Fusnes Cymru hefyd yn cefnogi rhai o bum galwad am weithredu yng Nghynllun Gweithredu ar Economi Cymru i fusnesau sy’n derbyn cymorth ariannol y llywodraeth. Yn benodol:
- Mae’r Rhaglen Cyflymu Twf i raddau helaeth yn cefnogi’r alwad am gamau gweithredu ar allforion a masnach, gan fod y rhan fwyaf o dargedau allforio Busnes Cymru yn cael eu cyflawni gan y rhaglen hon. Mae’r gofyniad i ddau draean o’r swyddi fod dros y cyflog cyfartaledd yng Nghymru yn helpu i ddiwallu’r galw am gamau gweithredu ar gyflogaeth o ansawdd uchel, datblygu sgiliau a gwaith teg.

- Mae'r SFBE yn cyfrannu'n rhannol at y galw am gamau gweithredu ar ymchwil a datblygu, awtomeiddio a digideiddio. Yma mae'r rhaglen yn cefnogi busnesau i ddefnyddio technoleg, ac mae ymchwil Prifysgol Caerdydd ar aeddfedrwydd digidol yn dangos y gall ysgogi arloesedd. Fodd bynnag, prin yw'r cymorth penodol ar gyfer annog ymchwil a datblygu ac awtomeiddio.
- Disgwylir i'r Rhaglen Craidd a Thwf gyfrannu at ddatgarboneiddio drwy'r gwaith a wnaed i fodloni thema drawsbynciol datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, byddai angen cryfhau'r tanysgrifiad isel i'r cymorth hwn a chyfnod amser byr yr ymgysylltu er mwyn bodloni dyheadau'r alwad hon i weithredu.
- Mae'r cymorth a ddarperir i entrepreneuriaeth drwy'r rhaglenni REAP, Entrepreneuriaeth Ieuencid, a Chraidd a Thwf hefyd yn cyfrannu at yr alwad i weithredu ar arloesedd, entrepreneuriaeth a phencadlysoedd. Fodd bynnag, prin yw ffocws penodol y rhaglen ar arloesedd. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen wedi'i thargedu'n rhannol at dwf swyddi (Craidd a Thwf, y Rhaglen Cyflymu Twf) a throsiant (cymhwysedd y Rhaglen Cyflymu Twf) ac efallai na fydd hyn yn annog ymgysylltu ag ymgynghorwyr busnes yn ystod dyddiau cynnar arloesedd. Prin yw'r gweithgarwch a wneir yn y Rhaglen Craidd a Thwf a'r Rhaglen Cyflymu Twf i ymgysylltu â myfyrwyr sefydliadau addysg uwch i ariannu a masnacheiddio cynhyrchion neu wasanaethau arloesol newydd, ond gwneir hyn drwy raglenni eraill Llywodraeth Cymru megis rhaglen SMART Innovation yr ERDF. Nid yw Busnes Cymru yn hyrwyddo ac atgyfeirio entrepreneuriaid at y rhaglenni hyn.

6.74 Nid yw'r cymorth a ddarperir gan Raglen Craidd a Thwf a Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru i fusnesau ac entrepreneuriaid ar hyn o bryd yn cyfrannu at amcan y Cynllun Gweithredu ar yr Economi o frocra busnesau i ddatblygu cydweithredu rhwng y sector cyhoeddus/preifat ac addysg uwch. Fodd bynnag, mae Busnes Cymru yn cynnal mentrau strategol i feithrin mwy o gydweithredu drwy ei aelodaeth o Raglen Cyswllt Diwydiannol Sefydliad Technoleg Massachusetts.

6.75 Nid yw cynghorwyr Craidd a Thwf a Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru yn hyrwyddo prentisiaethau yn weithredol, ac o ganlyniad mae'n golygu nad yw'n cyfrannu at darged blynyddol y llywodraeth o 20,000 o brentisiaethau. Er bod y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu gan y Porth Sgiliau, sy'n anelu'n benodol tuag at gefnogi busnesau i fynd i'r afael ag anghenion sgiliau, mae lle ar gyfer mwy o hyrwyddo gweithredol o brentisiaethau drwy'r Rhaglen Craidd a Thwf a'r Rhaglen Cyflymu Twf.

7. Casgliadau ac argymhellion

- 7.1 Mae'r bennod hon yn tynnu ar y canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn er mwyn asesu perfformiad ac effaith rhaglenni Busnes Cymru hyd yn hyn. Yn ei dro, mae hyn yn darparu rhai argymhellion i lywio dwy flynedd olaf cyflenwi rhaglenni Busnes Cymru o dan raglen 2014–2020 yr ERDF, a chyfeiriad cymorth busnes Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Pa mor dda mae rhaglenni Busnes Cymru yn gweithredu?

Cynnydd a rhagolygon

- 7.2 Yn seiliedig ar y targedau allbwn cyfredol ar gyfer yr ERDF a'r rheini a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yng nghontractau'r rhaglenni.

- Er y bydd angen i'r nifer o fentrau sy'n derbyn cymorth anariannol gynyddu'n sylweddol er mwyn cyrraedd eu targedau, mae'r **Rhaglen Craidd a Thwf** ar y trywydd cywir i gyflawni'r rhan fwyaf o'i thargedau allbwn – mae'r prosiectau eisoes yn cyflawni eu targedau ar gyfer creu swyddi ac maent wedi cyrraedd eu targedau chwarterol o ran cynnydd mewn allforion ers mis Ebrill 2017. Gallai gwell strategaeth recriwtio/ymgysylltu ar gyfer busnesau Lefel 1–2, a pherthnasau gwell gyda ffynonellau atgyfeirio, megis awdurdodau lleol a Banc Datblygu Cymru, leihau'r diffyg mewn perthynas â thargedau mewnbwn chwarterol. Er ei fod yn hynod annhebygol y bydd y rhaglen yn cyflawni ei thargedau a gontractiwyd ar gyfer y themâu trawsbynciol, dylai cyflwyno llwon datblygu cynaliadwy a chyfle cyfartal gynyddu allbynnau yn sylweddol yn unol ag amcanion Llywodraeth Cymru.
- Mae'r **Rhaglen Cyflymu Twf** wedi perfformio'n dda yn erbyn ei thargedau a gontractiwyd, yn enwedig ar gyfer y mentrau newydd a gefnogwyd a'r cynnydd mewn allforion a swyddi. Dylai'r rhaglen orgyflawni ar y rhain ac mae wedi cymryd camau i gefnogi busnesau lle y gallant gynyddu'r nifer o swyddi newydd uwchben y cyflog cyfartalog yng Nghymru.
- Dylai'r **Rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (SFBE)** gyflawni'r rhan fwyaf o'i thargedau, gan gynnwys ymgysylltu ag unigolion a darparu cymorth dwys i unigolion. Mae cynyddu'r nifer o weithdai wedi helpu i gynyddu'r nifer o fentrau sy'n derbyn cymorth anariannol. Ar ôl ymdrechu i gasglu tystiolaeth ar

fuddiolwyr sy'n cyflwyno cynhyrchion neu wasanaethau newydd i'r cwmni, sy'n darged canlyniad allweddol y cymorth busnes, mae hyn yn cael ei gywiro.

- Mae'r **Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid** wedi cyflawni neu orgyflawni ei thargedau ar gyfer ei holl allbynnau perfformiad fwy neu lai, ac mae'n perfformio yn unol â'r holl ddisgwyliadau. Cymerwyd camau eisoes i fynd i'r afael â rhai diffygion – er enghraifft, gweithio'n agosach â hyrwyddwyr menter i adnabod rhagor o bobl ifanc addas a fyddai â mwy o ddiddordeb mewn sefydlu busnesau a mynychu gweithdai. Gyda sesiynau ychwanegol yn cael eu cynllunio ar gyfer 2018 a thu hwnt, rhagwelir y bydd y targed ar gyfer cwblhau sesiynau bwtcamp yn gyraeddadwy.
- Mae'r **Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol (REAP)** wedi cyflawni ei thargedau ar gyfer recriwtio rhanddeiliaid a datblygu mecanwaith ar gyfer gwella'r dirwedd entrepreneuriaidd, gyda chynllun gweithredu clir. Fodd bynnag, yn y dyddiau cynnar hyn, mae'n anodd barnu'n glir a fydd y rhaglen hon yn cyflawni ei hamcanion.

7.3 Nid oes galw yn aml am gymorth busnes **yn yr iaith Gymraeg**, hyd yn oed gan berchnogion busnes sy'n siaradwyr Cymraeg. Mae hwn yn adlewyrchu dewis. Mae cynghorwyr wedi canfod nad yw busnesau yn adnabod hyrwyddo'r Gymraeg fel angen busnes ond, er enghraifft, maent yn cael eu cynghori, er mwyn gwella gwerthiant a marchnata, y dylent ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy estynedig yn eu deunyddiau a'u cynhyrchion.

Cael effaith

7.4 Er nad yw'n bosibl mesur neu ynysu yn gywir dylanwad cymorth Busnes Cymru ar gynnydd cenedlaethol (e.e. yn erbyn dangosyddion economaidd) oherwydd y gallai ffactorau allanol eraill (e.e. yr hinsawdd economaidd ehangach neu newidiadau mewn polisi ers 2015) hefyd gael dylanwad ar lesteirio neu hwyluso gwelliannau busnes, gallwn weld bod y rhaglenni yn gwneud peth gwahaniaeth drwy wneud y canlynol:

- **Cynyddu mynediad at gymorth busnes:** drwy ddarparu gwasanaethau nad ydynt ar gael ledled Cymru ar gyfer mentrau ac entrepreneuriaid yn ogystal â phobl ifanc sydd â diddordeb mewn entrepreneuriaeth. Hefyd drwy roi cymorth i

nifer fawr o fusnesau nad ydynt wedi defnyddio cymorth yn flaenorol: pump allan o'r chwe busnes Lefel 1 a Lefel 2 yn yr arolwg defnyddwyr diwethaf.

- **Creu twf busnes:** gyda'r cymorth busnes a ddarperir yn cynyddu allforion a buddsoddiad mewn busnes ac yn creu swyddi. Mae hyn yn bennaf, ond nid yn gyfangwbl, yn gysylltiedig â darpariaeth o gymorth mwy arbenigol a dwys i fusnesau Lefel 4–5, gyda thwf arbennig o uchel wedi'i gyflawni ym meysydd manwerthu, cyfanwerthu a gweithgynhyrchu a gwasanaethau proffesiynol a gwyddonol. Mewn rhai achosion, mae'r cymorth a gynigiwyd gan Fusnes Cymru hefyd wedi llywio busnesau i ffwrdd o bethau nad oeddent yn debygol o weithio – a allai yn y pen draw helpu i gynnal perfformiad busnes hyd yn oed os nad yw hyn yn creu twf.
- **Creu tirwedd fwy entrepreneuraidd:** mae bron yr holl randdeiliaid yn tybio bod y rhaglenni Entrepreneuriaeth leuenctid yn ddylanwadol o ran helpu i greu tirwedd entrepreneuraidd drwy ymestyn dyheadau pobl ifanc a'u cynnwys mewn dosbarthiadau a sesiynau bwtcamp ysgogol.
- **Cefnogi busnesau newydd:** drwy ddarparu cymorth i entrepreneuriaid posibl nad yw ar gael yn helaeth ledled Cymru, mae'r Rhaglen Craidd a Thwf yn gweithio tuag at gynyddu'r cyfrannau sy'n symud ymlaen i ddechrau busnes.

Parhau i ddiwallu anghenion busnes a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

- 7.5 Mae rhaglenni Busnes Cymru yn parhau i feddu ar sail resymegol gadarn ar gyfer cyllid gan y llywodraeth. Maent yn dal i gyfateb yn gadarn i uchelgeisiau economaidd Llywodraeth Cymru, sef i gynyddu gwerth ychwanegol gros ac allforion gyda datblygu cynaliadwy, a chynyddu entrepreneuriaeth lwyddiannus – a chyda mwy o gymorth ar gyfer gweithgareddau busnes gyda photensial i dyfu. Mae rhywfaint o gyfatebiaeth gyda'r uchelgeisiau ar gyfer cyflogaeth o ansawdd uwch, er nad oes gyda phrentisiaethau.

Pa mor dda mae'r rhaglenni Busnes Cymru yn gweithio?

Beth sy'n gweithio?

- 7.6 Yn y bôn, **cafodd gwasanaeth Busnes Cymru ei sefydlu fel 'siop un stop' er mwyn i fusnesau a busnesau newydd gael mynediad at gymorth** ac mae hyn ar y trywydd cywir i gael ei gyflawni. Mae camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd gan y rhaglen i hyrwyddo brand Busnes Cymru a'r wefan / gwasanaethau llinell gymorth a'i gysylltiadau â gwasanaethau eraill. Mae alinio'r Rhaglen Craidd a Thwf a'r Rhaglen Cyflymu Twf â chymorth busnes arall sydd eisoes ar gael yng Nghymru hefyd yn digwydd – er enghraifft, mae'n ymddangos fel pe bai cynghorwyr busnes yn meithrin cysylltiadau personol er mwyn datblygu atgyfeiriadau i ddarparwyr cymorth eraill. Mae hyn yn ei dro yn lleihau dyblygu gwasanaeth, ond mae hefyd yn atgyfnerthu rôl Busnes Cymru fel brocer allweddol. Yn gysylltiedig â hyn, mae brand Busnes Cymru wedi meithrin enw da ymhlith buddiolwyr, sy'n credu bod y cymorth a'r cyngor a gynigir yn ddiduedd, yn ddibynadwy ac yn hygyrch. Efallai bod hyn wedi annog mwy o fusnesau i gael mynediad at gyngor a chymorth na fyddent wedi'u defnyddio fel arall.
- 7.7 **Mae'r model gwasanaeth yn gweithredu'n dda.** Mae rhaglenni Busnes Cymru yn cael eu cyflenwi i safon uchel gan gontractwyr ac mae'r profiadau wedi bod yn gadarnhaol. Er enghraifft, mynegwyd yn aml fod unrhyw faterion o ran amseroldeb/arbenigedd cynghorwyr yn ymddangos fel pe baent yn cael eu datrys yn gyflym a dywedodd 40% o ymatebwyr i'r arolwg y byddent yn fodlon talu am agweddau ar y cymorth busnes. Mae ffocws cyffredinol ar wella ymgysylltu â phartneriaid dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi helpu i wella integreiddio Busnes Cymru gyda gwasanaethau cymorth eraill. Caiff hyn ei ddangos drwy ddatblygu dulliau rhannu gwybodaeth â Banc Datblygu Cymru a rhai awdurdodau lleol a'r adborth cadarnhaol oddi wrth fenthycwyr fod darpariaeth Busnes Cymru wedi gwella cyfraddau llwyddiant busnesau sy'n chwilio am gyllid. Fodd bynnag, gellid adeiladu ymhellach ar y berthynas rhwng Banc Datblygu Cymru a Busnes Cymru er mwyn symleiddio atgyfeiriadau rhwng y ddau sefydliad.

Beth allai weithio yn well?

- 7.8 Mae'n amlwg fod yr oedi hir o ran contractio ac yna sefydlu darparwyr gwasanaeth y rhaglenni newydd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r tanberfformiad o ran ymgysylltu â mentrau ac unigolion. Roedd hyn hefyd yn golygu ei fod wedi cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd er mwyn cael y cyflenwad llawn o ymgynghorwyr busnes gyda'r sgiliau priodol i ddarparu sesiynau un-i-un.
- 7.9 Nid yw'r materion gweithrediadol eraill sydd wedi codi ar raddfa'r un mor sylweddol o ran effaith. Gallai rhai agweddau ar wasanaeth Busnes Cymru fod yn fwy ymatebol i angen/galw gan fuddiolwyr. Er enghraifft:
- Er bod atgyfeiriadau rhwng pob rhaglen yn digwydd, mae'r rhain wedi cymryd mwy o amser nag a ddisgwyliwyd i gael eu sefydlu'n dda
 - Gwnaeth rhai defnyddwyr gwasanaeth adrodd am oedi rhwng gwneud cais am gyngor a chynghorwyr yn darparu cymorth
 - Roedd rhai o ddefnyddwyr y wefan yn teimlo y gallai gael ei theilwra'n well i'w hanghenion
 - Mewn rhai achosion, nid oedd y galw wedi dod i'r amlwg, er enghraifft ar gyfer y cynlluniau datblygu cynaliadwy a'r gweithdai SFBE, er bod y ddau hyn yn derbyn sylw
- 7.10 Mae cynnal y gwerthusiad canol tymor hefyd wedi tanlinellu bod y rhaglenni wedi cael problemau amrywiol o ran casglu gwybodaeth oddi wrth gyflogwyr i ddangos bod yr allbynnau wedi cael eu cyflawni. Mae angen i'r datrysiad a gynigiwyd yn y rhaglen SFBE i gasglu gwybodaeth oddi wrth gyflogwyr i ddangos eu bod wedi cyflwyno cynhyrchion neu wasanaethau sy'n newydd i gwmnïau gael ei fonitro'n ofalus i weld os yw'n gynaliadwy. Ar wahân i hynny, roedd peth pryder ynglŷn ag ansawdd y data rhaglen a oedd yn cael ei gasglu a sut y gall hwn gael ei symleiddio'n well.

Beth ddylid ei ddysgu o'r gwerthusiad?

Beth ellid ei wneud i wella'r rhaglen gyfredol?

- 7.11 Mae rhaglenni Busnes Cymru wedi dangos y gallant addasu i anghenion sy'n newid a gwella eu cyflawni. Mae'n bwysig eu bod yn parhau i weithio'n agos â'i gilydd a

hyrwyddo'r holl wasanaethau sydd ar gael ar y cyd. Yn arbennig, dylent barhau i feithrin atgyfeiriadau rhwng y Rhaglen Craidd a Thwf a'r rhaglen SFBE, a rhwng Banc Datblygu Cymru a'r Rhaglen Cyflymu Twf. Dylent hefyd weithredu cynlluniau i gael busnesau buddiolwyr i danysgrifio i'w llwon cynaliadwyedd amgylcheddol a chydraddoldeb ac amrywiaeth.

7.12 Ymddengys fod rhai newidiadau pellach i'r ffordd mae'r rhaglenni yn cael eu cyflawni a allai wella ansawdd y gwasanaeth a'u perfformiad:

- Parhau i ddatblygu perthnasau cadarnhaol â'r rhwydwaith cyfan o sefydliadau atgyfeirio i'r Rhaglen Craidd a Thwf gan fod hwn wedi'i brofi i fod yn llwybr effeithiol ar gyfer recriwtio busnesau newydd, yn arbennig busnesau Lefel 1 a 2 (nad ydynt yn ymgysylltu ddigon ar hyn o bryd) drwy feithrin perthnasau rhwng unigolion a chynghorwyr busnes allweddol. Dylai hyn gynnwys:
 - Adeiladu ar arfer busnes da presennol gan gynghorwyr cymorth busnes gan ddefnyddio eu rhwydweithiau personol i sicrhau ymgysylltu mwy cyson â'r holl awdurdodau lleol a pharthau menter
 - Cwmpasu banciau/benthycwyr, grwpiau menter sectorau ac ati ledled Cymru
 - Sicrhau bod y contractwyr yn cynnwys hyn yn eu gofynion ar gyfer cynghorwyr cymorth busnes
- Alinio ffurflenni cais y rhaglenni (ar gyfer y rhaglenni Craidd a Thwf, Cyflymu Twf ac SFBE) gyda ffurflenni Banc Datblygu Cymru i sicrhau bod data digonol yn cael ei gasglu ar gyfer pob rhaglen – gan gynnwys caniatâd i gysylltu. Bydd hyn yn cynorthwyo recriwtio ac atgyfeirio, fel bod yr holl fusnesau sy'n derbyn buddsoddiad ecwiti banc datblygu yn cael eu cyfeirio at y Rhaglen Cyflymu Twf, a bod y rhan fwyaf o fusnesau/busnesau newydd eraill yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth Lefel 1–4.
- Cyflwyno systemau a chaniatadau i ganiatáu i gontractwyr Syniadau Mawr Cymru i ddilyn ac olrhain pobl ifanc sy'n mynegi cryn ddiddordeb mewn dechrau busnes (ond nid ydynt yn bwriadu gwneud hynny ar unwaith).
- Mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch argaeledd data ar gyfer y gwerthusiad canol tymor i alluogi'r dadansoddiad angenrheidiol yn y gwerthusiad terfynol i asesu a yw'r rhaglenni wedi cyflawni eu holl ganlyniadau disgwyledig.

Beth a allai gael ei ystyried ar gyfer rhaglenni cymorth busnes yn y dyfodol?

7.13 Ymddengys fod rhai bylchau yn y cymorth a ddarperir a rhai newidiadau yn y ffordd y mae'r cymorth yn cael ei ddarparu a allai gael eu hystyried wrth ddatblygu a dylunio gwasanaeth Busnes Cymru a ariennir gan y llywodraeth yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Ymestyn cymorth entrepreneuriaeth:** Mae potensial i Syniadau Mawr Cymru ganolbwyntio'n fwy ar ddysgwyr mewn addysg uwch ac addysg bellach sydd eisoes â syniadau busnes gyda photensial twf uwch (e.e. cynhyrchion a gwasanaethau arloesol). O fewn y rhaglen gyfredol, prin yw'r dystiolaeth fod hyn yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan fod colegau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch yn gwneud y gwaith recriwtio dysgwyr i'r sesiynau. Meithrin perthnasau cryfach â'r sefydliadau er mwyn sicrhau pontio esmwyth i fyfyrwyr a graddedigion â photensial i dyfu o addysg bellach a sefydliadau addysg uwch i wasanaethau Syniadau Mawr Cymru a Busnes Cymru.
- **Prif ffrydio ymgysylltu entrepreneuriaid:** Mae'r rhaglen yn darparu modelau rôl i ddarparu sesiynau mewn ysgolion na ellir disgwyl eu bod yn cyrraedd yr holl ysgolion neu'n diwallu'r holl anghenion ar gyfer addysg entrepreneuriaeth ar gamau gwahanol y cwricwlwm. Gallai fod yn fwy priodol canolbwyntio ar wella gallu ysgolion/athrawon i wneud hyn yn annibynnol (adeiladu gallu) a darparu cyfleoedd fel ar hyn o bryd ar gyfer cyfeirio a mentora disgyblion ag uchelgeisiau o ran bod yn hunangyflogedig neu ddechrau menter busnes.
- **Cefnogi busnesau newydd a thwf busnes:** Mae meysydd allweddol lle y gallai cymorth i fusnesau a busnesau newydd gael ei wella yn y dyfodol:
 - Darparu mwy o gymorth un-i-un ar gyfer busnesau Lefel 2, oherwydd gallai fod gan y rhain sylfaen ariannol fwy cadarn i dyfu arni
 - Cynyddu ymwybyddiaeth brand Busnes Cymru ymhlith busnesau newydd i wella ymgysylltu
 - Darparu mwy o ymgysylltu rhagweithiol parhaus â busnesau Lefel 3–5, gan gynnwys ailymweld â busnesau i nodi anghenion datblygu a chymorth posibl pellach pan fydd camau gweithredu wedi cael eu cymryd ar gyngor a chymorth a ddarparwyd

- Parhau i fuddsoddi mewn cymorth i fusnesau i weithredu datrysiadau TGCh gyda buddiannau busnes ehangach (systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, meddalwedd cyfrifyddu, cyfrifiadura cwmwl a gweithio o bell, a'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol)
- Ailhyfforddi staff SFBE i fod yn arbenigwyr technegol o fewn y Rhaglen Craidd a Thwff, gan helpu i hwyluso mwy o ymweliadau un-i-un gan gynghorwyr o bosibl
- **Dangosyddion rheoli perfformiad:** Mae rhai mesurau a thargedau allbwn rhaglen yn anaddas ar gyfer mesur gweithredu ac effaith rhaglenni. Gallai cael mesuriad allbwn o faint y cymorth (chwe awr) dynnu sylw o ganlyniadau i fewnbynnau. Gallai fod yn ddull gweithredu gwell i ddefnyddio targedau bodlonrwydd ar gyfer gwasanaethau (llinell gymorth, cynghorwyr contractwyr) a thargedau canlyniad wedi'u dadelfennu yn ôl lefelau/sianeli gwasanaeth. Ar gyfer swyddi newydd, er enghraifft, byddai cyflogau cyfartalog sy'n cyfateb i gyfartaledd Cymru yn feincnod mwy priodol gan y byddai hyn yn ei wneud yn ofynnol i fwy o swyddi newydd gael eu talu uwchlaw'r isafswm cyflog.
- **Targedau rheoli perfformiad:** Nid yw rhai targedau rhaglenni wedi bod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Er enghraifft, roedd targedau canlyniad wedi'u gosod yn rhy isel o'u cymharu â'r targedau allbwn. Yn y tymor byr, dylai'r data sy'n cael ei gasglu ar fuddiolwyr yn y rhaglenni cyfredol gael ei archwilio er mwyn deall yn well y berthynas rhwng cymorth (symiau/amseriad mewnbynnau cyngor) a chanlyniadau (swyddi, allforion, buddiannau busnes eraill) i lywio cyflenwi'r gwasanaeth ac enillion ar unrhyw fuddsoddiad o'r fath. Yn y dyfodol ac yn fwy cyffredinol:
 - Ni ddylai targedau o reidrwydd fod yn seiliedig yn gyfangwbl ar berfformiad hanesyddol gan y dylid ystyried y cyd-destun economaidd a newidiadau i'r gwasanaeth.
 - Mae angen i ragdybiaethau am y rhaniad o fuddiolwyr Lefel 1–4 sy'n cael mynediad at y gwasanaeth neu'n cael eu trosglwyddo i wasanaeth arall fod yn seiliedig ar ddata gwirioneddol o wasanaethau blaenorol neu gyffelyb.
 - Mae angen i ragdybiaethau am broffiliau ystyried y cyfnodau pontio pan fo gwasanaethau yn cael eu newid.

- Dylid cyflwyno targedau er mwyn annog contractwyr i gefnogi busnesau i greu arbedion effeithlonrwydd, a fyddai'n darparu hwb hirdymor i ysfa gystadleuol ac allforion. Gallai hyn gynnwys mesurau yn seiliedig ar ddulliau gweithredu mwy soffistigedig nad ydynt yn rhagdybio lefelau galw parhaus ar gyfer yr holl fusnesau (e.e. ar gyfer busnesau newydd hunangyflogedig) ac sy'n cynnwys mesurau ar welliannau cynhyrchiant (h.y. trosiant wedi'i rannu gan nifer y cyflogeion) a chyflwyno systemau/meddalwedd busnes sy'n newydd i'r cwmni.
- **Casglu a defnyddio gwybodaeth reoli:** Dylid goresgyn yr heriau i ddarparu gwybodaeth ar gyfer monitro ac adolygu mewnol (a gwerthuso annibynnol) ac i ddarparu gwybodaeth i wella'r gwasanaethau cymorth busnes a gyflenwir. Dylai hyn gynnwys yr isod:
 - Hyfforddi modelau rôl ar y mecanweithiau olrhain sydd ar waith a'u hannog i sicrhau bod pobl ifanc sy'n mynychu'r sesiynau yn cofrestru, yn enwedig y rheini sydd â diddordeb/bwriadau i ddechrau busnes o 16 oed. Dylai hyn helpu yn annibynnol ac yn weithredol i hyrwyddo cymorth a glustnodwyd ar gyfer entrepreneuriaid ifanc a hybu'r nifer o bobl ifanc sy'n mynd yn eu blaenau i gael mynediad at gymorth ar gyfer dechrau busnes.
 - Dilyn y busnesau nad ydynt eto wedi cael mynediad at chwe awr o gymorth a'u hannog i gael mynediad at weithdai a digwyddiadau.
 - Dadansoddi llif yr unigolion o fetrigau penodol – e.e. yr unigolion sy'n derbyn cymorth sy'n cynllunio dechrau busnes ar ôl hynny, y gyfran o unigolion sy'n cael eu cyfeirio o wasanaethau Busnes Cymru i wasanaethau SFBE – a chymryd camau gweithredu pan fo hyn yn syrthio islaw'r disgwyliad.

Argymhellion ar gyfer rhaglenni Busnes Cymru

Y rhaglen gyfredol

7.14 Wrth reoli'r rhaglen gyfredol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried y canlynol:

- Sicrhau bod y consortiwm a gontractiwyd gan y Rhaglen Craidd a Thwf yn cael ymgysylltu mwy cyson ag awdurdodau lleol, banciau'r stryd fawr a benthycwyr busnes eraill. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu ar lefel uwch gyda banciau a sefydlu protocolau ar gyfer atgyfeirio unigolion i'r llinell gymorth a'r wefan neu gynghorwyr penodol. Ar gyfer awdurdodau lleol, dylai fod parhad o ran y

cyfarfodydd rhwng contractwr Busnes Cymru a staff datblygu economaidd yr awdurdodau lleol i rannu gwybodaeth am wasanaeth Busnes Cymru a chymorth busnes arall sydd ar gael mewn ardaloedd lleol.

- Alinio ffurflenni cais y rhaglenni (ar gyfer y rhaglenni Craidd a Thwf, Cyflymu Twf ac SFBE) gyda ffurflenni Banc Datblygu Cymru i sicrhau bod data digonol yn cael ei gasglu ar gyfer pob rhaglen – gan gynnwys caniatâd i gysylltu. Mae hyn er mwyn anelu at greu system atgyfeirio ddi-dor lle y gall ymgeiswyr Banc Datblygu Cymru gael mynediad at gymorth priodol i sicrhau mynediad at gyllid a'i ddefnyddio'n effeithiol.
- Sicrhau bod modelau rôl Entrepreneuriaeth leuenctid yn ymwybodol o ac yn hyrwyddo'r systemau sydd ar waith er mwyn dilyn ac olrhain pobl ifanc sy'n mynegi cryn ddiddordeb mewn dechrau busnes (ond nid ydynt yn bwriadu gwneud hynny ar unwaith) ac anelu at gryfhau'r trefniadau atgyfeirio gyda sefydliadau a cholegau addysg uwch er mwyn sicrhau bod dysgwyr sydd â chynnyrch gyda photensial busnes yn gallu derbyn cyngor a dargedwyd a chymorth sesiynau bwtcamp.
- Ymgorffori sesiynau dilynol gyda buddiolwyr yn rhaglenni Busnes Cymru o fewn tri mis o'r ymgysylltu cychwynnol. Mae hyn er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu a gytunwyd, hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant os nad yw'r buddiolwr wedi derbyn chwe awr o gymorth eto, a chasglu tystiolaeth o ganlyniadau ERDF.
- Cynnal cynnig hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein i fuddiolwyr ar gyfer rhaglenni SFBE a Chraidd a Thwf Busnes Cymru, gyda sesiynau wyneb yn wyneb yn cael eu darparu ar y cyd ag awdurdodau lleol a grwpiau busnes lleol i gyflenwi sesiynau sydd wedi eu teilwra i anghenion lleol. Dylid disgwyl hefyd i awdurdodau lleol a grwpiau busnes lleol ddefnyddio eu cysylltiadau busnes presennol i sicrhau presenoldeb da yn y digwyddiadau.
- Ei wneud yn ofynnol i gynghorwyr busnes Busnes Cymru a'r rhaglen SFBE hyrwyddo buddiannau prentisiaethau i fuddiolwyr, a darparu gwybodaeth am ddarparwyr prentisiaethau lleol. Bydd hyn yn cefnogi blaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi ar gyfer cynyddu nifer y rhai sy'n cychwyn ar brentisiaethau.

- Cyflwyno gofyniad i gynghorwyr busnes annog buddiolwyr i lofnodi 'llw' ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg (yn debyg i'r llwon ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol a chydaddoldeb ac amrywiaeth). Dylai hyn gael ei gefnogi gan lunio canllawiau i gynghorwyr busnes ynglŷn â sut y gallant gefnogi busnesau i hyrwyddo'r Gymraeg.

Rhaglenni yn y dyfodol

- 7.15 Mae'r gwerthusiad yn nodi rhesymeg gadarn dros barhau â rhaglenni Busnes Cymru, yn anad dim oherwydd eu bod yn parhau i lenwi bylchau o ran darpariaeth cymorth busnes ac addysg entrepreneuriaeth a gyflenwir gan randdeiliaid sector eraill (ysgolion, awdurdodau lleol, sefydliadau ariannol).
- 7.16 Wrth lunio dyfodol cymorth busnes a datblygiad Busnes Cymru, dylai Llywodraeth Cymru ystyried y canlynol:
- **Ymestyn cymorth entrepreneuriaeth i bobl ifanc mewn** addysg uwch ac addysg bellach sydd â syniadau busnes gyda photensial ar gyfer twf (e.e. cynhyrchion a gwasanaethau arloesol).
 - **Prif ffrydio ymgysylltu entrepreneuriaeth yng nghwricwlwm yr ysgol drwy ganolbwyntio ar adeiladu gallu.** Gallai hyn gynnwys rhannu adnoddau a chysylltiadau i ganiatáu i ysgolion drefnu eu sesiynau eu hunain a threfnu gweithgareddau dilynol sy'n annog entrepreneuriaeth.
 - **Cefnogi busnesau newydd a thwf busnes drwy wneud y canlynol:**
 - Darparu mwy o gymorth un-i-un ar gyfer busnesau Lefel 2
 - Cynyddu ymwybyddiaeth brand Busnes Cymru ymhlith pobl hunangyflogedig ac unig fasnachwyr drwy weithio gyda chyfryngwyr (megis Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr) a hysbysebu wedi'i dargedu, gan ddefnyddio manylion cyswllt sydd ar gael drwy'r Siambrau Masnach a Thŷ'r Cwmnïau
 - Darparu mwy o ymgysylltu rhagweithiol parhaus â busnesau Lefel 3–5, gan gynnwys ailymweld â busnesau i nodi anghenion cymorth a datblygu pellach posibl pan fo'r cymorth a'r cyngor wedi cael eu rhoi ar waith
 - Parhau i fuddsoddi mewn cymorth i fusnesau i weithredu datrysiadau TGCh

- Cael arbenigwyr technegol mewn datrysiadau TGCh o fewn gwasanaeth contractwr y Rhaglen Craidd a Thwf i ddarparu cymorth a chynghor un-i-un
- **Ei wneud yn ofynnol i gcontractwyr gynnal ‘archwiliadau’ datblygu cynaliadwy a chydraddoldeb ac amrywiaeth** fel rhan integredig o'r cymorth busnes a ddarperir iddynt. Dylai'r archwiliadau hyn nodi gwelliannau y mae unigolion wedi eu gwneud i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth a datblygu cynaliadwy, gyda thargedau'n cael eu gosod ar gyfer y rheini sy'n gwneud newidiadau. Ni ddylai buddiolwyr gael yr opsiwn i optio allan o dderbyn y cymorth hwn, gan ei fod yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Cymru, fel y'u nodir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.
- **Nodi pa wasanaethau cymorth busnes y gallai busnesau fod yn barod i dalu amdanynt** pe bai'r cyllid ar gyfer y gwasanaeth yn cael ei leihau, oherwydd y gallai nifer o fusnesau fod yn barod i dalu am rai ohonynt.
- **Gosod targedau perfformiad ar gyfer rhaglenni er mwyn** annog contractwyr i gefnogi busnesau i greu arbedion effeithlonrwydd, sy'n darparu hwb hirdymor i ysfa gystadleuol ac allforion, megis mesurau ar welliannau cynhyrchiant (h.y. trosiant wedi'i rannu gan nifer y cyflogeion) a chyflwyno systemau/meddalwedd busnes sy'n newydd i'r cwmni.

ATODIADAU

Atodiad 1: Modelau rhesymeg rhaglenni

Model rhesymeg gwasanaethau cymorth ar-lein a dros y ffôn

Budget <i>£7.5m for website; proportion of £2.9m staffing and £1.15m marketing budget</i>				
Aims	Activities	Outputs	Short and medium term outcomes	Longer term outcomes and impacts
Provide on-line and telephone support to potential, new and established businesses particularly SMEs	Respond to telephone and email enquiries	Respond to 30,000 enquiries a year from potential, new and established businesses; Over 88% satisfied / requirements met	Contribute to targets for new and existing businesses being supported	None directly attributable
	Provide on-line resources, signposting to other resources / services, and e-learning for enquirers, L1-4 referrals, and visitors to the website	Businesses are effectively referred to other Business Wales services, including level 1-4 and AGP contractors, Superfast Broadband Exploitation and YE project	Increased knowledge on the value of skills investment	
	Monitor use	Businesses complete BOSS modules/courses	Knowledge and understanding of enquirers and users increased (all three categories)	
		70-80% of BOSS users satisfied with the service they received	Competences of enquirers and users increased (all three categories); confidence to take action raised	
		Businesses receive support in Welsh if requested		
		Around a third of businesses referred other providers, including private sector providers and to Social Enterprises Wales and Superfast Broadband		
Drive demand for services from potential, new and established SMEs	Promote on-line and other services to potential, new and established SMEs (digital communications, newsletters, enquiry responses, follow-up calls / emails)	Distribute x on-line newsletters	Increased knowledge and abilities applied by individuals and enterprises to business start-up, survival and growth	
	Monitor take up / use	Increased demand for services and on-line resources from potential, new and established businesses (measured by outputs above)		
		Increased use of sell2wales by public and private sectors (tenders, active registered businesses)		
Improve the efficiency of support	Provide more information to potential, new and established SMEs (knowledge, understanding, skills, and competences) on-line with on-line support	Increased use of BW website by L1-2 enterprises and potential enterprises / entrepreneurs (specific areas used)	Reduced need for support from L1-4 contractor	
		New online services provided to enterprises e.g. property database	Businesses and potential enterprises are satisfied with online information, advice and guidance which has replaced F2F to face (X %)	

Model rhesymeg cymorth i fusnesau bach a chanolig (BBaCh) Lefel 1–4

Budget <i>£31m contractor costs; proportion of £2.9m staffing and £1.15m marketing budget</i>				
Aim	Activities	Outputs	Short and medium term outcomes	Longer term outcomes and impacts
Provide services to new and established businesses particularly SMEs	Respond to referrals; determine support level to be provided	Respond to X referrals a year from new and established enterprises	Contribute to 10,000 new enterprises and 19,700 SMEs improving business processes Contribute to 2500 new enterprises and 8050 SMEs adopting / improving equality and diversity and sustainable development strategies Business implement equality policies which protect the Welsh Language Increased knowledge and abilities applied by individuals and enterprises to business start-up, survival and growth	Contribute to increased employment of 17,000 in new enterprises and 11,300 in SMEs Jobs safeguarded in all enterprises supported Contribute to increase of £215m in exports Contribute to growth in the turnover of SMEs in Wales Contribute to an increase in the count of birth of new enterprises improved business survival rate Contribute to the creation of high quality new jobs:
	Provide short 1-2-1 support, diagnostics, signposting, workshops (L1)	Support 10,000+ L1 enterprises a year online/workshop support; support 2,500 L2 enterprises a year with up to 7 hours of F2F support. 1,000 L3 enterprises a year with 14 hours F2F support		
	Provide medium intensity support to enterprises with low growth and growth potential (L2 and 3)	Support 1,000 L4 enterprises a year with 14 hours of F2F support; and action planning		
	Identify SMEs with high potential growth and provide a relationship manager to provide support	Make high potential growth referrals to L5 contractor and to other services		
	Refer businesses with growth potential to other services	88% of users (at each level) satisfied / requirements met		
	Monitor and review progress	Employers access two workshops		
	Support provided in Welsh if requested	Support 10,580 new enterprises and businesses to develop equality and sustainability plans		
Drive demand for services from potential, new and established	Promote service to other providers	Increase referrals to non-BW services	Benefits of finance to business performance can be identified Reduced levels of under-representation in use of all business support services	None directly attributable
	Recruit, induct, allocate and support mentors	Use of mentors by L2-4 enterprises		
	Create and support networks	Participation of L2-4 enterprises in networks		
	Undertake outreach activities to increase use of business support by underrepresented groups	88% Satisfaction with mentors / networks Monitoring of gender, ethnicity, disability and LGBT of contacts in enterprises supported, provided mentors and participating in networks		
Improve the efficiency of support	Provide more information to new and established SMEs (knowledge, understanding, competences and skills) on-line with on-line and telephone support	New information, training and guidance provided online	Reduced need for F2F support from L1-4 contractor Identify areas where businesses would be willing to pay for services	
		Test models for leveraging greater employer contributions		

Model rhesymeg y Rhaglen Cyflymu Twf

Budget £17m contractor costs; proportion of £2.9m staffing and £1.15m marketing budget				
Aims	Activities	Outputs	Short and medium term outcomes	Longer term outcomes and impacts
Provide high potential growth businesses with access to support to achieve their potential	Business advisors assess businesses growth potential and support needs. Businesses are given specialist support from business advisors which reflects diagnosis of their needs. High growth businesses are allocated a relationship manager to provide them with on-going information, advice and guidance Support provided in Welsh when requested Monitor take up and use	140 businesses benefit from in depth support per year Contribute to targets for businesses/individuals receiving non-financial support and cross-cutting themes Businesses have a better understanding of skills and actions required to export overseas Businesses access grants to fund any additional private sector business support Businesses have SMART action plan for growing their business 88% user satisfaction with quality of support (relevance, timeliness, accuracy etc.)	A minimum of 10 new full-time jobs created by each business by the end of their third year of support. Business implement equality policies which protect the Welsh Language The turnover of new starts in their last three years of trading is over £2 million Three years after receiving support, the business generates 30% of its sales from outside the UK	Contribute to increased business turnover in businesses in all size groups (1-9, 10-49, 50+) Increase in regional/national GVA (cumulative increase in turnover while accounting for additionality) Reduction in unemployment – no of jobs created that require education at L4 and below Contribute to the creation of high quality new jobs (number of permanent jobs created requiring skills at L5 or above) Contribute to improved business survival rate
Improve high potential growth businesses access to private sector	Business advisors identify the business needs that can most effectively be met by private sector Business advisors signpost individuals / businesses to high quality support Provide grants to fund businesses to access high quality support	Service effectively utilise the expertise of private sector providers Businesses access additional finances (contribute to BW targets on Investment in Business) Businesses can access high quality, relevant business support (contributes to cross-cutting themes and jobs created targets)	Improved productivity in businesses Increased investment in workforce Contributes to targets on new enterprises supported. Contributes to targets on investment in enterprises.	
Provide entrepreneurs with high impact business proposals so they are able to access the support and finance to establish and grow their business	Provide more information to new and established SMEs (knowledge, understanding, competences and skills) on-line with on-line and telephone support Trial paid for additional support	60 Start-ups benefit from in depth support per year Contributes to BW targets for individuals supported, new growth businesses supported and cross- New businesses established Start-ups better understand actions required to grow exports Start-ups have SMART action plan for growing their business	Improved sustainability of new start-ups	

Rhesymeg Entrepreneuriaeth Ieuencid

Budget £7m activity costs; proportion of £6.5m staffing budget				
Aim	Activities	Outputs	Short and medium term outcomes	Longer term outcomes and impacts
Raise aspirations for entrepreneurship and provide information to encourage young people to start a business	Undertake the Big Ideas Marketing campaign every year	Marketing campaign achieves 231,688 web hits 55,000 young people participate in awareness raising sessions 4,610 workshops take place for pre-16 young people 1,125 workshops take place for post-16 young people	Participants understand the benefits and dis-benefits of starting a business 4,200 young people consequently express an interest in starting a business Post 16 participants have a good understanding of the process for starting a business	Increased rate of Total Early-stage entrepreneurship in Wales amongst 16-24 year olds Increase in graduate start-ups Improved start-up survival rates by enterprises led by young people
	Network of Business advisors provide 1-2-1 support to budding entrepreneurs Role models provide coaching sessions for young people wishing to start a business Provide three-day boot camps offering training on how to start a business	422 individuals complete boot camp 6,218 young people participate in awareness raising sessions on starting a business 1,967 young people receive 1-2-1 support 561 individuals progress to other Business Wales services 408 young people are supported to start a business	Participants have developed skills to develop business plans to start a business Participants develop professional networks to support them start their business Participants are aware of other sources of support (e.g. finances) for their business 150 new business starts by young entrepreneurs	

Model rhesymeg Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol (REAP)

Budget £400,000 activity costs; proportion of £6.5m staffing and £800k marketing budget				
Aim	Activities	Outputs	Short and medium term outcomes	Longer term outcomes and impacts
Develop a stakeholder network to undertake structural reforms that create a more innovation-driven entrepreneurial landscape	To work collaboratively with the five stakeholder groups (government, corporate, academia, risk capital, and the entrepreneurial community) change the entrepreneurial landscape in Wales	3,000 stakeholders pledge support to the programme Action plan established to achieve intended outcomes and impacts Five stakeholders groups exhibit collective 'ownership' of the programme	<i>To be determined once the action plan is complete. These are likely to include:</i> Increasing the number of products developed in HE that go to market Increasing the number of high growth businesses in Wales Doubling start up activity Increasing patent registrations Increasing university graduate start-ups More than 5% of UK annual EIS/SEIS investments in Wales Expanding and enhancing venture capital investment in Wales	<i>To be determined once the action plan is complete. These are likely to include:</i> Increase in Welsh economic output Increase in employment Increase in the value of exports from Wales

Model rhesymeg y Rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym lawn (SFBE)

Budget £12.5m contractor costs				
Aim	Activities	Outputs	Short and medium term outcomes	Longer term outcomes and impacts
Provide services to businesses to enable them to implement new business processes enabled by ICT and superfast broadband	Conduct an initial diagnostic of employers to identify their current exploitation of superfast broadband . Provide online and face-to-face training to businesses on topics such as Cloud Computing, CRM systems, financial systems digital marketing and social media Provide one-to-one business support to help individuals undertake changes to improve their business processes	6,600 businesses engaged in the programme and receive an initial diagnostic and signposting 5,500 individuals attend workshops and receive face-to-face support 1,880 new to the firm products or services created, due to the support they received	Increased number of businesses signed up for superfast broadband after receiving support Businesses generate efficiencies from introducing new business procedures Businesses increase turnover due to increased online sales	Contribute to increase in productivity (GVA per capita) from generating efficiencies Contribute to export growth by SMEs Contribute to new jobs created by SMEs and jobs safeguarded

Atodiad 2: Cefndir yr Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid

Yn 2016, cafodd ORS ei benodi i gynnal arolwg bodlonrwydd dwyieithog dros y ffôn ar gyfer Busnes Cymru. Bydd y rhaglen ymchwil gyffredinol yn cynnwys pedwar cam, gyda'r cam olaf yn cael ei gyflawni ac adrodd amdano yn ystod haf 2018. Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn tri adroddiad cam, gyda phob un yn cynnwys 300 o gyfweiliadau fesul cam.

Mae amcanion yr ymchwil fel a ganlyn:

- Sefydlu lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid
- Darparu mewnwelediad i gwsmeriaid – yn arbennig ansawdd y gwasanaeth a gofynion unigolion
- Nodi canlyniadau ac effaith gwasanaethau Busnes Cymru
- Darparu argymhellion ar gyfer gwella gwasanaeth Busnes Cymru
- Dadansoddi bodlonrwydd cwsmeriaid ar draws llifau gwaith amrywiol y busnes
- Deall parodrwydd a galluoedd cleientiaid i wneud cyfraniad ariannol tuag at gymorth
- Darparu cymariaethau ar draws y grwpiau gwasanaeth amrywiol (e.e. Busnes Cymru, y Rhaglen Cyflymu Twf ac ati)

Gwnaeth ORS gydweithio â Llywodraeth Cymru i ddylunio holiadur sy'n ceisio cael mewnwelediad i ganfyddiadau cwsmeriaid o'r gwasanaeth, gyda ffocws arbennig ar ansawdd y gwasanaeth a ph'un a oedd y gwasanaeth wedi'i deilwra i ofynion y cleient. Yn dilyn gwaith maes, mae ORS yn dadansoddi'r data ac adrodd am ganfyddiadau a chasgliadau mewn adroddiad ar gyfer pob cam.

Cyn dechrau pob cam, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cronfa ddata o unigolion i ORS sydd wedi cael mynediad at y gwasanaeth dros y chwe mis blaenorol, ac yna mae ORS yn haenu'r sampl i gynnwys y rheini sydd wedi derbyn cymorth Lefel 1–4 a Lefel 5. Roedd yr holl gleientiaid wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth yn ystod y chwe mis blaenorol cyn dechrau'r cyfweiliadau.

Yna ailgysylltir â 15 cwsmer arall fesul cam er mwyn darparu cyfweiliad manwl pellach i fod yn rhan o'r adroddiad ansoddol. Ar gyfer y cyfweiliadau dilynol, mae ORS yn adolygu'r

adborth oddi wrth yr ymatebwyr i'r prif arolwg dros y ffôn, ac yn cysylltu â'r rhai sydd â "*safbwyntiau pegynol*" (h.y. yn fodlon iawn neu'n anfodlon iawn) yn ogystal â'r rhai sydd wedi cael profiad penodol y gellir ei archwilio ymhellach. Unwaith eto, nod y cwmni yw sicrhau croestoriad eang o Lefel 1–4 i Lefel 5.